Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Lleihau Troseddau Ieuenctid. Newid Bywydau Ifanc.

## Cynllun diwygio a darparu'r system cyfiawnder ieuenctid

CP 1585

Government of the United Kingdom

**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**

# Lleihau Troseddau Ieuenctid.
# Newid Bywydau Ifanc.

## Cynllun diwygio a darparu'r system cyfiawnder ieuenctid

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ar Orchymyn Ei Fawrhydi

Mai 2026

CP 1585

OGL

**© Hawlfraint y Goron 2026**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored Fersiwn 3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle’r ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sydd â hawlfraint trydydd parti, rhaid i chi ofyn am ganiatâd pwy bynnag sy’n dal yr hawlfraint honno.

Mae’r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents

Dylid anfon unrhyw ymholiad am y cyhoeddiad hwn atom yn YJPUPlanningandPerformance@justice.gov.uk .

ISBN 978-1-5286-6516-2

E03609628 05/26

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys o leiaf 40% o ffibr wedi’i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| **Rhagair** | **3** |
| **Crynodeb gweithredol** | **7** |
| **Pennod 1: Y ddadl dros newid** | **11** |
| Adran 1: Tyfu fyny mewn cymdeithas heddiw | 12 |
| Adran 2: Cefnogi'r arddegau bregus heddiw | 13 |
| Adran 3: Y system cyfiawnder ieuenctid heddiw | 13 |
| Adran 4: Pam fod angen diwygio cyfiawnder ieuenctid rŵan | 16 |
| **Pennod 2: Ymyrryd yn gynnar, newid llwybr** | **19** |
| Adran 1: Mynd i'r afael ag achosion troseddu cynhenid | 21 |
| Adran 2: System sy'n ymyrryd yn gynnar | 26 |
| Adran 3: Trawsnewid ymateb y wladwriaeth i risgiau gwaethygol | 30 |
| Adran 4: Ffocws ar feysydd niwed allweddol – troseddau cyllyll, VAWG a therfysgaeth | 32 |
| Adran 5: Atal niwed | 36 |
| **Pennod 3: Yr ymateb iawn ar yr amser iawn** | **38** |
| Adran 1: Dull mwy cadarn a thecach o arallgyfeirio ieuenctid | 39 |
| Adran 2: Proses gyfreithiol deg ac effeithiol i bob plentyn | 45 |
| Adran 3: Lleihau remandio plant dan glo'n ddiangen | 50 |
| Adran 4: Moderneiddio dedfrydau ieuenctid | 56 |
| Adran 5: Oed cyfrifoldeb troseddol | 63 |
| Adran 6: Cyfundrefn cofnodion troseddol sy'n datgloi dyfodol positif | 64 |
| **Pennod 4: Cryfhau gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid** | **67** |
| Adran 1: Cyllid sefydlog a chynaliadwy | 70 |
| Adran 2: Gyrru perfformiad a chodi safonau | 70 |
| Adran 3: Pwrpas newydd i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. | 73 |
| Adran 4: Cryfhau rôl llywodraethau datganoledig a phartneriaid rhanbarthol | 75 |
| Adran 5: Harneisio technoleg i gryfhau ymarfer | 76 |

**Pennod 5: Amgylcheddau cadw dan glo sy'n diogelu'r cyhoedd a chefnogi adsefydlu** **78**


Adran 1: Sefydlogi a chryfhau'r ystâd heddiw 80

Adran 2: Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol 85

**Pennod 6: System cyfiawnder ieuenctid fodern sy'n atal troseddu** **87**

**Atodiad A: Cwestiynau aur am ymchwil** **90**

# Rhagair



Mae'r rhan fwyaf o blant yn ein system cyfiawnder ieuenctid yn cychwyn eu siwrne droseddu ymhell cyn cyrraedd y llys neu ddod i sylw'r heddlu. Mae ansefydlogrwydd, trawma ac esgeulustod yn aml wedi effeithio ar eu bywydau – y math o blentyndod na all y rhan fwyaf ohonom prin ei ddychmygu.

Mae rhai'n tyfu fyny ynghanol trais, caethiwed i gyffuriau neu alcohol, a cham-drin. Mae eraill yn mynd o un cartref plant neu leoliad gofal maeth i'r llall a byth bron yn aros mewn un lle'n ddigon hir i gael y sefydlogrwydd sydd ei angen arnynt i symud ymlaen, heb sôn am dderbyn y cariad a'r gofal er mwyn ffynnu. Mae hyn oll yn eu gwneud yn llawer mwy tebygol o ddiweddu yn y system gyfiawnder.

Fel bachgen ifanc yn tyfu fyny yn Tottenham yn y 1980au, gwelais ormod o bobl ifanc – bechgyn Du fel fi'n aml – yn cymryd eu cam cyntaf tuag at helynt. Roedd llawer yn cael eu tynnu at drais a throseddu heb neb i gamu mewn i newid eu llwybr. Erbyn i'r Wladwriaeth sylwi arnynt, roedd yn rhy hwyr.

Pan fethwn ag ymyrryd yn ddigon buan, gall y canlyniadau fod yn andwyol – nid yn unig i blant ond i ddioddefwyr a chymunedau cyfan. Mae tua 80% o oedolion sy'n troseddu'n gyson iawn yn dod i gysylltiad â'r system gyfiawnder gyntaf pan fyddant yn blant.

Os am weld llai o oedolion yn troseddu, a llai o ddioddefwyr, rhai ymyrryd yn gynt a mwy effeithiol – cefnogi plant cyn i'r risg waethygu neu cyn i'r arwyddion cyntaf o niwed neu droseddu ymddangos.

Dros yr ugain mlynedd diwethaf, gwelsom gynnydd da. Llai o blant yn ymuno â'r system gyfiawnder a llai o bobl yn y carchar. Ond mae hynny hefyd yn golygu mai'r plant sy'n aros yn y system heddiw yw'r rhai mwyaf bregus yn aml, gyda'r anghenion mwyaf cymhleth.

Ar yr un pryd, mae'r risgiau a wynebir gan blant wedi newid yn ddychrynllyd. Mae plant heddiw'n tyfu fyny mewn byd o ecsbloetio ar-lein, grŵmio troseddol drwy'r cyfryngau cymdeithasol, a chynnwys eithafol sy'n ymledu ar gyflymdra aruthrol. Ond yn rhy aml, mae'r system yn cael trafferth cadw ar ben pethau.

Mae cyfleoedd i ymyrryd yn cael eu colli. Nid yw asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu ac atal niwed yn rhannu gwybodaeth yn gyson. Mae plant yn disgyn drwy'r craciau rhwng gwasanaethau, wrth i risgiau waethygu a chyfrifoldeb droi'n aneglur.

Mae’r gwersi a ddaeth allan o Ymchwiliad Southport – ar ôl llofruddiaeth ofnadwy tair o enethod ifanc gan fachgen 17 oed treisgar y gwyddai’r asiantaethau amdano – yn ein hatgoffa’n sobor iawn o’r hyn all ddigwydd os nad yw systemau’n ddigon pendant neu’n cael eu cydlynu’n iawn yn wyneb pryderon cynyddol.

Rhaid i ni ddysgu’r gwersi hyn – ac mae’r llywodraeth yma’n benderfynol o weithredu.

Mae’r Papur Gwyn hwn yn broses unwaith mewn cenhedlaeth o ddiwygio cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr. Mae’n gosod cyfeiriad newydd: moderneiddio’r system i ateb y risgiau a wynebwn heddiw, ymyrryd yn gynt, lleihau carcharu diangen, i gyd gyda ffocws di-baid ar ddiogelu’r cyhoedd.

Mae’r nod yn glir: llai o blant yn cael eu tynnu at droseddu, llai o droseddwyr, a strydoedd saffach.

Mae un egwyddor glir yn ein tywys: credwn fod plant yn gallu trawsnewid eu bywydau. Ond ni ddylai hyn byth olygu anwybyddu ymddygiad niweidiol neu fethu ag ymateb i risg. Ni ddylai peidio â throi plant yn droseddwyr yn ddiangen byth olygu peidio ag ymyrryd.

Mae ein dull o weithredu wedi’i wreiddio yn y pethau sy’n gweithio. Dengys tystiolaeth fod dibynnu gormod ar garcharu ar ôl i ymddygiad waethygu’n creu mwy o oedolion sy’n troseddu, mwy o droseddu a mwy o ddioddefwyr. Mae mwy na dau o bob tri phlentyn sy’n cael eu rhyddhau o ddedfryd o 12 mis neu lai o garchar yn aildroseddu ymhen blwyddyn.

Ar y llaw arall, mae ymyrryd yn gynnar, creu perthynas ymddiriedol â gweithwyr proffesiynol, cryfhau teuluoedd, gwella presenoldeb yn yr ysgol a mynd i’r afael â’r pethau sydd wrth wraidd troseddu i gyd yn lleihau aildroseddu a throseddu.

Dyna pam y bydd y llywodraeth yma’n ymyrryd yn gynt – ac yn fwy effeithiol. Bydd ein rhaglen Turnaround, sy’n cefnogi plant sydd ar fin troseddu, bellach yn derbyn cyllid sicr o £15.4 miliwn y flwyddyn am y tair blynedd nesaf. Mae’r canfyddiadau’n galonogol, gyda lefel isel o droseddu ymhlith plant sy’n cwblhau’r rhaglen.

Ond os yw troseddu’n digwydd, rhaid i’r ymateb fod yn galed a phendant. Mae troi plant draw o droseddu’n golygu mynd i’r afael yn gynt ag ymddygiad trafferthus, rhoi sylw i wraidd y broblem a sicrhau bod dioddefwyr newydd yn llai tebygol.

Dyna pam y bwriadwn ddiwygio dedfrydau allan-o-lys yn sylfaenol er mwyn rhoi sylw clir i ymddygiad trafferthus, a chyflwyno Llysoedd Ymyriadau Ieuenctid newydd – wedi eu dylunio i fynd i’r afael ag achosion ymddygiad troseddol a thorri’r cylch o aildroseddu.

Bydd o hyd angen carcharu’r plant mwyaf difrifol a risg uchel – ond rhaid i hyn fod yn niffyg popeth arall. Fel y saif pethau, mae gormod o ddedfrydau remand a charcharu byr, sy’n

gwneud fawr ddim mwy na throi bywydau plant ben i lawr – gan darfu ar eu haddysg a thorri cysylltiadau teuluol. Mae hyn yn greddfu troseddu, yn lle trawsnewid bywydau.

Dyna pam ein bod yn gosod uchelgais i weld 25 y cant yn llai o blant yn cael eu remandio i garchar, gyda chymorth £5 miliwn ar gyfer lleoliadau cymunedol a mwy o gymorth mechnïaeth. Rydyn ni hefyd yn ystyried diwygio pellach i symud i ffwrdd o ddedfrydau byrrach ac aneffeithiol o garchar i blant, drwy godi'r isafswm cyfnod ar gyfer Gorchmynion Cadw a Hyfforddi, a sicrhau bod carchar yn dal i fod ar gael i'r troseddwyr mwyaf peryglus.

Ynghyd â hyn, byddwn yn cryfhau gorchmynion rhianta fel bod rhieni a gofalwyr sy'n methu'n fwriadol â chefnogi ymdrechion eu plant i newid eu hymddygiad yn wynebu canlyniadau gwirioneddol.

Bwriadwn hefyd, yn anad dim, edrych eto ar gofnodion troseddol plentyndod fel nad yw plant sy'n mynd ar gyfeiliorn ond sy'n trawsnewid eu bywydau'n cael eu condemnio i gario eu camgymeriadau am weddill eu hoes. Mae gormod o bobl ifanc yn cael eu cloi allan o addysg, cyflogaeth a chyfleoedd eraill ymhell ar ôl iddynt newid llwybr bywyd. Nid yw hyn yn gwneud unrhyw les i blant nac ychwaith i'r cyhoedd. Byddwn yn cyhoeddi cynigion diwygio manwl erbyn diwedd y flwyddyn.

A byddwn yn ystyried yn ofalus ydy'r oed cyfrifoldeb troseddol – sydd ar hyn o bryd ond yn 10 oed – yn parhau i adlewyrchu ein dealltwriaeth fodern o blentyndod, plant bregus a'u datblygiad mewn cymdeithas heddiw.

Byddwn hefyd yn gweithio i symud gwladolion tramor ifanc a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol a threisgar difrifol o'r wlad, os yw'n ddiogel gwneud hynny, beth bynnag yw eu hoed, ac mae'r Swyddfa Gartref wedi cyflwyno deddfwriaeth i gyflwyno Gorchymyn Dargyfeirio Ieuenctid i fynd i'r afael â'r nifer gynyddol o bobl ifanc sy'n dod yn ôl i'r system cyfiawnder troseddol am droseddau terfysgaeth, fel y gall asiantaethau ymyrryd cyn i'r risg waethygu.

Rydyn ni hefyd yn diwygio'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn sylfaenol gan roi ffocws cryf ar barhau i wella gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Rydyn ni'n trosglwyddo prif swyddogaethau'r bwrdd i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fel bod gweinidogion yn gwbl atebol am berfformiad y system.

Mae'r Papur Gwyn hefyd yn rhoi sylw i'r anghydraddoldebau sy'n parhau i effeithio ar ganlyniadau ar draws cyfiawnder ieuenctid. Mae gormodedd o hyd o blant gyda phrofiad o fod mewn gofal yn y system. Hefyd bechgyn Du – yn y carchar ond hefyd fel dioddefwyr trais difrifol eu hunain. Ni allwn greu system cyfiawnder ieuenctid deg nac effeithiol a pharhau i anwybyddu'r anghymesuredd hiliol parhaus sy'n rhan ohoni, gan gynnwys 'oedolyneiddio' plant Du o'i gymharu â phlant gwyn. Gyda'i gilydd, mae ein diwygiadau'n

gam ystyrlon tuag at fynd i’r afael â’r anghymesuredd hwn drwy greu system decach a mwy cyson ac atal plant rhag troi at fwy o droseddu.

Yn y pen draw, y systemau cyfiawnder ieuenctid cryfaf yw’r rhai sy’n creu’r nifer leiaf o ddioddefwyr yn y dyfodol. Nid dewis rhwng cosbi ac adsefydlu yw hyn, neu rhwng bod yn “galed” neu’n “feddal” ar droseddu. Mater o beth sy’n gweithio ydy o: diogelu’r cyhoedd, lleihau aildroseddu ac atal plant bregus - sydd mor aml yn ddioddefwyr eu hunain - rhag troi’n oedolion troseddol peryglus yfory.

Bydd y llywodraeth yma’n gwneud ei gorau i roi mwy o gyfle i blant gael dyfodol gwell, ac yn anad dim, i gadw’r cyhoedd yn ddiogel.



**Y Gwir Anrh. David Lammy AS**

Dirprwy Brif Weinidog, Arglwydd Ganghellor ac Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder

# Crynodeb gweithredol

## Y ddadl dros newid a heriau traws-system ehangach

i. Mae plant yng Nghymru a Lloegr heddiw'n tyfu fyny mewn byd sy'n gwbl wahanol i'r byd yr oedd cenedlaethau blaenorol yn byw ynddo. Gall technoleg ddigidol a'r cyfryngau cymdeithasol gyflwyno risgiau newydd. Mae iechyd meddwl yn bryder cynyddol. Ac rydyn ni gyd yn dal i deimlo effeithiau'r pandemig, gyda'i effaith ar addysg a thlodi. Er gwaetha'r heriau hyn, mae'r rhan fwyaf o'n plant yn ffynnu a gwneud yn dda.

ii. Yn erbyn y cefndir hwn, mae'r system cyfiawnder ieuenctid bellach yn gweithio gyda chohort llai ond cynyddol fwy cymhleth o blant, llawer gydag amryw o nodweddion bregus. Mae patrymau troseddu hefyd yn esblygu. Ond eto'n aml, nid yw'r systemau, strwythurau a'r gwasanaethau a ddyluniwyd ar gyfer oes wahanol wedi cadw ar y blaen i'r newidiadau hyn. Mae hyn yn atal y system rhag ymyrryd yn gynnar, lleihau troseddu a diogelu'r cyhoedd.

iii. Mae gormod o fywydau'n cael eu colli, bywydau'n cael eu difetha a chymunedau, canol trefi a busnesau'n cael eu handwyo gan droseddu, anhrefn a throseddau a gyflawnir gan blant.

iv. Wrth atal a mynd i'r afael â'r ymddygiad hwn, rhaid i'r system hefyd sicrhau ei bod yn trin pob plentyn yn deg a chyson. Ym mhob cam, gwelwn ganlyniadau gwahanol i wahanol grwpiau. Mae plant mewn gofal a bechgyn Du a Threftadaeth Gymysg, er enghraifft, yn profi gwahaniaeth annerbyniol – mae'r cynllun hwn yn egluro sut i fynd i'r afael â hyn.

v. Mae strategaeth y llywodraeth yma'n glir. Mae'r ymateb iawn yn dibynnu ar yr amgylchiadau. Mae tystiolaeth gadarn nad yw troi plant yn droseddwyr yn ddiangen yn effeithiol yn y tymor hir. Ond ar yr un pryd, **nid yw osgoi eu troi'n droseddwyr yn golygu peidio ag ymyrryd**. Os yw ymddygiad yn achosi niwed neu'r troseddu'n dod yn barhaus, mae ymyrryd yn amserol, cymesur ac effeithiol yn hanfodol i ddiogelu'r cyhoedd a chefnogi newid parhaol. Mae'r Papur Gwyn hwn yn egluro sut fydd y llywodraeth yn diwygio'r system cyfiawnder ieuenctid i ymyrryd yn gynnar ac effeithiol yn amlach.

## Ymyrryd yn gynnar a newid llwybr cyn i blant ddechrau troseddu

vi. Byddwn yn gyrru'r system cyfiawnder ieuenctid i roi mwy o ffocws ar ymyrryd yn gynnar. Rydyn ni'n parhau i fuddsoddi yn y **rhaglen Turnaround** effeithiol a byddwn hefyd yn edrych ar sut y gall y rhaglen hon, a rhai eraill gan y llywodraeth, gydgysylltu i gefnogi plant sydd ar fin troseddu.

vii. Byddwn yn ceisio ateb y broblem o **droi gormod o blant mewn gofal ac sy'n gadael gofal yn droseddwyr**, gan greu a chyhoeddi protocol cenedlaethol newydd ac uchelgeisiol yn Lloegr dros y misoedd nesaf. Byddwn hefyd yn gweithredu ar ein hymrwymiad maniffesto i greu trosedd newydd o **camfanteisio troseddol ar blant**, a hefyd yn cyflwyno gorchmynion atal camfanteisio troseddol ar blant i roi amodau ar oedolion fydd yn diogelu plant bregus rhag y grŵmio sy'n eu harwain i droseddu.

## Yr ymateb iawn ar yr amser iawn

viii. Mae'r dull presennol o droi plant draw o droseddu'n syrthio'n brin ac yn methu â sicrhau'r ymyrryd cyson ac effeithiol sydd ei angen ar blant, ac y mae dioddefwyr a chymunedau'n ei haeddu. Rydyn ni eisiau gweld dull mwy cadarn a chyson gyda mwy o ffocws ar fynd i'r afael ag anghenion sylfaenol plant. Byddwn felly'n cyflwyno ein cynlluniau ar gyfer **diwygio'r fframwaith dedfrydau ieuenctid allan-o-lys yn sylfaenol,** gan edrych ar bethau fel y cwestiwn ei bod yn ofynnol ac a ddylai fod yn ofynnol i blant gyfaddef bai.

ix. Mae plant sy'n dod o flaen y llys ieuenctid heddiw fel arfer wedi eu cyhuddo o droseddau difrifol ac yn cyflwyno ag anghenion cymhleth, ond nid yw'r system sy'n eu cefnogi wedi cadw ar y blaen i'r newidiadau hyn. Byddwn (gyda chymorth cynghorydd arbenigol, David Ormerod) yn **bwrw golwg sylfaenol ar swyddogaeth a phwrpas llysoedd troseddol i blant,** ac yn adrodd erbyn Awst 2027. Yn y cyfamser, rydyn ni'n gweithio gyda'r sector cyfreithiol i ddatblygu **gofynion hyfforddiant arbenigol** ar gyfer cyfreithwyr sy'n cynrychioli plant, a byddwn yn peilota **Llysoedd Ymyriadau Ieuenctid** ar gyfer plant i brofi model datrys problemau newydd sbon fydd, rydyn ni'n disgwyl, yn gweithio'n well i leihau cyfraddau aildroseddu.

x. Mae cadw plant sy'n wynebu cyhuddiadau difrifol yn y ddalfa'n hollbwysig i ddiogelu'r cyhoedd a sicrhau cyfiawnder. Fodd bynnag, mae gormod yn cael eu **cadw ar remand** yn ddiangen – ac mae'r canlyniadau i drethdalwyr, dioddefwyr a'r plant eu hunain yn wael. Er y byddwn o hyd yn ceisio diogelu'r cyhoedd, byddwn yn arwain ymdrechion i leihau'r boblogaeth yma o 25% dros gyfnod y Senedd hon

drwy ddiwygio’r trefniadau cyllido, buddsoddi mwy mewn opsiynau cymunedol cryf eraill, a chyflwyno deddfwriaeth.

xi. Nid yw’r **ffframwaith dedfrydau ieuenctid,** fel llawer o weddill y system, wedi cadw ar y blaen i newidiadau. Byddwn yn moderneiddio’r ffframwaith gan flaenoriaethu adsefydlu bob tro. Bydd plant yn parhau i gael eu dedfrydu i garchar – fel y dylent – mae diogelwch y cyhoedd yn mynnu hyn. Ond byddwn yn ystyried sut i leihau nifer y dedfrydau byr o garchar yn ddiogel, a hefyd yn cryfhau dedfrydau cymunedol, yn enwedig i ddioddefwyr tro cyntaf. Byddwn hefyd yn sicrhau bod **rhieni a gofalwyr sy’n methu’n fwriadol â chydymffurfio â gorchmynion llys ar gyfer ymddygiad eu plant yn wynebu canlyniadau mwy difrifol**.

xii. Bydd y llywodraeth yn ystyried adolygiad Cyngor y Bar yn ofalus i weld ydy’r **oed cyfrifoldeb troseddol** yn parhau i fod yn briodol.

xiii. Mae diogelu’r cyhoedd yn rhan hanfodol o’r gyfundrefn cofnodion troseddol, yn enwedig i gadw plant ac oedolion bregus yn ddiogel. Dylai hefyd adlewyrchu nad yw plant wedi datblygu’n llawn ac y dylid trin troseddau a gyflawnir yn ystod ieuenctid yn wahanol. Erbyn diwedd y flwyddyn felly, bydd y llywodraeth yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer **pecyn penodol a chymesur o ddiwygiadau posib i’r gyfundrefn cofnodion troseddol plentyndod**.

## Cryfhau gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid

xiv. Mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid arbenigol, lleol ac amlasiantaethol yn rhan hanfodol o’r system cyfiawnder ieuenctid, a byddant o hyd. Maen nhw’n chwarae rôl hollbwysig ac yn perfformio’n gryf ar y cyfan. Fodd bynnag, mae angen cyllid a throsolwg mwy sefydlog a chydlynol ar wasanaethau cyfiawnder ieuenctid, a heb bwysau biwrocratiaeth ddiangen. Yn y cyfamser, mae plant, dioddefwyr a threthdalwyr yn haeddu perfformiad mwy cyson ac effeithiol i weld llai o droseddu ac aildroseddu gan blant. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn disgrifio sut y gallai trefniadau trosolwg newydd gan y gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid edrych o 2027/28 ymlaen, a’n cynlluniau i sicrhau cyllid hirdymor mwy effeithiol.

xv. I gefnogi gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid mwy arloesol, bwriadwn gyflwyno **Cronfa Arloesi Cyfiawnder Ieuenctid newydd, gwerth £1.5m o leiaf, dros 2027/28 a 2028/29,** a byddem yn falch iawn o dderbyn barn y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, a barn eraill, am y meysydd ffocws cychwynnol arfaethedig.

xvi. Byddwn yn trafod **sut y gall technoleg newydd helpu i foderneiddio’r system cyfiawnder ieuenctid**. Byddwn yn ystyried sut y gall dulliau trawsgrifio a chynhyrchedd AI leihau’r baich gweinyddol ar staff rheng flaen, ac yn galw ar

arbenigedd ein Panel Cynghori newydd i ystyried rôl bosib ar gyfer dulliau dadansoddi ataliol i gynorthwyo i adnabod ac ymyrryd yn gynt.

xvii. Mae gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ymrwymiad cyffredin i sefydlu **rôl gliriach a mwy i Lywodraeth Cymru gyda darparu'r system cyfiawnder ieuenctid.** Bydd hyn yn dechrau drwy ddatganoli rhaglenni cyllido penodol a bydd y ddwy lywodraeth yn trafod mynd ymhellach fyth o bosib.

## Sefydliadau cadw dan glo sy'n diogelu'r cyhoedd a chefnogi adsefydlu

xviii. Ffocws y Papur Gwyn hwn yw'r system cyfiawnder ieuenctid ehangach yn hytrach na'r ystâd ieuenctid dan glo. Fodd bynnag, gwelwn rai o'r un heriau – trefniadau sydd heb gadw ar y blaen i'r newidiadau o'i chwmpas – mewn sefydliadau dan glo hefyd. Mae nifer y plant dan glo wedi gostwng yn ddramatig dros yr ugain mlynedd diwethaf, o dros 3,000 i lai na 400 ar unrhyw adeg neilltuol. Fodd bynnag, cedwir llawer o'r plant hynny (dan glo am droseddau treisgar yn bennaf) mewn amgylchedd sydd ddim yn gallu eu hadsefydlu ar hyn o bryd. **Byddwn felly'n ystyried ydy'r ddeddfwriaeth ar gyfer lleoliadau ieuenctid dan glo'n parhau i fod yn addas i bwrpas.**

xix. Nod y llywodraeth yw symud i ffwrdd o sefydliadau dan glo mawr (fel Sefydliadau Troseddwyr Ifanc) a thuag at leoliadau llai gyda mwy o ffocws ar adsefydlu. Mae'r nod yma'n un hirdymor a phwysig ac mae angen i'r ystâd ieuenctid dan glo gael ei chynllun diwygio a darparu ei hun sy'n ystyriol o'r heriau a wynebir ganddi ar hyn o bryd a'i chohortau perthnasol.

xx. **Byddwn felly'n cyhoeddi Cynllun Trawsnewid Ieuenctid Dan Glo yn yr hydref 2026** yn trafod ein cynlluniau ar gyfer hyn. Bydd yn canolbwyntio ar y staff sy'n gweithio yn yr ystâd, gan gynnwys sut orau y gallwn sicrhau gweithlu amrywiol sy'n gallu darparu'n ddiogel ac effeithiol, a hefyd ar y gwasanaethau eraill o fewn iddi – sut y diogelir plant, pa gyfleoedd sydd ar gael iddynt, a sut y byddwn yn lleihau aildroseddu. Yn olaf, bydd y cynllun hefyd yn disgrifio sut y bwriadwn symud yr ystâd ieuenctid dan glo o safleoedd mawr, canolog i rwydwaith o leoliadau llai, therapiwtig wedi eu dosbarthu'n rhanbarthol dros y degawd nesaf.

# Pennod 1: Y ddadl dros newid

1.1. Diogelwch a diogelu pobl rhag niwed sydd wrth wraidd y Papur Gwyn hwn. Mae hynny'n golygu diogelu dioddefwyr a'r cyhoedd, a diogelu plant rhagddynt eu hunain – rhag cael niwed eu hunain ac achosi niwed difrifol i eraill. Mae system sy'n ymyrryd yn rhy hwyr, sy'n gweithredu'n anghyson neu'n osgoi herio risg ddifrifol, yn un sy'n methu pawb.

1.2. Mae'r llywodraeth yma'n glir y gall y rhan fwyaf o blant sy'n troseddu, o gael y cymorth iawn ar yr amser iawn, drawsnewid eu bywydau. Ar yr un pryd, mae'r llywodraeth yn glir bod yn rhaid i system cyfiawnder ieuenctid sydd â'i ffocws ar adsefydlu hefyd gymryd diogelwch o ddifrif ac ymateb yn gadarn. Rhaid iddi ymateb nid yn unig i'r troseddau mwyaf difrifol ond hefyd i batrymau o droseddu cyson a pharhaus - y troseddu meddiangar a barus sy'n andwyo busnesau, yr ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n digalonni pobl.

1.3. Mae nifer fach o blant yn cyflwyno risgiau difrifol iawn. Os nad yw'r risgiau yma'n cael eu hadnabod, rhannu neu'n derbyn ymateb digon buan, gall y canlyniadau fod yn ddinistriol. Dangosodd y digwyddiadau echrydus yn Southport yn glir pa mor ofnadwy yw'r canlyniadau os yw'r system yn methu ag ymyrryd yn effeithiol.

1.4. Mae angen newid diwylliant y system cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau plant yn ehangach. Rhaid cael mwy na bwriadau da neu ymyriadau ynysig i atal niwed difrifol. Mae angen chwilfrydedd proffesiynol, cymryd meddiant o risg a bod yn barod i herio pan fydd ymarfer yn syrthio'n brin. Rhaid trin plant fel plant. Ond rhaid dal yr oedolion a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw i safonau uchel, gyda disgwyliadau clir am ymyriadau ac atebolrwydd pan gollir cyfle i weithredu.

1.5. Mae diogelu, hyrwyddo a chynnal hawliau plant yn hanfodol yn ein cymdeithas wâr a thosturiol. Ond ni ddylai ac ni all hyn gael ei roi uwchlaw hawl eraill i fyw bywyd sy'n rhydd o boen a gofid ymddygiad gwrthgymdeithasol, canlyniadau gydol oes anaf difrifol, neu waeth. Anghofiwn yn aml mai plant eraill, yn aml iawn, yw dioddefwyr troseddau plant.[1] The. Bydd ymateb y llywodraeth i Ymchwiliad Southport yn disgrifio cynlluniau ehangach i daro'r cydbwysedd iawn yn y dyfodol. Bydd llai na hyn yn gwneud cam mawr â'n plant, dioddefwyr ac â'r cymunedau y mae'r system yn bodoli i'w diogelu.

[1] Tablau natur troseddau - plant 10-15 oed – Swyddfa Ystadegau Gwladol

## Adran 1: Tyfu fyny mewn cymdeithas heddiw

1.6. Mae plant yng Nghymru a Lloegr heddiw'n tyfu fyny mewn byd sy'n gwbl wahanol i'r byd yr oedd cenedlaethau blaenorol yn byw ynddo.

1.7. Mae technoleg ddigidol a'r cyfryngau cymdeithasol yn rhan ganolog o fywydau pobl ifanc heddiw. Er y gall gofodau ar-lein gynnig cysylltiad, creadigrwydd a chyfle, mae plant hefyd yn agored i risgiau ehangach a mwy dwys nag erioed. Mae llawer o blant heddiw'n dod ar draws cynnwys niweidiol ar-lein, gan gynnwys deunydd sy'n mawrygu trais a throseddu, normaleiddio casineb at ferched neu'n hybu syniadau gwyrdroëdig am statws a hunaniaeth. I rai plant - gan gynnwys llawer o fechgyn a dynion ifanc sy'n teimlo'n ymylol neu'n ddigyswllt yn barod efallai - gall y pwysau ar-lein hyn dywallt drosodd yn sydyn i'r byd go iawn gan newid agweddau, ymddygiad a deinameg rhwng cyfoedion mewn ffyrdd y mae oedolion a gwasanaethau cyhoeddus yn dal i geisio eu deall.

1.8. Daw'r pwysau digidol hyn ar ben effeithiau parhaus pandemig Covid-19. Mae cyfnodau o ynysu, addysg ar wasgar a llai o fynediad at wasanaethau wedi creu anawsterau o ran dysgu, datblygiad cymdeithasol a gwydnwch emosiynol i lawer o blant. I rai oedd yn wynebu tlodi, ansefydlogrwydd teuluol neu oedd ag anghenion addysgol arbennig yn barod, gwaethygodd y pandemig yr heriau hyn.

1.9. Ar yr un pryd, mae cydnabyddiaeth gynyddol o'r argyfwng iechyd meddwl a lles sydd ymhlith ein plant, gyda llawer yn profi heriau fel gorbryder, iselder ac effeithiau trawma, ynghyd ag ymwybyddiaeth well o niwro-amrywiaeth ac adnabod mwy ohono. Mae'r anghenion hyn yn rhoi pwysau mawr a chynyddol ar lawer o deuluoedd, ysgolion a gwasanaethau rheng flaen – a heb gymorth amserol a chynnar, gall y trafferthion ddwysáu. Gall anghenion heb eu cwrdd wneud plant yn fwy bregus neu gynyddu eu ffactorau risg fel gwahardd o'r ysgol, ecsbloetio a thrais.

1.10. I rai bechgyn a dynion ifanc yn enwedig, gall yr heriau hyn ddigwydd yn erbyn cefndir o ansicrwydd ynghylch hunaniaeth, perthyn a phwrpas. Mae llawer yn tyfu fyny heb lawer o ddynion yn fodelau rôl da iddynt, gyda ffiniau anghyson neu naratif sy'n cyfleu gwrywdod mewn ffyrdd cul a niweidiol. Mewn rhai cymunedau, daeth trais, statws ac ofn yn arwyddion o barch. Gyda diwylliant ar-lein yn ei atgyfnerthu, gall hyn gyfrannu at barhad trais difrifol gan gynnwys troseddau cyllyll, ac at agweddau niweidiol at ferched a genethod o oedran cynyddol fwy cynnar.

1.11. Gall y rhan fwyaf o blant ddelio'n llwyddiannus â'r pwysau hyn, gyda chefnogaeth eu teuluoedd, cyfoedion, ysgolion a chymunedau. Ond i leiafrif, gall dylanwadau modern ac anfantais gyfuno – niweidiau ar-lein parhaus, ynysu cymdeithasol, anghenion iechyd meddwl heb eu cwrdd, ansefydlogrwydd teuluol, tlodi, cysylltiad â

thrais, cam-drin neu ecsbloetio – gan fygwth llwybr peryglus all ddiweddu mewn troseddu.

1.12. Nid oes dim o hyn yn esgusodi troseddu ac anrhefn gan blant. Ond rhaid edrych ar sut y mae'r wladwriaeth yn adnabod y plant hyn, a chynnig cymorth iddynt, yn erbyn y cefndir hwn. Nid yn unig er eu mwyn nhw ond i ddiogelu eraill (gan gynnwys plant eraill) rhag niwed a throseddu.

## Adran 2: Cefnogi'r arddegau bregus heddiw

1.13. Nid yw'r system a etifeddwyd gan y llywodraeth yn gweithio cystal ag y dylai o ran adnabod a chefnogi'r lleiafrif hwnnw o blant sy'n cael fwyaf o drafferth ymdopi â'r heriau uchod.

1.14. Er y gwaith caled gan staff ymroddedig a'r symiau mawr o arian trethdalwyr sy'n cael ei wario, nid yw'r system mor effeithiol nac effeithlon ag y dylai fod. Mae gormod o blant yn disgyn drwy'r craciau a gormod o amser ac egni'n cael ei wario ar broses a biwrocratiaeth yn lle gweithio'n uniongyrchol gyda phlant.

1.15. Mae'r Papur Gwyn hwn yn cyflwyno cynllun y llywodraeth i drawsnewid y systemau ehangach hyn ym Mhennod 2. Nod hirdymor yw hyn fydd yn cymryd blynyddoedd i'w weithredu'n llawn. A hyd yn oed pan ddaw i rym, a bydd y wladwriaeth yn gallu adnabod a chefnogi'r bobl ifanc 'mewn perygl' hyn yn well, mae'r llywodraeth yn realistig – bydd plant yn dal i droseddu. Mae'r Papur Gwyn hwn felly'n cyflwyno cynllun trawsnewidiol a beiddgar ond realistig ar gyfer sut y byddwn yn diwygio'r system cyfiawnder ieuenctid dros gyfnod y Senedd hon.

## Adran 3: Y system cyfiawnder ieuenctid heddiw

1.16. Mae'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr yn fwriadol ar wahân i'r system oedolion, gyda phrif nod unigryw o 'atal troseddu gan blant a phobl ifanc.'[2] Ar ei gorau, daw'r system cyfiawnder ieuenctid ag asiantaethau amlddisgyblaethol at ei gilydd i ddeall anghenion addysgol, iechyd a chymdeithasol y plentyn, i roi'r cymorth ac ymyriadau angenrheidiol yn eu lle i roi sylw i ymddygiad niweidiol, ac i atal troseddu yn y dyfodol.

1.17. Gellir troi plant sy'n dod i sylw'r heddlu am y tro cyntaf draw o'r llys yn llwyr, drwy atebion cymunedol sy'n canolbwyntio ar drwsio'r niwed a mynd i'r afael â'r rhesymau am eu hymddygiad. Pan ddaw achosion i'r llys, mae hynny fel arfer yn y

[2] Deddf Troseddu ac Anrhefn 1998

llysoedd ieuenctid lle y mae ynadon a barnwyr arbenigol yn dilyn fframwaith cyfreithiol ar wahân gyda ffocws ar adsefydlu a bod yn gymesur. Cefnogir plant sy'n derbyn dedfryd gymunedol gan eu gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid lleol – timau awdurdod lleol aml-ddisgyblaethol sy'n dod â'r heddlu a gweithwyr iechyd, addysg a gofal cymdeithasol at ei gilydd. Pan fydd plant yn cael eu carcharu, gall hyn fod mewn ystod o safleoedd diogel – Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, Cartrefi Diogel i Blant, y Ganolfan Hyfforddi Diogel, neu'r Ysgol Ddiogel.

### Tueddiadau hanesyddol a newydd

1.18. Gwelodd yr ugain mlynedd diwethaf leihad sylweddol mewn troseddau ieuenctid. Yn 2009/10, derbyniodd bron i 107,000 o blant rybuddiad neu ddedfryd.[3] Erbyn 2024/25 roedd y ffigur hwn i lawr o tua 88% i 13,000,[4] yn dilyn ymdrechion dygn i wella ymyrryd yn gynnar a throi plant draw o droseddu, ac i leihau eu troi'n droseddwyr yn ddiangen. Mae trawsnewidiad tebyg wedi bod gydag ieuenctid dan glo. Yn 2003/04, roedd tua 2,800 o blant dan glo ar unrhyw adeg neilltuol[5]; heddiw mae'r ffigur yn llai na 400 - lleihad o dros 85%.[6]

1.19. Mae mwy o ymyrryd yn gynnar wedi'i dargedu, troi draw o droseddu ac atebion cymunedol yn lle carcharu wedi gweddnewid llwythi achosion y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid bellach yn gweithio gyda chohort llai o blant sydd ag anghenion cymhleth iawn, yn aml gyda phatrymau dyfnach o ymddygiad niweidiol a hanes troseddu mwy difrifol. Ochr yn ochr â hyn, mae ymarferwyr cyfiawnder ieuenctid wedi dod yn fwyfwy abl wrth asesu risg a chefnogi plant yn ddiogel yn y gymuned. Mae llawer o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid wedi symud adnoddau i fyny'r gadwyn gan weithio gyda phlant sydd ar fin troseddu i atal eu hymddygiad rhag gwaethygu a'u gwneud yn llai tebygol o ymuno â'r system ffurfiol o gwbl. Er bod llai o droseddau a brofwyd i fod wedi cael eu cyflawni gan blant, gwelwn adroddiadau cyson yn y cyfryngau o hyd am blant yn cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol, a throseddau cyllyll yw un o'r pryderon a godir amlaf gan bobl ifanc.[7] Mae'r llywodraeth yma felly wedi cyflwyno cynllun i haneru troseddau cyllyll erbyn 2034. Er i nifer y dioddefwyr lladdiadau yn eu harddegau ddisgyn yn ddramatig yn 2024/25 i'w lefel isaf ers 2012/13, mae hyrddiadau diweddar wedi bod yn fwy na dwbl rhai 2012/13.[8] Er y gwymp ddramatig mewn lladdiadau yn eu harddegau gydag offeryn pigog yn y flwyddyn ddiwethaf, mewn tua

3 Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2019 - 2020 (2021) – GOV.UK
4 Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK
5 Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2019 - 2020 (2021) – GOV.UK
6 Data ieuenctid dan glo (2026) – GOV.UK
7 Y tu mewn i feddwl plentyn 16 oed (2025)
8 Mae nifer y lladdiadau o bobl ifanc yn tueddu i amrywio'n enfawr o un flwyddyn i'r llall felly dylid dehongli'r tueddiadau diweddaraf yn eithaf pwyllog.

dau laddiad allan o dri (65%), defnyddiwyd cyllell neu offeryn pigog i ladd, o'i gymharu â 39% ar gyfer pob dioddefwr lladdiad dros yr un cyfnod.[9] Er y gwelliannau diweddar hyn, mae nifer y plant ag anafiadau cyllyll a dderbyniwyd i'r ysbyty 33% yn uwch na 10 mlynedd yn ôl, a derbyniwyd dros 400 o blant yn 2024/25 yn unig.[10] Mae'r niweidiau hyn yn aml wedi eu cysylltu i ecsbloetio neu wrthdaro ar-lein sy'n troi'n fudur, ac i batrymau trais wedi eu canoli'n lleol.

1.20. Ar yr un pryd, rydyn ni'n gweld cynnydd pryderus mewn ymddygiad rhywiol niweidiol ynghyd â chynnydd ehangach mewn cynnwys ar-lein niweidiol. Er yn gyfran gymharol fach o droseddau ieuenctid, mae nifer y troseddau rhywiol a brofwyd i fod wedi cael eu cyflawni gan blant i fyny am y drydedd flwyddyn yn olynol (i fyny o 6% yn y flwyddyn ddiwethaf).[11]

1.21. Ac mae achosion yn ymwneud ag eithafiaeth, radicaleiddio a thrais-gyfaredd, er yn fach o ran nifer, yn dod yn fwyfwy cyffredin ymhlith plant. Gallai gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, yn gynyddol, fod angen cefnogi plant sy'n dangos ymddygiad wedi'i gymell gan ideoleg, sy'n gwylio cynnwys eithafol neu sy'n hybu casineb ar-lein, neu sydd ag obsesiwn ag arfau a naratifau niwed torfol.

1.22. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol gan blant yn parhau i andwyo gormod o fywydau. Disgwylir i ormod o gymdogaethau a chymunedau oddef ymddygiad afreolus ac aflonyddgar gan blant. Mae'r Papur Gwyn hwn yn disgrifio'r camau a gymerwn i sicrhau bod plant yn cael cynnig cymorth ac opsiynau gwell i'w helpu i ymwrthod ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu wynebu'r canlyniadau am beidio.

### Y dystiolaeth o ymarfer cyfiawnder ieuenctid effeithiol

1.23. Mae'r dystiolaeth i ategu cyfiawnder ieuenctid effeithiol yn glir a chyson. Ar draws yr ymchwil academaidd, arolygiadau, mewnwelediad i ymarfer a chymariaethau rhyngwladol, mae'r darlun yn glir – mae canlyniadau plant yn well pan fydd yr ymateb yn amserol, cymesur, holistig a seiliedig ar waith aml-asiantaethol effeithiol.

1.24. Mae'r ymateb iawn yn yr amgylchiadau iawn yn allweddol. Mae tystiolaeth glir bod gormod o ffocws ar droi plant yn droseddwyr yn aneffeithiol yn y tymor hir – mae gan gyhuddo plentyn, mynd â nhw i lys ieuenctid neu eu cadw yn y ddalfa i gyd rôl bwysig mewn cynnal cyfiawnder a diogelu'r cyhoedd a bydd hyn yn parhau. Ond mae llawer iawn o amgylchiadau lle y mae troi plant draw o'r system cyfiawnder troseddol, drwy ymyriadau cymesur, yn fwy effeithlon ac effeithiol – drwy weithio

[9] Lladdiadau yng Nghymru a Lloegr - Swyddfa Ystadegau Gwladol

[10] Troseddau Cyllyll Ieuenctid | Dangosyddion Craidd | Cronfa Gwaddol Ieuenctid

[11] Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

gyda'r plentyn, rhoi sylw i'r problemau a arweiniodd at eu troseddu yn y lle cyntaf a'u helpu i droi cefn ar droseddu am byth.

1.25. Ond yn anad dim, **nid yw creu troseddwyr o blant yn golygu peidio ag ymyrryd a rhaid i ni aros yn effro i'r risg o gymhellion gwrthgynhyrchiol oherwydd ffocws rhy gul ar leihau plant sy'n ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf. Mae esgeulustod drwy beidio ag ymyrryd, er y bwriad da, dal yn esgeulustod.** Mae hyn yn arbennig o wir os yw plant yn troseddu'n barhaus. Mae peidio ag ymyrryd yn bendant mewn achosion o droseddu parhaus yn creu risg o adael i niwed waethygu gan danseilio diogelwch dioddefwyr a chymunedau a heu mwy o hadau helynt i'r dyfodol.

1.26. Mae ymyrryd yn fwyaf effeithiol pan fo'n gymunedol, holistig, integredig a gwirioneddol aml-asiantaethol, gyda phartneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i roi sylw i'r ffactorau sydd wrth wraidd ymddygiad niweidiol fel anghenion heb eu cwrdd, trawma, amgylchiadau teuluol neu ecsbloetio. Ni all un asiantaeth ateb yr holl anghenion hyn ar ei phen ei hun; mae cymorth effeithiol yn dibynnu ar lwybrau cyfeirio clir, rhannu cyfrifoldeb ac ymarfer wedi'i gydlynu ar draws cymorth cynnar, gofal cymdeithasol plant, addysg, iechyd, cyfiawnder ieuenctid a'r sector gwirfoddol. Mae perthnasoedd positif a sefydlog ag ymarferwyr ymddiriedol a medrus ar draws y rhwydwaith ehangach hwn yn hanfodol – gan helpu plant i deimlo'n ddiogel, rheoli eu hemosiynau a datblygu hunaniaeth fwy pro-gymdeithasol.

## Adran 4: Pam fod angen diwygio cyfiawnder ieuenctid rŵan

1.27. Mae'r system cyfiawnder ieuenctid heddiw'n delio â chohort llai ond llawer mwy cymhleth o blant, llawer ohonynt yn rhan o drais difrifol neu gyda hanes o droseddu cyson. Mae hefyd yn gohort bregus ac mae gan lawer o blant sy'n ymuno â'r system hanes hir o adfyd. Mae llawer hefyd wedi dioddef a goroesi pethau eu hunain – trais, ecsbloetio troseddol, cael eu grŵmio a'u hudo dan bwysau – a rhaid i'r system, yn gynyddol, ymateb i'r proffil bregus a risg deuol hwn.

1.28. Ar yr un pryd, mae gormod o hyd o drais difrifol a throseddau cyllyll ac mae tueddiadau newydd, fel mwy o blant gydag agweddau ac ymddygiad niweidiol neu eithafol, a hyn wedi'i waethygu'n aml gan ddylanwadau ar-lein, yn rhoi pwysau newydd ar wasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol. Rhaid i'r system addasu i ymateb yn gynt, yn fwy pendant ac yn fwy cyson i atal sefyllfa rhag gwaethygu a chreu niwed difrifol.

1.29. Mae diwygio'r system cyfiawnder ieuenctid yn hanfodol i ddarparu cenhadaeth ehangach y llywodraeth o leihau troseddu a chryfhau diogelwch y cyhoedd. Mae'r

dystiolaeth yn glir mai'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau troseddu yn y tymor hir yw ymyrryd yn gynnar ac effeithiol. Gwyddom fod y rhan fwyaf o oedolion sy'n troseddu'n gyson wedi dechrau troseddu'n blant ac mae methu ag ymateb yn gadarn ac adeiladol bryd hynny'n gadael i niwed waethygu a gwreiddio. Nid yw diwygio cyfiawnder ieuenctid yn fater ar wahân i ddiwygio cyfiawnder troseddol yn ehangach, mae'n rhan greiddiol o system sy'n diogelu'r cyhoedd, cefnogi dioddefwyr a lleihau troseddu.

1.30. Rhaid i'r system cyfiawnder ieuenctid fod yn un sy'n gweithredu'n deg a chyson. Fodd bynnag, mae patrymau hirsefydlog o anghydraddoldeb yn parhau i effeithio ar brofiadau a chanlyniadau plant ar draws y system. Er bod y niferoedd yn y system wedi gostwng yn siarp dros yr ugain mlynedd diwethaf, nid yw pob grŵp wedi elwa'r un fath. O'r herwydd mae'r diffyg cymesuredd – gyda rhai grwpiau wedi eu gor-gynrychioli o'i gymharu â'u cyfran o'r boblogaeth ieuenctid yn gyffredinol – wedi gwaethygu.

1.31. Bechgyn yw'r mwyafrif llethol o blant yn y system cyfiawnder ieuenctid. Mae llawer o'r bechgyn hyn – gan gynnwys llawer o fechgyn Gwyn dosbarth gweithio – wedi tyfu fyny mewn tlodi ac anfantais a'u bywydau cynnar wedi eu nodi gan ansefydlogrwydd, anghenion heb eu cwrdd, cael eu gwahardd o'r ysgol a chysylltiad â thrais neu ecsbloetio.

1.32. Mae plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig - yn enwedig bechgyn Du - yn parhau i fod wedi eu gor-gynrychioli bron ym mhob pwynt yn y system. Mae plant Du, sy'n cyfrif ond am 6% o'r boblogaeth 10-17 oed[12], yn cynrychioli 9% o arestiadau, 12% o ddedfrydau a rhybuddiadau, 26% o achosion remand dan glo a 22% o'r boblogaeth ieuenctid dan glo[13]. Mae plant o gefndiroedd Sipsiwn, Roma a Theithwyr hefyd wedi eu gor-gynrychioli yn y system ac rydyn ni'n gweld cynnydd yn nifer y plant treftadaeth gymysg sydd wedi eu gor-gynrychioli. Mae rhagfarn, gan gynnwys rhagfarn oedolyneiddio (yr argraff bod plant, yn enwedig plant Du, yn hŷn, llai bregus a mwy euog na'u cyfoedion) ar bwyntiau penderfynu allweddol yn debygol o fod yn cyfrannu at yr or-gynrychiolaeth yma wrth i blant symud drwy'r system.

1.33. Mae anghydraddoldeb hiliol nid yn unig yn broblem dod i gysylltiad â'r system ond hefyd yn un ddiogelwch. Mae pobl ifanc Du tua chwe gwaith yn fwy tebygol o gael eu lladd na'u cyfoedion[14]. Mae rhai pobl ifanc yn wynebu risg uwch o lawer o'r niwed mwyaf difrifol, sy'n annerbyniol.

12 Grŵp ethnig yn ôl oed a rhyw yng Nghymru a Lloegr (2023) – Swyddfa Ystadegau Gwladol

13 Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

14 Racial Disproportionality YEF (2025)

1.34. Mae grwpiau eraill hefyd wedi eu gor-gynrychioli'n sylweddol yn y system cyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys plant ag anghenion addysgol arbennig neu anableddau / anghenion dysgu ychwanegol (AAAA / ADY).[15] Ac er bod genethod ond yn gyfran fach o'r cohort cyfiawnder ieuenctid (14%),[16] yn aml iawn mae gan y rhai sy'n ymuno â'r system anghenion eithriadol gymhleth oherwydd trawma, ecsbloetio a hunan-niwed – ond eto mae'r system wedi'i dylunio'n bennaf a'i darparu o gwmpas anghenion bechgyn. Mae llawer o blant yn y system cyfiawnder ieuenctid yn disgyn i fwy nag un grŵp wedi'i or-gynrychioli – gall hyn waethygu anfantais a rhaid wrth ymateb sy'n adlewyrchu'r trawstoriad hwn yn effeithiol.

1.35. Mae'r crynodiad cynyddol hwn o anghenion cymhleth ac anghysondeb parhaus yn rhan o system gyda strwythurau sydd heb gadw ar y blaen i ofynion modern. Mae systemau data'n ddarniog, wedi dyddio ac yn aml ddim yn cyfathrebu â'i gilydd – gall gwybodaeth allweddol am risg, diogelwch, addysg neu iechyd meddwl plentyn felly fod ar systemau amryw o asiantaethau heb un trosolwg unedig arni, gan atal adnabod risg waethygol yn gynnar ac arafu cynnydd achosion. Mae'r trefniadau cyllido'n gwaethygu'r heriau hyn – mae cylchoedd grant blynyddol a chyfraniadau amrywiol gan bartneriaid yn creu tirlun ansefydlog, yn ffrwyno cynllunio a chomisiynu hirdymor a'i gwneud yn anodd creu a chadw'r gweithlu medrus, aml-ddisgyblaethol sydd ei angen i ymateb i heriau ein byd heddiw.

**1.36.** Gyda'i gilydd mae'r pwysau hyn – cohort eithriadol gymhleth, anghydraddoldeb wedi gwreiddio, tueddiadau newydd o drais a niwed difrifol, a systemau wedi dyddio – yn dangos yn glir bod taer angen diwygio. **Rhaid arfogi'r system cyfiawnder ieuenctid i ymyrryd yn gynt, ymateb yn fwy cyson a darparu'r cymorth o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu'r realiti sy'n wynebu'r cohort plant hwn heddiw. Mae dioddefwyr a chymunedau yn haeddu ac angen y trawsnewid hwn.**

[15] Ystadegau Disgrifiadol - Addysg, Gofal Cymdeithasol Plant a Throseddu (2022) – MoJ & DfE

[16] Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

# Pennod 2: Ymyrryd yn gynnar, newid llwybr

### Beth y mae'r llywodraeth yma wedi'i wneud yn barod:

Wedi buddsoddi mewn rhaglenni 'fyny'r gadwyn' ar draws addysg, iechyd, cyflogaeth a gofal cymdeithasol plant, gan helpu i ddatrys y rhesymau sydd wrth wraidd troseddau ieuenctid.

Wedi cyflawni ei hymrwymiad maniffesto i sefydlu rhaglen *Young Futures*, gan adnabod a chefnogi pobl ifanc fregus drwy Baneli Dyfodol Ieuenctid mewn dros 50 o ardaloedd lleol a lansio'r wyth Hỳb Dyfodol Ieuenctid cyntaf mewn ardaloedd o droseddu uchel.

Wedi ehangu'r rhaglen Turnaround lwyddiannus a buddsoddi dros £15 miliwn y flwyddyn dros y tair blynedd nesaf i gefnogi o leiaf 12,000 o blant sydd ar fin troseddu i droi draw o droseddu.

Wedi cyflawni ei hymrwymiad maniffesto i gyflwyno trosedd newydd o ecsbloetio plant yn droseddol a mynd gam ymhellach drwy gyflwyno gorchmynion sifil i darfu'n gynt ar oedolion sy'n ecsbloetio plant yn droseddol.

Wedi cryfhau'r ymateb pan fydd plentyn yn cael ei ddarganfod yn cario cyllell, gan sicrhau ymyriadau gorfodol amserol, aml-asiantaethol seiliedig ar dystiolaeth.

### Beth fydd y llywodraeth yma'n ei wneud:

Cyhoeddi 'protocol' newydd uchelgeisiol eleni i droi llai o blant mewn gofal ac sy'n gadael gofal yn Lloegr yn droseddwyr.
Agor 50 o Hybiau Dyfodol Ifanc erbyn diwedd y Senedd hon gan ddod â gwasanaethau lefel gymuned at ei gilydd i gynyddu mynediad at gyfleoedd, gwella iechyd meddwl a lles, a helpu i droi plant draw o droseddu.

Cyflwyno gorchymyn dargyfeirio ieuenctid fel offeryn rheoli risg newydd ar gyfer y nifer gynyddol o blant a phobl ifanc sy'n dangos arwyddion o fod yn rhan o weithgareddau terfysgaeth, a darparu £1.5m dros dair blynedd i gyllido ymyriadau.

Adnabod plant gyda rhiant yn y carchar er mwyn cynnig cymorth amserol ac effeithiol iddynt i'w cynorthwyo i gyflawni a ffynnu.

2.1. Mae ymyrryd yn gynnar - ymhell cyn i blentyn ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol - yn hollbwysig i helpu plant i ffynnu, gwneud dewisiadau positif ac aros yn ddiogel, gan hefyd leihau troseddu a gwarchod y cyhoedd yn well. Gwyddom fod tua 80% o oedolion sy'n troseddu'n gyson wedi dechrau troseddu'n

blant[17]. Rhaid i ymyrryd yn gynnar felly fod yn weithredol ac o sylwedd - gall cymorth amserol i blant, ar yr adeg pan mae ganddynt fwy o gapasiti i newid, chwarae rôl bwysig mewn torri'r cylch o droseddu a gwella eu canlyniadau'n fwy cyffredinol.

2.2. Mae cost ymyrryd yn hwyr yn sylweddol ac oddeutu bron i £17 biliwn ar draws Cymru a Lloegr yn 2016.[18] Ac mae'r dystiolaeth yn glir bod ymyrryd yn gynnar yn gweithio. Yn ôl gwerthusiad o'r rhaglen *Supporting Families* yn Lloegr – oedd yn darparu cymorth 'teulu cyfan' wedi'i deilwrio – roedd y canlyniadau'n bositif gan gynnwys lleihad sylweddol yn nifer y plant a gafwyd yn euog ac a dderbyniodd ddedfryd o garchar, gan roi manteision cost o £2.28 am bob £1 o fuddsoddiad.[19] Pan fydd plant a theuluoedd yn derbyn cymorth amserol, mae llai o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus.

2.3. Mae'r ddadl foesol yr un mor gryf. Mae plant yn ddatblygiadol wahanol i oedolion, yn fwy bregus i gael eu cam-ddylanwadu a'u hecsbloetio, a gwyddom fod aeddfedrwydd gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol yn parhau ymhell ar ôl dod yn oedolyn. Mae ymyrryd yn gymesur ac amserol, gan roi sylw i anghenion sylfaenol, yn greiddiol bwysig i helpu plant i ffynnu drwy'r glasoed ac wrth dyfu'n oedolion, gan eu gwneud yn llai tebygol o droseddu yn y dyfodol.

2.4. Mae'r tirlun atal yng Nghymru'n wahanol oherwydd bod gwasanaethau fel iechyd, addysg a gofal cymdeithasol – sy'n ganolog i ymyrryd yn gynnar – wedi eu datganoli i Lywodraeth Cymru. Mae Cymru'n cyflwyno ei dull system-gyfan, atal a deall-trawma o weithredu yn y Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer Cymru. Mae'r Fframwaith Atal yn dod â'r holl wasanaethau sy'n gweithio i atal troseddau ieuenctid at ei gilydd yn un weledigaeth atal gydgysylltiedig i nodi'n gliriach beth yw rôl y gwasanaethau datganoledig a'r partneriaid, gan adlewyrchu'r tirlun cyfiawnder ieuenctid gwahanol yng Nghymru a'i gysylltiadau i'r gwasanaethau iechyd, lles a llesiant.

17 Troseddwyr Cyson (2019) – GOV.UK

18 The cost of late intervention: Early Intervention Foundation (2016)

19 Cefnogi Teuluoedd: 2021-22 a thu hwnt (2021) – GOV.UK

Mae ymyrryd yn gynt ac effeithiol yn gwbl angenrheidiol i’r system. Ni ddylai’r un plentyn gael ei hudo at droseddu oherwydd cymorth a gyrhaeddodd yn rhy hwyr neu system wasgarog. Mae’r llywodraeth yma’n cryfhau ei harweinyddiaeth genedlaethol ar atal troseddu i greu system fwy cydlynus sy’n atal troseddu ymhell cyn iddo ddigwydd - system sy’n adnabod plant bregus yn gynnar, cryfhau’r sylfeini gwarchodol o gwmpas plentyn, ac ymateb yn sydyn pan fydd yr arwyddion cyntaf o risg yn ymddangos.

## Adran 1: Mynd i’r afael ag achosion troseddu cynhenid

2.5. Mae llwybrau plant at droseddu’n aml wedi eu dylanwadu gan gymysgedd dyrys o ffactorau unigol, teuluol, cymdeithasol a strwythurol. Nid yw profiadau o drawma, gwahardd o’r ysgol, cam-drin domestig, ansefydlogrwydd teuluol, rhiant yn y carchar neu dlodi’n penderfynu dyfodol plentyn, ond medrant eu gwneud yn fwy bregus, yn enwedig pan fydd nifer o bwysau’n cyfuno.

2.6. Dyna pam fod dull ‘atal yn gyntaf’ yn ganolog i strategaeth y llywodraeth o ddelio â throseddau ieuenctid. Y ffordd orau o leihau troseddu yw ei atal rhag digwydd yn y lle cyntaf drwy gryfhau’r sylfeini sy’n helpu plant a sicrhau bod y cymorth iawn ar gael ar yr amser iawn. Mae gweithredu i fyny’r gadwyn ar yr achosion cynhenid yn fwy effeithiol a chynaliadwy ac yn costio llai nag ymateb unwaith i niwed ddigwydd.

2.7. Mae teulu sefydlog, cymorth yn y gymuned a system gofal cymdeithasol plant sy’n diogelu a chefnogi’r mwyaf bregus – ochr yn ochr â chyfranogi mewn addysg, hyfforddiant a gweithgareddau positif – yn ganolog i leihau niwed ac atal plant rhag cael eu hudo i droseddu.

2.8. Gwyddom fod lleihau tlodi plant yn ganolog i greu teuluoedd sefydlog a chryfhau sylfeini gwarchodol. Nod Strategaeth Tlodi Plant (2025-2035) y llywodraeth bresennol yw cyflawni hyn drwy godi 550,000 o blant allan o incwm cymharol isel – gan ddisgwyl darparu’r lleihad mwyaf mewn tlodi plant dros gyfnod un Senedd. Mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn cynnwys pum amcan gyda’r nod o gyfrannu at ddileu tlodi plant dros y deng mlynedd nesaf neu fwy.

### Gofal cymdeithasol plant ac ymatebion diogelu

2.9. Rydyn ni’n diwygio’r system gofal cymdeithasol plant yn Lloegr i weithio’n effeithiol i ddiogelu plant a mynd i’r afael â’r prif ffactorau sy’n arwain at droseddu, gan gynnwys buddsoddi £2.4 biliwn yn y rhaglen *Families First Partnership* (FFP) a chyflwyno’r Ddeddf Llesiant Plant ac Ysgolion.

2.10. Ategir y diwygiadau hyn gan y Fframwaith Gofal Cymdeithasol Plant Cenedlaethol a’r canllawiau Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant. Mae’r rhain yn symud y ffocws yn glir tuag at ymyrryd yn gynt, sefydlogrwydd a diogelu fel bod asiantaethau’n rhannu gwybodaeth yn well a darparwyr addysg a lleoliadau gofal plant wedi integreiddio’n llawn mewn trefniadau diogelu aml-asiantaethol.

2.11. Tra byddwn yn ailwampio’r system gofal cymdeithasol plant, gwyddom fod plant gyda phrofiad o fod mewn gofal yn parhau i fod wedi eu gor-gynrychioli’n enfawr yn y system cyfiawnder ieuenctid. Yn ôl canfyddiadau hunan-adrodd gan blant a holwyd mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a’r Ganolfan Hyfforddi Diogel yn 2024/25, roedd 65% wedi bod dan ofal awdurdod lleol ar ryw adeg[20]. Gall profiadau o drawma, tlodi a diffyg perthnasoedd sefydlog ac ymdeimlad o berthyn - a hyn oll wedi’i waethygu’n aml gan nifer o leoliadau’n methu a tharfu ar addysg - wneud plant bregus yn fwy agored i droseddu a chael eu hecsbloetio.

2.12. Ond gwyddom fod y system hefyd yn troi gormod o blant mewn gofal yn droseddwyr. I blentyn mewn gofal, gallai ymddygiad a allai fod wedi cael ei ateb mewn cartref teuluol ddirywio i helynt gyda’r heddlu ac ymatebion cyfiawnder ffurfiol. Ar yr un pryd, gall yr ansefydlogrwydd a’r ynysu sy’n deillio o ymwneud â gofal cymdeithasol plant wneud plant bregus yn fwy agored i gamfanteisio troseddol. Mae’r ystadegau’n siarad drostynt eu hunain – cafwyd 52% o bobl ifanc gyda phrofiad o fod mewn gofal yn euog o drosedd erbyn 24 oed, o’i gymharu â 13% sydd erioed wedi bod mewn gofal.[21] Mae’r canlyniadau’n ddiamheuol – mae gan gyfran fawr o oedolion ifanc a fu yn y carchar brofiad o’r gwasanaethau gofal cymdeithasol; roedd mwy na dau o bob pump yn ‘blant mewn angen; a bron i un o bob pump wedi bod mewn gofal.[22]

2.13. **Dyna pam y bydd y llywodraeth hon yn cyhoeddi protocol newydd uchelgeisiol eleni i droi llai o blant mewn gofal ac sy’n gadael gofal yn Lloegr yn droseddwyr.** Gan adeiladu ar brotocol 2018, bydd yn cael ei gryfhau’n sylweddol gan nodi disgwyliadau clir o ran beth ddylai asiantaethau lleol ei wneud i ddiogelu plant a phobl ifanc gyda phrofiad o fod mewn gofal rhag cael eu troi’n droseddwyr, ar draws pob lleoliad gofal. Bydd hefyd yn craffu canlyniadau’n well a rhoi sylw i sut mae profiad o fod mewn gofal yn cysylltu i nodweddion eraill fel hil, anabledd a rhywedd.

---

20 Plant dan glo 2024-25 (2025) – Arolygiaeth Carchardai EF

21 Cefndir addysg plant mewn gofal sy'n ymuno â'r System Cyfiawnder Troseddol – Swyddfa Ystadegau Gwladol

22 Cefndir addysg a gofal cymdeithasol pobl ifanc sy'n rhyngweithio â'r system cyfiawnder troseddol – Swyddfa Ystadegau Gwladol

2.14. Ynghyd â hyn ac yn amodol ar ddeddfwriaeth, bydd y llywodraeth yma'n sefydlu'r Awdurdod Amddiffyn Plant (CPA) i gryfhau'r system diogelu plant yn Lloegr drwy ddarparu trosolwg cenedlaethol a helpu i sicrhau nad yw'r rhai sy'n gyfrifol am gadw plant yn ddiogel yn eu gadael i lawr. Bydd y CPA yn chwarae rôl bwysig mewn adnabod gwendidau systemig, hyrwyddo dysgu ar draws asiantaethau a dangos yn glir lle mae angen gweithredu i wella ymarfer, gan gynnwys drwy helpu i adnabod a cheisio datrys y gwahaniaethau demograffig o ran cadw plant yn ddiogel. Yng Nghymru mae'r gwaith yma'n cael ei ddarparu gan y Bwrdd Diogelu Cenedlaethol a Byrddau Diogelu Rhanbarthol.

2.15. Mae unrhyw blentyn sy'n profi neu sy'n debygol o brofi niwed sylweddol yn haeddu ymateb amddiffyn plant. Mae Working Together to Safeguard Children a Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl yn glir bod angen dull cydlynus, aml-asiantaethol o adnabod ecsbloetio'n gynnar a rhoi rhagofalon yn eu lle. I wneud hyn rhaid cael fframweithiau asesu cyffredin, protocolau penderfynu clir ar-y-cyd, trefniadau rhannu gwybodaeth integredig a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol ar adnabod arwyddion o gamfanteisio.

2.16. Mae camfanteisio troseddol ar blant yn un o'r prif bethau sy'n gyfrifol am droseddau ieuenctid. Mae plant sy'n cael eu camfanteisio'n ddioddefwyr a'u hymddygiad yn aml yn adlewyrchu ofn, angen heb ei gwrdd neu ddylanwad oedolion. Wrth ymateb, mae'r llywodraeth wedi gloywi'r Egwyddorion Ymarfer Amlasiantaethol ar gyfer ymateb i gamfanteisio ar blant a niwed y tu allan i'r teulu yn Lloegr, i gryfhau'r dull cenedlaethol o fynd i'r afael â chamfanteisio ar blant a mathau eraill o niwed y tu allan i'r teulu.

2.17. Bydd diwygio deddfwriaethol hefyd yn cryfhau ymateb y system. Mae'r Ddeddf Troseddu a Phlismona yn cyflwyno **trosedd newydd o gamfanteisio ar blant yn droseddol i gryfhau'r opsiynau sydd ar gael i ddal cyflawnwyr i gyfrif.** Rhaid i hyn eistedd ochr yn ochr ag adnabod camfanteisio'n gynt, diogelu amserol a llwybrau ymyrryd clir pan fydd pryderon yn codi gyntaf, fel bod plant yn cael eu diogelu cyn i gamfanteisio gael cyfle i wreiddio. I gefnogi hyn mae'r Ddeddf yn cyflwyno gorchmynion atal sifil ecsbloetio plant yn droseddol. Bydd y rhain yn offeryn newydd pwerus i darfu'n gynt ar ymddygiad camfanteisio gan oedolion, gan gynnwys os nad yw'r trothwy troseddol wedi'i gyrraedd eto neu os nad yw erlyn yn bosib. Bydd yr opsiynau hyn hefyd yn gadael i'r llys osod cyfyngiadau a gofynion cymesur ar oedolion sy'n cyflwyno risg o gamfanteisio ar blant, gan helpu i atal niwed a gwaethygu tra bod trefniadau diogelu a chymorth ehangach yn cael eu rhoi yn eu lle. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau statudol i'r heddlu ynghyd â chanllawiau anstatudol i ymarferwyr i helpu i weithredu'r troseddau newydd a gallu adnabod dioddefwyr camfanteisio troseddol ar blant yn well. Bydd y canllawiau hyn yn tynnu

sylw clir at bwysigrwydd gweithio'n aml-asiantaethol i gefnogi plant a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymarferwyr o gamfanteisio troseddol ar blant.

2.18. Llinellau cyffuriau yw'r model mwyaf treisgar o gyflenwi cyffuriau ac yn fath niweidiol iawn o gamfanteisio troseddol ar blant. Mae'r llywodraeth yma'n buddsoddi mwy na £34m yn y Rhaglen Llinellau Cyffuriau eleni i darfu ar gangiau cyffuriau sy'n camfanteisio ar blant a diogelu plant rhag cael eu camfanteisio'n droseddol. Ers Gorffennaf 2024, mae'r rhaglen wedi gweld cau dros 3,700 o linellau cyffuriau, dros 10,100 o arestiadau a chymryd meddiant o 1,200 o gyllyll. Rhwng Gorffennaf 2024 a Rhagfyr 2025, derbyniodd tua 750 o blant a phobl ifanc gymorth arbenigol ac yn ôl asesiad y Ganolfan Cydlynu Llinellau Cyffuriau Genedlaethol, mae nifer y plant sy'n rhan o linellau cyffuriau i lawr o 17% ers 2022/23.

2.19. Mae hyn ochr yn ochr ag ymateb y llywodraeth i Archwiliad Cenedlaethol y Farwnes Casey, sy'n cynnwys sefydlu Ymchwiliad Annibynnol i Gangiau Grŵmio i edrych ar fethiannau systemig, sefydliadol ac unigol, lansio ymgyrch heddlu genedlaethol i gamfanteisio a cham-drin plant yn rhywiol gan grwpiau, a chryfhau'r gyfraith drwy greu troseddau newydd yn y Ddeddf Troseddu a Phlismona'n ymwneud â threisio a cham-drin rhywiol treiddiol arall gyda phlentyn dan 16 gan oedolyn, a chyflwyno cynllun i ddiystyru euogfarnau a rhybuddiadau a roddir i blant am 'buteindra' ar y stryd.

2.20. Mae'r llywodraeth yma hefyd yn ystyried sut y gallwn adnabod plant gyda rhiant yn y carchar yn sensitif er mwyn cynnig cymorth effeithiol iddynt, yn unol â'n hymrwymiad maniffesto. Bydd hyn yn helpu i leihau niwed rhyng-genhedlaeth, gwella lles plant a rhoi'r cymorth sydd ei angen ar blant i ffynnu.

### Cyfranogiad a llesiant

2.21. Mae cadw plant mewn ysgol, coleg neu hyfforddiant, ac yn dysgu, yn hollbwysig. Mae'n gwella sgiliau, perthnasoedd ac ymdeimlad o berthyn a phwrpas gan hefyd wneud plant yn llai bregus i niwed a throseddu. Mae'r llywodraeth yma'n cryfhau cyfranogiad drwy ymgysylltu'n well ag addysg sydd, fel y gwyddom, yn un o'r ffactorau gwarchodol cryfaf rhag troseddu yn y dyfodol, gan roi cymorth wedi'i dargedu i blant nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET), ac ehangu mynediad at weithgareddau diogel sy'n cyfoethogi bywydau.

2.22. Bydd Papur Gwyn y llywodraeth Every Child Achieving and Thriving Schools yn sicrhau bod mwy o blant yn Lloegr yn mynd i'r ysgol drwy osod safonau uchel ar gyfer presenoldeb gan hefyd ddileu rhwystrau i fynychu, cryfhau cymorth ymddygiad a hyrwyddo ymarfer cynhwysol. Bydd ein diwygiadau AAAA yn sicrhau bod plant yn Lloegr yn derbyn cymorth cynnar seiliedig ar dystiolaeth mewn lleoliadau prif ffrwd i aros mewn addysg a chyflawni a ffynnu fel eu cyfoedion.

Byddwn yn integreiddio cymorth y gwasanaethau iechyd, gofal a theulu er mwyn adnabod a rhoi sylw i anghenion plant fel y maen nhw'n codi. Bydd hyn yn helpu i leihau allgau a datgysylltu y gellir ei osgoi, sydd wedi'i gysylltu'n gyson i risg uwch o droseddu.[23]

2.23. Mae ansicrwydd economaidd a datgysylltu o addysg a chyflogaeth yn ffactorau risg hysbys ar gyfer troseddau ieuenctid. Mae'r llywodraeth yma wedi buddsoddi yn *Youth Guarantee Trailblazers* yn Lloegr, sy'n profi dulliau arloesol o adnabod a chefnogi pobl ifanc NEET, neu mewn perygl o fod yn NEET, yn well. Mae rhai cynlluniau *Trailblazer* yn canolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc ag anghenion cymhleth neu brofiad o'r system cyfiawnder ieuenctid. Ochr yn ochr â hyn, mae Strategaeth Ieuenctid Genedlaethol y llywodraeth yn cryfhau ffactorau gwarchodol drwy ehangu mynediad at fannau diogel, gweithgareddau sy'n cyfoethogi ac oedolion ymddiriedol, gan helpu i droi plant draw o ymddygiad niweidiol a thuag at gyfleoedd positif.

2.24. I leihau'r risg o bobl ifanc yn dod yn NEET ymhellach, mae'r llywodraeth yn buddsoddi mewn Hybiau Ieuenctid i roi cymorth cyflogaeth cynnar 'ar sail lle' i bobl ifanc 16-24 oed sy'n wynebu rhwystrau i weithio, gan gynnig cymorth cyflogadwyedd wedi'i deilwra, datblygu sgiliau a mynediad at wasanaethau ehangach fel tai, iechyd meddwl a lles. Ym mis Mawrth 2026, fe wnaeth y llywodraeth gadarnhau 80 Hỳb Ieuenctid newydd ar draws Lloegr gyda chynlluniau i ehangu i dros 360 safle ar draws Prydain dros y 3 blynedd nesaf.

2.25. Gwyddom fod anghenion iechyd meddwl plant wedi bod ar gynnydd drwy'r wlad – mae gan tua un o bob pump o blant anhwylder meddwl tebygol,[24] gyda llawer mwy mae'n debyg yn delio â thrallod neu ddiffyg rheoli emosiynau sydd efallai ddim yn cyrraedd y trothwyon diagnostig ond er hynny'n effeithio ar bresenoldeb ysgol, perthnasoedd ac ymddygiad.

2.26. Er nad yw'r rhan fwyaf o blant ag anawsterau iechyd meddwl yn mynd ymlaen i droseddu, mae cyfraddau uchel o anghenion iechyd meddwl ymhlith plant yn y system gyfiawnder[25]. Gwyddom y gall plant fod yn fregus i gael eu hudo at droseddu pan fydd anghenion iechyd meddwl yn cyfuno â ffactorau adfyd eraill fel tlodi, trawma, gwahardd o'r ysgol ac AAAA heb eu cwrdd. Rydyn ni felly'n gwella adnabod anghenion iechyd meddwl yn gynnar, mynediad at gymorth ac ymatebion cydgysylltiedig gan wasanaethau addysg, iechyd a chymunedol.

[23] Cordis Bright (2024) – Do interventions to prevent school exclusion reduce and/or prevent offending?

[24] Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yn Lloegr (2023) – NHS England Digital

[25] Asesu anghenion plant wedi eu dedfrydu yn y System Cyfiawnder Ieuenctid– GOV.UK

2.27. Bydd Cynllun Iechyd 10 Mlynedd y llywodraeth yn cyflymu'r broses o ehangu timau cymorth iechyd meddwl mewn ysgolion a cholegau yn Lloegr gan ehangu ar lefel genedlaethol erbyn 2029. Bydd hyn yn helpu i adnabod angen yn gynt ac atal sefyllfa rhag troi'n argyfwng. Ar yr un pryd, bydd y llywodraeth yn buddsoddi £13m i beilota mwy o hyfforddiant i staff fel y gall timau gefnogi plant ag anghenion cymhleth, gan gynnwys trawma a niwro-amrywiaeth, yn well. Ochr yn ochr â hyn, mae timau 'cymdogaeth' aml-ddisgyblaethol newydd i blant a phobl ifanc yn cael eu sefydlu i ddarparu cymorth integredig a mynediad mwy amserol at gyngor arbenigol.

2.28. Hefyd, mae'r llywodraeth yma wedi cadarnhau hwb cyllid o £7m ar gyfer hybiau cymorth cynnar ar draws Lloegr, sy'n rhoi cymorth iechyd meddwl galw heibio, mynediad agored i bobl ifanc. Mae'r hybiau'n cynnig help amserol a hygyrch ar gyfer ystod o heriau iechyd meddwl, heb fod angen cyfeirio nac apwyntiad meddyg teulu, a disgwylir iddynt ddarparu tua 10,000 o ymyriadau cymunedol ychwanegol gan helpu i atal gwaethygu a lleihau'r pwysau ar wasanaethau arbenigol.

2.29. Mae arloeswyr Fframwaith Gofal Integredig (Cymunedol) GIG Lloeg yn cryfhau gweithio ar-y-cyd ar draws iechyd, addysg, gofal cymdeithasol a chyfiawnder ieuenctid. Maen nhw'n cefnogi partneriaid mewn systemau lleol i gwrdd yn well ag anghenion plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth a allai fod yn fregus i wahardd, camfanteisio neu droseddu. Mae'r arloeswyr, sydd bellach yn weithredol mewn 11 ardal leol, wedi dangos manteision clir gan gynnwys canlyniadau gwell i blant a theuluoedd, gan atal plant rhag cael eu lleoli mewn unedau diogel a lleoliadau lles ac iechyd meddwl, a chefnogi gweithlu mwy hyderus a chyson.

2.30. Roedd Strategaeth Iechyd Meddwl a Llesiant llywodraeth flaenorol Cymru, a gyhoeddwyd yn Ebrill 2024, yn disgrifio ei chynlluniau i wella mynediad at gymorth iechyd meddwl. Mae'r strategaeth yn cynnwys ffocws ar roi ymyrryd yn gynnar, atal a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth galon gwasanaethau iechyd meddwl, gan sicrhau bod pobl yn cael eu cyfeirio at y cymorth mwyaf priodol ar yr amser iawn, yn ddi-oed.

## Adran 2: System sy'n ymyrryd yn gynnar

2.31. Pan fydd plant unigol yn dechrau dangos ymddygiad sy'n awgrymu risg o gael eu hudo at droseddu, rhaid i'r system fod wedi'i harfogi i ymateb yn sydyn, effeithiol a chymesur ar yr arwydd cyntaf.

2.32. Mae llawer o blant sy'n dod i sylw'r heddlu neu'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn hysbys i asiantaethau eraill yn barod; a rhai hefyd wedi dioddef camfanteisio, trais ac esgeulustod eu hunain.

2.33. Mae system ymyrryd yn gynnar fodern felly'n dibynnu ar gydweithrediad aml-asiantaethol cryf, adnabod risg o niwed yn ddibynadwy, a llwybrau clir ac amserol at gymorth – i sicrhau bod plant yn derbyn y cymorth iawn cyn i ymddygiad niweidiol waethygu neu wreiddio.

2.34. Mae gan y llywodraeth yma ffocws clir ar gefnogi plant mewn perygl i gyflawni eu potensial ac i ymyrryd yn gynnar i atal cymryd rhan mewn troseddu.

### Rhoi'r systemau a'r partneriaethau iawn yn eu lle

2.35. Rydyn ni'n cydnabod pa mor bwysig yw dulliau cydlynus ac ataliol o leihau trais difrifol. Rydyn ni'n parhau i fuddsoddi mewn Unedau Lleihau Trais (VRU) a'r Ddyletswydd Trais Difrifol (SVD), sy'n dod â phartneriaethau lleol at ei gilydd i geisio datrys y pethau sydd wrth wraidd trais, gyda gofyniad statudol i gydweithredu a rhannu gwybodaeth. Roedd canfyddiadau gwerthusiad diweddar o unedau VRU yn galonogol, gan gynnwys llai o lawer o bobl ifanc yn cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd ymosod ac anafiadau gydag offeryn pigog.[26] Mae partneriaethau diogelu statudol (Byrddau Diogelu Rhanbarthol yng Nghymru) hefyd yn chwarae rôl greiddiol mewn diogelu plant rhag niwed gan gynnig fforwm ffurfiol i awdurdodau lleol, yr heddlu ac iechyd weithio gyda'i gilydd i adnabod niwed yn gynt, cydlynu ymatebion diogelu, a sicrhau atebolrwydd am gadw plant yn ddiogel. Bydd cryfhau'r cydgysylltiad rhwng partneriaethau diogelu, unedau VRU a phartneriaethau SVD yn sicrhau bod y system yn ymateb yn fwy cyson i risgiau newydd a chyfleoedd i ymyrryd yn gynnar ddim yn cael eu colli.

2.36. Er mwyn ymateb yn well i'r heriau amlochrog sy'n gallu rhwystro cynnydd plant a'u gwneud yn fwy bregus i ganlyniadau negyddol, mae'r llywodraeth yma'n darparu'r rhaglen Dyfodol Ifanc (Young Futures) fydd yn cryfhau ymyrryd yn gynnar ar gyfer plant bregus drwy Baneli Dyfodol Ifanc a Hybiau Dyfodol Ifanc.

2.37. Mae Paneli Dyfodol Ifanc yn cael eu peilota mewn dros 50 o awdurdodau lleol ar draws Cymru a Lloegr, gan ddod â phartneriaid o'r sectorau statudol a gwirfoddol at ei gilydd – gan gynnwys cyfiawnder ieuenctid – i adnabod a chefnogi plant mewn perygl. Mae'r Paneli'n cysylltu i drefniadau a rhaglenni aml-asiantaethol sy'n bodoli'n barod fel *Turnaround*, gan helpu i adnabod a chefnogi plant a fyddai fel arall yn aros yn 'anweledig' yn gynt.

2.38. Byddwn hefyd yn agor 50 o Hybiau Dyfodol Ifanc erbyn diwedd y Senedd hon fydd yn cyflwyno trefniadau cydlynu newydd rhwng gwasanaethau lleol, gan gynnwys cyd-leoli i wella mynediad at gyfleoedd, cefnogi iechyd meddwl a llesiant, a throi pobl ifanc draw o droseddu. Gyda £4.2 miliwn o fuddsoddiad cychwynnol i'w

[26] Adroddiad gwerthuso Unedau Lleihau Trais am y flwyddyn yn dod i ben Mawrth 2025 – GOV.UK

cefnogi, dechreuodd yr wyth Hỳb cyntaf weithredu ym Mawrth 2026. I'r dyfodol, bydd yr Hybiau Dyfodol Ifanc yn rhan o raglen drawsnewid £70 miliwn dros y tair blynedd nesaf fydd hefyd yn helpu awdurdodau lleol dethol i wella cynigion eu gwasanaethau ieuenctid lleol.

2.39. Bydd y llywodraeth yma hefyd yn cryfhau effaith y partneriaethau Dyletswydd Trais Difrifol gan gydnabod eu bod yn rhan greiddiol o'r un tirlun o bartneriaethau lleol. Fel rhan o'n gwaith i symleiddio'r trefniadau statudol, byddwn yn ceisio cymell y partneriaid lleol sydd yn y sefyllfa orau i adnabod risg yn gynnar i wneud mwy, drwy rolau a chyfrifoldebau cliriach a datblygu trosolwg traws-lywodraeth mwy trylwyr er mwyn cefnogi cydweithrediad ac atebolrwydd cyson ac effeithiol.

### Y rhaglen Turnaround

2.40. Rydyn ni hefyd yn rhoi cyllid neilltuol i'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i ymyrryd yn achos plant sydd ar fin ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid, wrth gael eu rhyddhau dan ymchwiliad, sydd ar fechnïaeth cyn-gyhuddo, neu'n euog o'r ymddygiad gwrth-gymdeithasol sy'n falltod i ormod o gymunedau. Ers Rhagfyr 2022, mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi buddsoddi £71 miliwn yn y rhaglen *Turnaround* gan gyllido ymyriadau pwrpasol seiliedig ar dystiolaeth i hyd at 20,500 o blant bregus.[27]

2.41. Mae cymryd rhan yn *Turnaround* yn wirfoddol ac nid oes angen bod wedi cyfaddef bai. Mae plant a theuluoedd yn rhan o ddylanwadu'n weithredol ar eu cymorth gan helpu i ymgysylltu â rhai sydd efallai heb ffydd yn y gwasanaethau statudol neu efallai'n gyndyn o weithio gyda'r system gyfiawnder, fel y gall y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid gyrraedd plant a theuluoedd a allai fel arall aros wedi datgysylltu. Mae gan wasanaethau cyfiawnder ieuenctid hyblygrwydd i deilwrio *Turnaround* i flaenoriaethau lleol, er enghraifft drwy dargedu cohortau penodol o blant drwy feini prawf cymhwyso'r rhaglen i ateb bylchau yn y ddarpariaeth leol.

2.42. Roedd gwerthusiad annibynnol o ddwy flynedd gyntaf y rhaglen wedi nodi canfyddiadau calonogol, yn enwedig o ran troseddu – ers Rhagfyr 2024, dim ond 7% o blant oedd wedi cwblhau ymyriad *Turnaround* a aeth ymlaen i gael dedfryd neu rybuddiad.[28]

2.43. Ar wahân i lai o droseddu, mae staff darparu, teuluoedd a gofalwyr *Turnaround* hefyd wedi adrodd ymddygiad gwell, ymgysylltu a phresenoldeb addysgol a lles

27 Rhaglen Turnaround (2023) – GOV.UK

28 Mae canlyniadau'r cohort Turnaround yn cael eu tracio am 12 mis ar ôl cwblhau ymyriadau Turnaround plentyn. Oherwydd bod plant wedi ymuno â'r rhaglen ar wahanol adegau, nid oedd rhai wedi cael eu tracio am y 12 mis llawn eto erbyn Rhagfyr 2024.

cymdeithasol ac emosiynol gwell, a gobaith gwell gan blant am eu dyfodol ar ôl cwblhau ymyriadau *Turnaround.* Mae gweithio gyda'r teulu cyfan yn un o egwyddorion craidd *Turnaround*, gyda thystiolaeth gwerthuso'n dangos perthnasoedd teuluoedd gwell wrth i rieni, gofalwyr a brodyr / chwiorydd gael cyfle i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ymyriad. Dywedodd y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid hefyd fod y rhaglen wedi cryfhau gwaith partneriaeth rhwng cyfiawnder ieuenctid a phartneriaid allweddol – gan gynnwys yr heddlu, iechyd ac ysgolion, gyda chapasiti cyfunol gwell i adnabod risg yn gynnar a darparu cymorth cydlynus, amserol.

2.44. Dangosodd *Turnaround* hefyd pa mor werthfawr yw gwaith partneriaeth cryf â'r sector gwirfoddol a chymunedol (VCS), gan gynnwys comisiynu mentora ac, mewn rhai ardaloedd, darparu'r rhaglen gyfan. Gwyddom y gall mudiadau VCS fod yn arbennig o effeithiol mewn cael plant a theuluoedd, sydd efallai heb ffydd mewn gwasanaethau statudol, i ymgysylltu, a byddwn yn parhau i weithio â'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i weld sut y gallwn gryfhau'r perthnasoedd hyn ymhellach.

2.45. Yn Chwefror 2026**, cyhoeddodd y llywodraeth yma £15.4 miliwn o fuddsoddiad pellach y flwyddyn yn y rhaglen Turnaround, wedi'i warantu dros dair blynedd tan fis Mawrth 2029.** Bydd hyn yn cyllido'r rhaglen *Turnaround* i ddarparu ymyriadau ar gyfer targed o 12,000 yn fwy o blant o leiaf dros y 3 blynedd nesaf.[29] Rydyn ni'n datblygu cynlluniau i wneud gwerthusiad pellach i gryfhau'r dystiolaeth o *Turnaround.*

2.46. Chwaraeodd *Turnaround* rôl bwysig mewn cefnogi'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i ymyrryd yn gynt a lleihau'r risg o blant yn ymuno â'r system gyfiawnder ffurfiol, ond wrth i'r rhaglen aeddfedu, mae'n iawn sicrhau ei bod yn cynnal canlyniadau cynaliadwy i blant. Yn 2026/27, byddwn yn gweithio gyda'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a phartneriaid allweddol eraill i ystyried meini prawf cymhwyso, sut orau y gall y rhaglen gefnogi canlyniadau da i blant sy'n ddioddefwyr a rhannu arferion da, er mwyn sicrhau bod *Turnaround* yn parhau i weithio'n effeithiol a chysylltu i wasanaethau atal a throi draw ehangach o 2027/28 a 2028/29.

[29] Mae'r targed hwn yn parhau i gael ei drafod gyda Llywodraeth Cymru, oherwydd gallai'r trefniadau cyllid datganoledig o 2027 ymlaen effeithio ar sut y gweithredir y rhaglen Turnaround yng Nghymru.

## Adran 3: Trawsnewid ymateb y wladwriaeth i risgiau gwaethygol

2.47. Er bod y rhaglenni a'r cynlluniau uchod yn cynorthwyo ardaloedd lleol i adnabod angen ac ymyrryd yn gynnar, gwyddom fod y tirlun ymyrryd ac atal ar draws Cymru a Lloegr yn gymhleth, gyda nifer o wahanol drefniadau statudol, trothwyon, prosesau a ffrydiau cyllido. Nid yn unig y mae'r tirlun yn gymhleth i weithwyr proffesiynol, plant a theuluoedd ei ddeall, mae cyfrifoldeb gwasgarog yn rhy aml yn golygu nad oes un rhan o'r system yn gyfrifol am risg gan felly ei gwneud yn fwy tebygol bod arwyddion rhybuddio'n cael eu colli a phlant yn llithro drwy'r bylchau wrth i'w risg gynyddu. Dangoswyd hyn yn glir yn adroddiad Ymchwiliad Southport a gyhoeddwyd ym mis Ebrill eleni'n dilyn y digwyddiadau erchyll yn 2024, gan adnabod nad oedd unrhyw sefydliad na threfniant aml-asiantaethol wedi cymryd cyfrifoldeb am risg y drwgweithredwr. Mae'r llywodraeth wedi darparu gwelliannau sylweddol yn barod ar draws sawl maes polisi i gadw'r cyhoedd yn ddiogel, ond fel y mae'r adroddiad yn ei ddangos, mae llawer mwy i'w wneud a bydd y llywodraeth yn ymateb yn llawn i'r argymhellion erbyn yr haf.

2.48. Bydd y llywodraeth yma hefyd yn adolygu'r tirlun penodol o ran atal troseddau ieuenctid er mwyn ennill dealltwriaeth gliriach o'r dyletswyddau statudol, y partneriaethau a'r rhaglenni sy'n rhan ohono, ac adnabod ble a sut i symleiddio a gwneud pethau'n fwy effeithlon. Yng Nghymru, mae'r tirlun strategol a gweithredol wedi cael ei fapio, a'i gyhoeddi yn y Fframwaith Atal. Bydd y ddwy lywodraeth yn gweithio gyda'i gilydd, gan ystyried ac adlewyrchu'r cyd-destunau gwahanol hyn.

2.49. Bydd y gwaith hwn yn creu argymhellion i oleuo'r model Partneriaeth Atal terfynol, fydd yn cael ei brofi gyda rhanddeiliaid wrth i ni barhau i ddatblygu a darparu'r model Dyfodol Ifanc yn ystod 2026/27 a 2027/28.

2.50. Gwyddom fod arferion lleol cryf yn barod mewn sawl ardal, gyda phartneriaid wedi sefydlu trefniadau effeithiol. Er enghraifft, gwelsom nifer o enghreifftiau cryf o integreiddio lleol rhwng y rhaglen *Turnaround* a threfniadau ymyrryd yn gynnar ehangach. Yn Hammersmith a Fulham, mae'r Panel *Turnaround* presennol wedi cael ei ehangu i ddarparu amcanion y Panel Dyfodol Ifanc, gan gyfuno cyfeiriadau gan yr heddlu â llwybrau cyfiawnder ieuenctid, ymyrryd yn gynnar a hunangyfeirio i adnabod a chefnogi plant yn gynnar. Ym Manceinion Fwyaf, mae llawer o gydlynwyr y Panel Dyfodol Ifanc yn swyddogion cyfiawnder ieuenctid yr heddlu sy'n hwyluso brysbennu effeithiol fel bod plant yn derbyn y cymorth cyfiawnder ieuenctid neu atal mwyaf priodol, yn aml cyn i achosion gyrraedd y panel. Yn Essex, mae'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn brysbennu pob achos er mwyn cyfeirio'r rhai mwyaf priodol at y panel. Mae asesu amserol a mynediad di-oed at ymyriadau'n rhoi canlyniadau da.

## Gwella gwaith aml-asiantaethol

2.51. Ochr yn ochr â symleiddio'r tirlun, rhaid i ni sicrhau y gall asiantaethau rannu gwybodaeth briodol yn effeithiol fel bod risg a niwed yn cael eu hadnabod yn sydyn a chamau'n cael eu cymryd ar sail dealltwriaeth lawn o amgylchiadau'r plentyn. Ar hyn o bryd gall systemau gwybodaeth gwasgarog ac anghydnaws atal ymarferwyr rhag cael y darlun llawn sy'n golygu bod cyfleoedd cynnar i ddarparu cymorth weithiau'n cael eu colli. Mae gwasanaethau'n arbennig o wasgarog ar adegau pontio pwysig, rhwng gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid cymunedol a'r ystâd dan glo er enghraifft, a rhwng y systemau ieuenctid dan glo ac oedolion dan glo, lle y mae parhad y wybodaeth a'r cynllunio'n hanfodol. Os nad yw asiantaethau'n gallu cael mynediad neu rannu gwybodaeth berthnasol yn hawdd, mae plant a theuluoedd yn gorfod ailadrodd profiadau trawmatig yn rhy aml wrth wahanol weithwyr proffesiynol a gall risg waethygu heb ymyrryd amserol wedi'i gydlynu.

2.52. Bydd y llywodraeth yma'n gweithio gyda gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a phartneriaid ar draws y sector plant i weld sut y gallai system rheoli achosion cyfiawnder ieuenctid fodern ac effeithiol edrych – un sy'n adeiladu ar arferion da, rhoi sylw i ddiffygion y dulliau presennol a chysylltu'n fwy effeithiol i systemau addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a charcharu. Dylai dull modern o reoli achosion leihau'r baich gweinyddol a dyblygu cofnodion, cryfhau parhad a chynorthwyo gweithwyr proffesiynol i dreulio mwy o amser yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd. Byddwn yn cyflwyno ein dull arfaethedig yn yr hydref.

2.53. Ochr yn ochr â hyn, nod y Ddeddf Llesiant Plant ac Ysgolion yw datrys rhwystrau i weithio'n aml-asiantaethol yn Lloegr drwy gyflwyno dyletswydd rhannu gwybodaeth newydd fel bod gan wasanaethau ddyletswydd gyfreithiol glir i rannu gwybodaeth i ddiogelu a hybu lles plant, a darparu rhif adnabod unigol. Bydd hyn yn helpu i gysylltu gwybodaeth allweddol gan addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, cyfiawnder ieuenctid a phartneriaid eraill yn fwy effeithiol. Yng Nghymru, mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn hwyluso rhannu data'n effeithiol a chyfreithiol ar draws iechyd, addysg a chyfiawnder.

2.54. Bydd systemau gwybodaeth mwy modern a chydgysylltiedig yn helpu ymarferwyr i ennill cyd-ddealltwriaeth lawnach o risgiau, anghenion ac ymyriadau blaenorol plentyn, gan osgoi oedi wrth wneud penderfyniadau a helpu i sicrhau nad yw'r un plentyn yn disgyn rhwng gwasanaethau oherwydd bylchau rhannu gwybodaeth.

# Adran 4: Ffocws ar feysydd niwed allweddol – troseddau cyllyll, VAWG a therfysgaeth

2.55. Mae pob trosedd yn annerbyniol. Gall troseddau "lefel isel" ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol fod yn andwyol i ddioddefwyr a chymunedau. Nod y llywodraeth wrth ddiwygio'r system cyfiawnder ieuenctid yw mynd i'r afael â phob math o droseddu.

2.56. Ond mae rhai meysydd lle mae pryderon y cyhoedd a niwed i gymdeithas yn haeddu mwy o ffocws.

### Mynd i'r afael â throseddau cyllyll, yn enwedig drwy atal cyn i niwed ddigwydd

2.57. Mae troseddau cyllyll wedi dinistrio gormod o lawer o fywydau ac mae gan y llywodraeth yma darged uchelgeisiol ond hanfodol: haneru troseddau cyllyll dros y degawd hwn. Rydyn ni'n gwneud cynnydd clir yn barod. Ers dechrau'r Senedd hon, mae troseddau'n defnyddio cyllyll i lawr o 10%, lladdiadau cyllyll i lawr o 27%[30] a'r nifer sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd trywanu i lawr o 13%.[31] Rydyn ni wedi gwahardd arfau peryglus fel cleddyfau ninja a *machetes* 'zombie' ac wedi tynnu dros 63,000 o gyllyll ac arfau oddi ar ein strydoedd.[32]

2.58. Mae troseddau cyllyll yn un o flaenoriaethau mwyaf y llywodraeth. Mae ein cynllun i haneru troseddau cyllyll yn disgrifio sut y byddwn yn sicrhau bod y system cyfiawnder ieuenctid wedi'i harfogi i ymyrryd yn gynt, ymateb yn gyson a mynd i'r afael â throseddu cyllyll cynnar ac wedi gwreiddio. Bydd adnabod niwed yn gynt, cryfhau troi draw, a sicrhau bod plant yn derbyn cymorth amserol, seiliedig ar dystiolaeth yn allweddol i hyn. Mae hyn yn rhan o ymdrech draws-lywodraeth sy'n dod ag ysgolion, plismona, awdurdodau lleol, iechyd a phartneriaid cymunedol at ei gilydd i atal niwed ymhell cyn iddo ddigwydd.

2.59. Yn rhy aml yn y gorffennol, roedd plant yn cario cyllyll wedi cael ei normaleiddio a'r ymateb yn rhy araf deg ac yn rhy wan.

2.60. Mae'r llywodraeth yma'n glir bod yn rhaid i'r ymateb i blant yn cario cyllyll fod yn chwim, cadarn a seiliedig ar dystiolaeth, gyda'r prif nod o atal mwy o droseddu a gwella diogelwch y cyhoedd. Dyna pam fod gan y llywodraeth yma ymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn sy'n cael ei ddal yn cario cyllell yn cael ei gyfeirio at wasanaeth cyfiawnder ieuenctid ac yn derbyn cynllun gorfodol i atal aildroseddu.

30 Tablau data agored - troseddau a gofnodwyd gan yr heddlu a chanlyniadau – GOV.UK

31 Derbyniadau ysbyty am ymosod gyda gwrthrych pigog, Ebrill 2025 – NHS England Digital

32 Lladdiadau cyllyl i lawr 27% ar ôl tynnu 63,000 o gyllyll oddi ar y strydoedd – GOV.UK

2.61. Fel cam cyntaf i gryfhau’r ymateb cyfunol i blant yn cario cyllyll, mae’r Weinyddiaeth Gyfiawnder a’r Swyddfa Gartref wedi cyd-gyhoeddi canllawiau newydd y llywodraeth ar gyfer troseddau plant yn cario cyllyll, gan weithio’n agos â phartneriaid gweithredol allweddol fel plismona, cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau cysylltiedig. Mae hyn yn garreg filltir bwysig yng nghenhadaeth y llywodraeth i haneru troseddau cyllyll o fewn degawd a gwneud ein strydoedd yn fwy diogel. Mae’r canllawiau’n rhoi mwy o eglurder a chysondeb i bartneriaid gweithredol a bydd angen cryn newid o ran sut y mae’r system cyfiawnder troseddol yn ymateb i blentyn wedi’i ddarganfod i fod yn cario cyllell. Mae ein disgwyliadau’n glir – dylai’r ymateb i gario cyllyll fod yn chwim, cadarn, seiliedig ar dystiolaeth a thrylwyr bob tro.

2.62. Mae’r llywodraeth yma’n ymrwymedig i yrru’r newid hwn ym mhob maes. Wrth symud ymlaen, dylai pob plentyn sy’n cael ei ddarganfod i fod yn cario cyllell wynebu cyhuddiad, rhybuddiad amodol ieuenctid neu, mewn rhai achosion, erlyn wedi’i ohirio, fydd ar gael i bob heddlu i sicrhau canlyniad di-droseddol lle bo’n briodol. Byddwn yn cryfhau ein trosolwg ar ymatebion ymarferol i blant yn cario cyllyll - bydd unrhyw ddarparwyr sy’n tanberfformio yn cael eu hadnabod a’u cefnogi i gydymffurfio. Bydd hyn yn cynnwys gwneud defnydd gwell o ddata fel bod cario cyllyll yn derbyn cynlluniau gorfodol yn cynnwys ymyriadau ansawdd uchel ar sail tystiolaeth, a ffocws newydd ar arolygiadau i ddod ar gyfer y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a heddluoedd, ar lefel leol a chenedlaethol. Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn casglu gwybodaeth o’r mewnwelediad newydd i’r nifer fach o leoliadau lle mae troseddau cyllyll wedi eu canoli fwyaf, i dargedu gwaith atal at le y caiff yr effaith fwyaf.

2.63. Ac i helpu pob plentyn ysgol i deimlo’n ddiogel, rydyn ni’n gweithio ar draws llywodraeth a gyda phartneriaid i weithredu ‘Partneriaeth Ddiogel yn ac o Gwmpas yr Ysgol’ arloesol yn Lloegr. Bydd hyn yn rhoi cymorth wedi’i deilwra a’i dargedu i ysgolion yn y cymunedau sy’n profi trais ieuenctid fwyaf. Bydd hyd at 250 o ysgolion yn y llefydd gwaethaf am droseddau cyllyll yn derbyn hyfforddiant a chymorth arbenigol, wedi’i oleuo gan ddata tra-lleol, i wella diogelwch yn ac o gwmpas yr ysgolion ac wrth deithio i ac o’r ysgol, gyda chymorth mwy dwys i’r rhai sy’n wynebu’r risg fwyaf.

2.64. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid ar draws Cymru i ddatblygu adnoddau Cymru Gyfan i helpu i ddelio ag achosion lle mae unigolion yn mynd neu’n cael eu hamau o fynd ag arfau ar dir ysgol. Bydd hyn yn ategu’r canllawiau presennol ‘Ymyrryd yn ddiogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau’ a gwaith ehangach sy’n digwydd i gefnogi ymddygiad ac ymgysylltiad positif yn yr ysgol.

### Ymateb yn gynnar i ymddygiad rhywiol niweidiol

2.65. Mae ymddygiad rhywiol niweidiol ymhlith plant yn cael ei yrru gan newid mawr yn yr amgylchedd cymdeithasol a digidol y maen nhw'n tyfu fyny ynddo. Mae cysylltiad yn gynnar a chyson â phornograffi ar-lein, cynnwys casineb at ferched, cam-drin domestig yn y teulu, a normau niweidiol dwfn o gwmpas perthnasoedd, caniatâd a phŵer yn dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad o oedran cynyddol ifanc. Ymddengys bod lefel y niwed yn tyfu o hyd – mae troseddau rhywiol gan blant sydd wedi eu profi wedi cynyddu o tua 60% yn y 3 blynedd diwethaf.[33]

2.66. A'r pryder yw bod ymddygiad rhywiol niweidiol, cam-ddylanwadu a cham-drin bellach yn rhan arferol o fywydau pob dydd plant. Yn ôl arolwg, dywedodd bron i hanner y bobl ifanc 13-17 oed gyda phartner a mewn perthynas rywiol eu bod wedi cael profiad o drais ac ymddygiad rheolgar, gan gynnwys cam-ddylanwad rhywiol, trais corfforol a cham-drin drwy ddelweddau.[34] Mae'r niweidiau hyn yn adlewyrchu patrymau ymddygiad sydd, heb eu herio, mewn perygl o gael eu normaleiddio a gwreiddio'n ifanc iawn, a gwaethygu ar ôl tyfu'n oedolyn.

2.67. Nid yw'r system cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau ehangach wedi cadw ar y blaen i gyflymdra, natur a pha mor eang yw'r dylanwadau newidiol hyn ar fywydau plant, yn enwedig ar-lein. Wrth i dechnoleg esblygu a chynnwys niweidiol ddod yn fwy hygyrch, mae ymateb sy'n ymyrryd yn rhy hwyr neu sy'n anghyson yn golygu bod plant, a dioddefwyr, yn wynebu niwed gwaethygol. Mae arnom angen, a byddwn yn helpu i gyflwyno, newid sylfaenol wrth ymateb i'r her gynyddol hon.

2.68. Mae angen ymateb cynnar, pendant ac ataliol i ddelio ag ymddygiad rhywiol niweidiol gan blant. Dylai pob plentyn ddeall beth yw caniatâd, parch a pherthynas iach a chael eu cefnogi gan rieni, athrawon a modelau rôl i herio agweddau ac ymddygiad niweidiol cyn iddynt wreiddio'n rhy ddwfn. Mae lefel y trais - sy'n bennaf ond nid yn llwyr yn cael ei gyflawni yn erbyn merched a genethod gan ddynion a bechgyn - yn annioddefol. Ni all atal effeithiol aros nes bydd niwed yn gwaethygu a throi'n droseddu. Mae adnabod a rhoi sylw i ymddygiad, agweddau a chredoau rhywiol niweidiol ar y cyfle cyntaf yn greiddiol bwysig i amddiffyn dioddefwyr ac atal niwed yn y dyfodol.

2.69. Mae gan ysgolion a lleoliadau addysg rôl allweddol mewn dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad. Mae'r llywodraeth yma'n cymryd camau brys mewn ysgolion a lleoliadau addysg i helpu i greu dyfodol lle mae agweddau casineb at ferched a chynnwys niweidiol yn cael eu herio a phobl ifanc yn cael eu cefnogi i greu perthnasoedd diogel a pharchus. Fel mae ein Strategaeth VAWG Rhydd o Drais a

---

[33] Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

[34] Sut y mae bechgyn a genethod yn profi trais (2024) – Y Gronfa Gwaddol Ieuenctid

Cham-drin yn ei ddisgrifio, mae'r llywodraeth yma'n ailwampio'r cwricwlwm addysg rhyw, perthnasoedd ac iechyd drwy roi ffocws newydd ar ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i fod mewn perthynas iach o ddechrau'r ysgol gynradd, ac arfogi plant i fod yn gallu adnabod, ymwrthod â, a herio dylanwadau niweidiol. Bydd hyn yn cynnwys addysgu plant am ddylanwadu a naratifau casineb at ferched, mewn ffordd sy'n osgoi stigmateiddio bechgyn, a hefyd yn cynyddu ymwybyddiaeth o broblemau newydd fel cynnwys AI a ffugio dwfn. Yng Nghymru, mae'r Cynllun Gweithredu: Aflonyddu Rhywiol Rhwng Cyfoedion Mewn Lleoliadau Addysg yn disgrifio dull system-gyfan o atal ac ymateb i ymddygiad rhywiol niweidiol mewn lleoliadau addysg, gyda ffocws penodol ar niwed ar-lein a phlant a effeithir yn anghymesur.

2.70. Mae hefyd yn bwysig cydnabod nad yw datblygu dealltwriaeth a pharch at berthnasoedd iach a chaniatâd yn gorffen wrth gât yr ysgol neu ar ôl yr ysgol uwchradd. Mae'r Strategaeth VAWG yn glir bod angen ymateb system-gyfan i atal niwed, sy'n cynnwys addysg, teuluoedd, cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus.

2.71. Mae gan y system cyfiawnder ieuenctid rôl hanfodol i'w chwarae yn y tirlun ehangach hwn, ac nid yn unig gyda phlant a gyflawnodd droseddau rhywiol yn barod, ond ymhell cyn hynny. Mae gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid mewn lle da i adnabod yr arwyddion, ymateb yn sydyn a chymesur, ac ymyrryd mewn ffyrdd sy'n ddatblygiadol briodol a drwy ganolbwyntio ar newid ymddygiad. Mae'r llywodraeth yma'n gweithio gyda'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, partneriaid statudol a chyrff statudol i greu system sy'n gallu ymateb yn gryfach i ymddygiad rhywiol niweidiol ac agweddau casineb at ferched.

2.72. I lwyddo, bydd angen i'r system ddelio ag amgylchedd ar-lein sy'n esblygu'n barhaus, lle mae llwyfannau digidol a mathau newydd o niwed ar-lein yn codi o hyd ac effeithio ar sut y mae pobl ifanc yn rhyngweithio a chreu normau. Mae atal yn dechrau drwy arfogi ymarferwyr â'r hyder, sgiliau a'r cymorth i adnabod risg yn gynnar a chymryd camau pendant. Dros y misoedd nesaf, byddwn yn gweithio gyda'r sector i asesu gallu, adnabod bylchau yn y cymorth, a phenderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd i'r dyfodol. Byddwn yn cyflwyno'r camau nesaf nes ymlaen eleni. Bydd hyn ochr yn ochr ag ymgynghoriad Tyfu Fyny yn y Byd Ar-lein y llywodraeth i geisio deall effaith technoleg ar les plant a beth yn fwy y gellir ei wneud i sicrhau bod eu profiadau ar-lein yn ddiogel ac yn cyfoethogi eu bywydau.

### Mynd i'r afael â therfysgaeth a thrais-gyfaredd mewn pobl ifanc

2.73. Mae nifer y plant sy'n rhan o derfysgaeth yn isel iawn o hyd. Fodd bynnag, gwelsom dwf pryderus yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn nifer yr achosion o blant yn cael eu radicaleiddio ar-lein, a chael eu cyfareddu'n aml gan drais.

2.74. Mae cam cyntaf Ymchwiliad Cyhoeddus Southport wedi adrodd ac adnabod methiannau erchyll na all byth ddigwydd eto. Bydd y llywodraeth yn ystyried ei ganfyddiadau'n ofalus ac ymateb erbyn haf 2026. Rydyn ni wedi ymrwymo i ddeall yn well a rhoi sylw i'r risg a gyflwynir gan unigolion sy'n cael eu cyfareddu gan drais eithafol, fel yr ymosodwr yn Southport, ac wedi sefydlu tasglu Swyddfa Gartref i gydlynu'r gwaith. Ond ni arhoswn i weithredu – yn dilyn argymhellion yr Adolygydd Annibynnol o Ddeddfwriaeth Derfysgaeth, rydyn ni eisoes wedi ymrwymo i newid y gyfraith i ddod â rhai sy'n cynllwynio ymosodiadau lladd torfol heb gymhelliad terfysgol o flaen eu gwell.

2.75. Yn ei Adroddiad Blynyddol yn 2023, roedd yr Adolygydd Annibynnol o Ddeddfwriaeth Derfysgaeth yn nodi bod plant yn y camau cynharaf o droseddu'n derfysgol, yn aml iawn, yn fregus neu wedi cael eu hecsbloetio, a bod yn rhaid i wasanaethau ymchwilio 'aros' tan y cyflawnir trosedd cyn gallu ymyrryd yn ystyrlon. Mae'r methiant yma i ymyrryd yn gynnar yn rhoi diogelwch y cyhoedd yn y fantol a chynyddu'r risg o labelu plentyn fel terfysgwr am oes.

2.76. Ar sail argymhelliad yr Adolygydd, mae'r llywodraeth yma wedi cyflwyno gorchmynion dargyfeirio ieuenctid - gorchymyn sifil newydd fel y gallwn ymyrryd yn gynt a throi plant draw o droseddu. Bydd heddlu gwrthderfysgaeth yn gallu gwneud cais i'r llys am orchymyn dargyfeirio ieuenctid ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 10 a 21 oed sydd wedi cyflawni, neu a allai gyflawni, trosedd derfysgaeth. Fel rhan o'r gorchymyn, bydd angen hyd at 12 mis o ymgysylltu ffurfiol ag ymyriadau adsefydlu, i'w darparu gan wasanaethau cyfiawnder ieuenctid. I gefnogi'r gwaith, byddwn yn darparu bron i £1.5m dros dair blynedd i gynorthwyo gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr i weithio gyda nifer fach iawn o blant y disgwylir i orchymyn gael ei roi iddynt, naill ai'n uniongyrchol neu drwy gomisiynu ymyriadau arbenigol. Byddwn yn rhoi gwybod i'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid sut y bwriedir gweinyddu'r cyllid hwn erbyn yr hydref.

2.77. Yn ehangach, mae'r cynllun *Prevent* yn chwarae rôl hanfodol mewn diogelu'r cyhoedd a throi unigolion draw o lwybrau a allai arwain at droseddau terfysgaeth. Rydyn ni eisoes wedi gwneud newidiadau i sicrhau bod pob penderfyniad i gyfeirio at *Prevent* yn drylwyr a chyson, a galluogi cyfeiriadau cynnar at *Channel.* Byddwn yn cryfhau'r trosolwg ar gyfeiriadau sydd ddim yn cyrraedd y trothwyon *Prevent* neu a drosglwyddir i wasanaethau eraill, a'r ymateb i radicaleiddio ar-lein.

## Adran 5: Atal niwed

2.78. Mae atal niwed yn bwrpas creiddiol i ymyrryd yn gynnar. Pan weithredir yn gynnar ar arwyddion rhybuddio a'r cyfrifoldeb am risg yn glir, gall y system ymyrryd cyn i ymddygiad waethygu gan gadw plant, dioddefwyr a chymunedau'n ddiogel.

2.79. Dangosodd y digwyddiadau ofnadwy yn Southport y canlyniadau erchyll o beidio â chymryd risg o ddifrif, peidio â rhannu gwybodaeth neu ohirio cyn gweithredu. Mae system sy'n gadael i gyfrifoldeb wasgaru wrth i bryderon gynyddu'n system sy'n methu yn ei dyletswydd fwyaf sylfaenol. Rhaid i gryfhau ymyrryd yn gynnar felly fynd law yn llaw ag eglurder lleol o berchnogaeth, ymatebion pendant a pharodrwydd i weithredu'n gynt pan fydd risg yn cynyddu, gan gynnwys uwchgyfeirio'r ymateb os nad yw ymddygiad yn newid – nid arsylwi'n unig ar bryderon ond gweithredu arnynt.

2.80. Er hynny, bydd yna bob amser achosion ble bydd y system yn methu ag atal niwed, a phan fydd hynny'n digwydd, rhaid i'r system ymateb yn sydyn, yn gadarn a chymesur, gyda ffocws ar ddiogelu'r cyhoedd a chefnogi plant i newid ar yr un pryd.

# Pennod 3: Yr ymateb iawn ar yr amser iawn

### Beth mae'r llywodraeth yma wedi'i wneud yn barod:

Cyhoeddi Siarter Cyfiawnder Ieuenctid yn disgrifio'r safonau y dylai plant ddisgwyl eu derbyn ym mhob cam o'r system cyfiawnder ieuenctid.

Cyflwyno cynllun ffioedd cymorth cyfreithiol newydd ar gyfer llysoedd ieuenctid, gan ddarparu £5.1miliwn ychwanegol y flwyddyn, cynnydd o tua 80% mewn gwariant ffioedd llysoedd ieuenctid ar adeg ei gyflwyno.

Comisiynu Grŵp Cynghori Arbenigol i ddatblygu argymhellion ar hyfforddiant arbenigol i gyfreithwyr sy'n cynrychioli plant.

Ymrwymo cyllid o £20miliwn y flwyddyn dros gyfnod yr Adolygiad o Wariant hwn ar gyfer remand ieuenctid, gan arallgyfeirio'r cyllid i fuddsoddi'n lleol mewn atebion cymunedol yn lle remand, gan roi sicrwydd dros sawl blwyddyn am y tro cyntaf a moderneiddio'r fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r cyllid.

Cyhoeddi £5miliwn ychwanegol dros y tair blynedd nesaf i fuddsoddi'n uniongyrchol mewn lleoliadau a chymorth remand yn y gymuned, drwy bartneriaethau rhanbarthol.

### Beth fydd y llywodraeth yma'n ei wneud:

Arwain ar ddiwygio'r fframwaith dedfrydau ieuenctid allan-o-lys yn sylfaenol, gan gyflwyno ein cynigion yn yr hydref 2026.

Cymell defnyddio erlyn wedi'i ohirio fel llwybr troi draw effeithiol i blant drwy adnabod achosion a gaewyd drwy erlyn wedi'i ohirio fel rhai 'wedi eu penderfynu'.

Cyflwyno Llysoedd Ymyriadau Ieuenctid i blant, gydag o leiaf un safle'n weithredol erbyn y gwanwyn 2027.

Bwrw golwg sylfaenol ar swyddogaeth a phwrpas y llysoedd troseddol i ddiffynyddion sy'n blant, gan adrodd erbyn Awst 2027.

Lleihau'r boblogaeth remand dan glo o 25% dros gyfnod y Senedd hon drwy leihau achosion remand dan glo diangen drwy ddiwygio cyllid ar gyfer remand, buddsoddi mewn ehangu dedfrydau cymunedau cadarn yn lle carcharu, a chyflwyno newidiadau deddfwriaeth, gan sicrhau bod remand dan glo ar gael pan fo'i angen i ddiogelu'r cyhoedd.

Diwygio'r fframwaith dedfrydau ieuenctid i adlewyrchu'r cohort cyfiawnder ieuenctid modern yn well, blaenoriaethu adsefydlu a sicrhau y defnyddir carcharu yn niffyg popeth arall drwy gryfhau dedfrydau cymunedol, gan gynnwys y gorchymyn adsefydlu ieuenctid a'r gorchymyn cyfeirio.

Gweithredu diwygiadau remand a dedfrydu a allai weld 20% yn llai o blant yn y carchar erbyn diwedd y Senedd hon, ond gan sicrhau bod carcharu ar gael pan fo'i angen i ddiogelu'r cyhoedd.

Ystyried adolygiad Cyngor y Bar yn ofalus ac ydy'r oed cyfrifoldeb troseddol presennol, sy'n 10 oed ar hyn o bryd, yn parhau i fod yn briodol i'r oes sydd ohoni.

Mynd ati i ddiwygio'r gyfundrefn cofnodion troseddol plentyndod i helpu plant i ail-adeiladu eu dyfodol a chyflwyno cynlluniau newid penodol erbyn diwedd y flwyddyn.

3.1. Mae angen ymateb amserol, teg a chymesur ar blant sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid, sy'n adlewyrchu difrifoldeb eu hymddygiad a'u potensial i newid. Rhaid i ni daro'r cydbwysedd iawn ar hyn. Rhaid i'r system ddiogelu'r cyhoedd a rhaid i blant wynebu canlyniadau difrifol am droseddau difrifol – gan gydnabod nad yw difrifoldeb wedi'i ddiffinio gan ddim ond un drosedd niwed uchel ond hefyd gan gysondeb a pharhad y troseddu dros amser. Mae'r llywodraeth yn glir a difaddau ynghylch hynny. Ond rydyn ni hefyd eisiau osgoi troi plant yn droseddwyr neu garcharu'n ddiangen, yn unol â'r hyn y gwyddom sy'n rhoi'r cyfle gorau i blant o newid eu bywydau er gwell.

3.2. Er bod y system cyfiawnder ieuenctid wedi gweld cryn lwyddiant dros yr ugain mlynedd diwethaf, gwyddom fod y tirlun cyfiawnder ieuenctid heddiw'n amrywiol iawn o ran ymarfer a chysondeb y penderfyniadau, ynghyd â phrosesau a fframweithiau sydd heb gadw ar y blaen i gymhlethdod cynyddol y cohort. Dylai fod gan bob plentyn fynediad at yr ymateb iawn ar yr amser iawn, gan sicrhau bod ymyrryd yn effeithiol, cymesur ac yn atal troseddu pellach.

## Adran 1: Dull mwy cadarn a thecach o arallgyfeirio ieuenctid

3.3. Mae arallgyfeirio effeithiol yn fwyfwy canolog i'n dull cyfiawnder ieuenctid gan gynnig ymateb cymesur sy'n osgoi troi plant a gyflawnodd droseddau lefel is yn droseddwyr yn ddiangen. Dros y degawd diwethaf, defnyddiwyd mwy o ddedfrydau allan-o-lys (OOCR) – defnyddir y rhain bellach mewn rhai achosion a fyddai, 5-10 mlynedd yn ôl, wedi arwain mae'n debyg at gyhuddiad ac erlyn yn y llys. Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r dystiolaeth sy'n dangos y gall ymyrryd yn ysgafn, o'i wneud yn dda, fod yn fwy effeithiol i droi plant draw o droseddu pellach. Yng

Nghymru, mae'r Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid yn disgrifio cynlluniau i wreiddio dull cyson seiliedig ar dystiolaeth o arallgyfeirio ar draws heddluoedd a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, ac mae'r Panel Cynghori Cyfiawnder Ieuenctid Cymru eisoes yn rhoi ffocws ar hyn.

3.4. Fodd bynnag, rydyn ni'n poeni bod y dull presennol o droi plant draw o droseddu'n syrthio'n brin gan fethu â sicrhau'r ymyrryd cyson ac effeithiol sydd ei angen ar blant, ac y mae dioddefwyr a chymunedau'n ei haeddu.

3.5. Mae'r fframwaith OOCR ieuenctid wedi esblygu'n organig dros amser. Mae'r system bellach yn cynnwys ystod o ddedfrydau statudol ac anstatudol, pob un â'i ofynion a lefelau ffurfioldeb gwahanol. Mae angen cyfaddef euogrwydd ar gyfer opsiynau statudol (rhybuddiadau ieuenctid a rhybuddiadau amodol ieuenctid), ond mae dulliau anstatudol (dedfrydau cymunedol ac erlyn wedi'i ohirio) yn cynnig mwy o hyblygrwydd, gan gynnwys gallu symud ymlaen heb gyfaddef euogrwydd yn ffurfiol. Wrth i'r dulliau hyn gael eu defnyddio'n gynyddol, maen nhw wedi amrywio'n sylweddol o un heddlu i'r llall.

3.6. Arweiniodd hyn at 'loteri cod post' amlwg. Gallai'r un plentyn yn cyflawni'r un drosedd a gyda'r un cefndir dderbyn OOCR gwahanol – neu ddim OOCR o gwbl – gan ddibynnu ar ble maen nhw'n byw. Mae gan heddluoedd wahanol ddisgwyliadau o beth yw 'ymyriad', o ran a oes a sut y mae angen cyfaddef euogrwydd, ac o ran a yw erlyn wedi'i ohirio ar gael – gyda rhai heddluoedd prin yn ei ddefnyddio, os o gwbl. Mae defnydd eang hefyd o ymyriadau heb ddim neu fawr ddim tystiolaeth i gefnogi eu defnydd, fel cyrsiau ymwybyddiaeth o droseddau cyllyll.[35] Nid yw'r ymyriadau mwyaf effeithiol ar gael mewn rhai ardaloedd o gwbl. Mae'r anghysondebau hyn yn tanseilio effeithiolrwydd a thegwch arallgyfeirio.

3.7. Nid daearyddol yn unig yw'r loteri yma, ond demograffig hefyd. Dengys y dystiolaeth batrwm sy'n gyson â rhagfarn strwythurol gan gynnwys oedolyneiddio, sy'n cyfrannu'n anghymesur at fod plant Du'n llai tebygol o gael cynnig ymyriadau arallgyfeirio neu o dderbyn yr un lefel o gymorth â phlant Gwyn, am yr un troseddau.[36] Gwyddom hefyd fod unigolion o gefndir lleiafrifoedd ethnig, a phobl Ddu'n enwedig, yn llai tebygol o gyfaddef euogrwydd, yn aml oherwydd diffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu a'r system gyfiawnder ehangach. Gall hyn atal eu mynediad at ddedfrydau OOCR sydd angen cyfaddef bai'n ffurfiol, gan greu anghysondeb o ran bwy sy'n elwa o arallgyfeirio a gwneud plant o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o gael eu gyrru ymlaen at achos troseddol ffurfiol.

35 Rhaglenni Addysg Troseddau Cyllyll Ieuenctid - Pecyn YEF

36 Trafod anghysondeb hiliol wrth arallgyfeirio o'r system cyfiawnder ieuenctid (2022) – Sefydliad Nuffield

3.8. Mae anghysondeb sylweddol o ran cofnodi a thracio dedfrydau OOCR hefyd. Nid yw'r fframwaith presennol yn cefnogi monitro ymyriadau, canlyniadau neu aildroseddu'n gyson, ac oherwydd diffyg casglu data ar lefel genedlaethol mae'n anodd deall canlyniadau neu effeithiolrwydd, neu sicrhau bod ymarfer da'n cael ei fabwysiadu'n gyson.

3.9. Adleisiwyd y pryderon hyn yn adroddiad ar-y-cyd 2025 rhwng Arolygiaeth Prawf EF (sy'n arolygu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid) ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub EF (sy'n arolygu heddluoedd). Disgrifiodd y fframwaith OOCR presennol fel un 'darniog ac anghyson' gan nodi'n glir bod angen fframwaith cenedlaethol cliriach a mwy cyson.[37]

Rhaid i'r system arallgyfeirio ieuenctid weithio'n gyson a theg. Dylai pob plentyn dderbyn yr ymateb iawn ar yr amser iawn ble bynnag y maen nhw'n byw neu beth bynnag yw eu tarddiad ethnig. Bydd fframwaith arallgyfeirio modern yn sicrhau bod penderfyniadau'n gymesur ac wedi eu gwreiddio mewn diogelu'r cyhoedd, a bod ymyriadau'n amserol ac effeithiol. Bydd y llywodraeth yma'n cymryd amser i ystyried y mater hwn yn ofalus fel bod y fframwaith OOCR yn gweithio i bob plentyn a chadw cymunedau'n ddiogel.

### Fframwaith OOCR modern

3.10. Mae gan ddedfrydau OOCR botensial mawr i roi cyfiawnder dioed i ddioddefwyr, a lleihau aildroseddu. I gyflawni'r potensial hwn, mae angen fframwaith OOCR ar holl ymarferwyr y system cyfiawnder ieuenctid, p'un ai'n heddlu, ymarferwyr cyfiawnder ieuenctid neu'n erlynwyr, sydd â diffiniadau a disgwyliadau clir a chyson wedi eu disgrifio mewn canllawiau sy'n berthnasol i bawb, gyda data i gefnogi penderfyniadau.

3.11. Rydyn ni wedi dechrau cymryd camau pendant tuag at wneud hyn. O Ebrill 2026 ymlaen, bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn dechrau casglu data ar ymyriadau a roddir i blant gyda dedfrydau OOCR, er mwyn deall yn well a chraffu'r camau a gymerir eisoes i fynd i'r afael â'r rhesymau sydd wrth wraidd troseddau plant. Mae hyn yn agwedd hollbwysig ar y tirlun OOCR ieuenctid a bydd gennym ddealltwriaeth gliriach o sut y defnyddir OOCR i oleuo a thargedu gwelliannau. Ond bwriadwn wneud mwy fyth.

3.12. Ers Adolygiad Lammy mae llawer o heddluoedd wedi sefydlu cynlluniau erlyn wedi'i ohirio cadarn. Un o brif amcanion a manteision y cynlluniau hyn, drwy beidio â bod angen i blant gyfaddef bai, yw mynd i'r afael â rhai o'r materion a ddisgrifir ym

[37] Effeithiolrwydd arallgyfeirio plant o'r system cyfiawnder troseddol: cwrdd ag anghenion, sicrhau diogelwch, ac atal aildroseddu (2025) – Arolygiaeth Prawf EF & HMICFRS

mharagraff 3.7 i sicrhau mynediad mwy teg a chyfartal at fanteision arallgyfeirio effeithiol.

**3.13.** Fodd bynnag, mae manteisio ar gynlluniau erlyn wedi'i ohirio wedi bod yn anwastad ar draws y wlad. Mae'r llywodraeth wedi gwrando'n ofalus ar y ddadl bod y cynlluniau (sydd angen gweithio mewn partneriaeth, meithrin perthynas a rheolaeth gadarn o achosion i weithio'n iawn) yn haeddu cael eu cydnabod yn yr un ffordd ag y mesurir perfformiad heddluoedd. O ganlyniad, **penderfynodd y llywodraeth y dylai fod gan Erlyn wedi'i Ohirio ei godau canlyniad penodedig ei hun: Canlyniad 23 ar gyfer plant a Chanlyniad 24 ar gyfer oedolion. Bydd achosion sy'n cael eu cau o dan Ganlyniad 23 a Chanlyniad 24 yn cael eu hystyried i fod 'wedi eu penderfynu' er mwyn cymell a gwobrwyo gwaith arallgyfeirio effeithiol.** Byddwn yn ystyried hyn yn weithredol wrth symud ymlaen. Bydd y newid yma'n rhan o ganllawiau gan y Swyddfa Gartref fydd yn glir, er mwyn i drosedd gael ei hystyried i fod wedi cael ei chau fel hyn, bod ymyriad trylwyr yn ei le gyda throsolwg priodol yn rhan ohono, er mwyn sicrhau bod arallgyfeirio wedi bod yn opsiwn effeithiol a chadarn yn lle cyhuddo'r plentyn o'r drosedd. **Ni allwn ddychwelyd at y rhybuddion gwag a'r gafael anfoddhaol sydd wedi nodweddu gormod o ddedfrydau allan-o-lys.**

3.14. Gyda'i gilydd bydd y camau uchod yn cyflwyno newid sylweddol i'r fframwaith OOCR ar gyfer plant. Er hynny, bydd hyn ond yn rhan o ddiwygio esblygol pellach ar system sydd eisoes yn gymhleth. O ganlyniad, byddwn yn gwneud mwy gan ddechrau gweithio'n syth ar adolygiad trwyddo draw o'r fframwaith OOCR ieuenctid. **Byddwn yn cyflwyno ein cynigion ar gyfer diwygiad sylfaenol o'r fframwaith OOCR ieuenctid yn yr hydref 2026.** Bydd y cynigion hyn yn disgrifio dull a fframwaith hollol newydd – un sy'n troi ar gryfhau cysondeb, eglurder a thegwch a chadw'r hyblygrwydd sydd ei angen i ymateb yn gymesur i amgylchiadau ac anghenion plant.

3.15. Nod y llywodraeth hon yw dylunio fframwaith OOCR ieuenctid sy'n cyflawni potensial arallgyfeirio'n llawn. Mae hynny'n golygu edrych nid yn unig ar strwythurau polisi OOCR ffurfiol ond hefyd pa ymyriadau sy'n cael eu darparu fel rhan ohonynt a sut. Bydd felly'n edrych ar fyfyrdodau a diwygiadau ehangach a ddisgrifir yn y Papur Gwyn hwn, i ystyried yn y pen draw pam fod plant yn troseddu.

3.16. Mater canolog ar gyfer ymgynghori fydd a ddylid a sut i newid y gofynion presennol o gwmpas cyfaddef euogrwydd. Tynnodd Adolygiad Lammy sylw at gyfyngiadau prawf haearnaidd o gyfaddef bai, a gyfrannodd yn uniongyrchol at greu Canlyniad 22 ac erlyn wedi'i ohirio. Er bod rhyw fath o ganiatâd yn parhau i fod yn un o'r rhagofalon pwysig yn erbyn 'cyfiawnder diannod' (penderfyniadau sydyn a wneir heb ragofalon proses ffurfiol), gall gofyniad llym i gyfaddef euogrwydd yn llawn atal arallgyfeirio priodol, yn enwedig mewn achosion lefel is. Wrth ymateb, mae rhai

heddluoedd wedi mabwysiadu dull mwy pragmataidd gan dderbyn 'derbyn cyfrifoldeb' yn hytrach na chyfaddefiad ffurfiol. Byddwn yn ystyried a ddylid mabwysiadu dull cenedlaethol ehangach a mwy cyson o gyfaddef euogrwydd ac a fyddai dull newydd yn helpu i fynd i'r afael â'r anghysondebau parhaus o ran mynediad at arallgyfeirio.

3.17. I sicrhau ymarfer gorau, byddwn hefyd yn ymgynghori ynghylch a ddylai'r dedfrydau hyn, yn ogystal â rhai cymunedol, fod yn statudol. Er yn rhoi hyblygrwydd pwysig i ymarferwyr, gallai statws anstatudol presennol y dedfrydau hyn fod yn cyfrannu at anghysondeb o ran eu deall a'u defnyddio ar draws y wlad. Gallai gwneud y dedfrydau hyn yn statudol gynorthwyo ymarfer mwy cyson ond byddai angen diffiniadau cyfreithiol clir, a chanllawiau statudol, i sicrhau darparu effeithiol a rhagofalon priodol ond gan hefyd gadw'r elfen angenrheidiol o ddisgresiwn ymarferwyr.

3.18. Bydd ein cynigion hefyd yn trafod a ddylai cyfranogi mewn ymyriadau OOCR fod yn orfodol ar gyfer rhai troseddau, gan adeiladu ar y dull a weithredir eisoes ar gyfer cario cyllyll. Ar hyn o bryd, ar gyfer dedfrydau cymunedol, rhybuddiadau ieuenctid a rhai mathau o Ganlyniad 22, nid oes angen ymgysylltu'n orfodol â'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, hyd yn oed ar gyfer troseddau cymharol ddifrifol fel cario arf ymosodol yn breifat. Byddwn yn ystyried hyn gyda'r nod o ddiogelu'r cyhoedd.

3.19. Am yr un rheswm, dylai plant a droseddodd ddeall o ddifrif y niwed yr achosodd y drosedd i eraill ac iddyn nhw eu hunain – p'un ai'n drosedd o ollwng sbwriel neu gario cyllell. Byddwn felly'n ystyried sut i adeiladu ar, ac ehangu, ymarfer gorau o ran cyfiawnder adferol, lle y gall plant wneud iawn am y niwed a achoswyd ganddynt drwy waith adeiladol yn y gymuned neu gyda dioddefwyr. Mae stori Jacob Dunne yn dangos pŵer cyfiawnder adferol – byddwn yn ei ddefnyddio fel cynghorydd arbenigol i oleuo ein polisi a'n cynlluniau cyfiawnder ieuenctid, gan ddechrau gyda digwyddiad bwrdd crwn yn yr haf, wedi'i gadeirio ganddo fo a'r gweinidog cyfiawnder ieuenctid gyda gwasanaethau rheng flaen ac arbenigwyr sector gwirfoddol.

3.20. Mae angen strwythur, sefydlogrwydd a chymorth cyson ar blant i dorri allan o'r cylch troseddu. Byddwn yn ystyried gwersi a ddysgwyd o enghreifftiau a pheilotiaid rhyngwladol, gan gynnwys yr academïau Oranga Tamariki 'milwrol' yn Seland Newydd, i sicrhau y gall gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid gynnig ymyriadau caled ac na fydd troseddu'n digwydd eto. Bydd hyn yn cynnwys gwaith adferol gweladwy – mae cymunedau a dioddefwyr yn haeddu'r sicrwydd y bydd canlyniadau i droseddu.

3.21. Yn olaf, byddwn yn holi barn ynghylch a ddylid ymestyn uchafswm rhybuddiadau amodol ieuenctid i hyd at 12 mis ar gyfer rhai troseddau, fel rhai a gyflawnir i baratoi

at derfysgaeth a rhai troseddau rhywiol sydd ddim yn cynnwys treiddio. Mae'r troseddau hyn yn ddifrifol – rhaid eu hatal rhag gwaethygu i droseddu mwy difrifol fyth. Rydyn ni'n poeni nad yw'r uchafswm safonol presennol o 16 wythnos yn ddigon i wneud gwaith adsefydlu ystyrlon er mwyn mynd i'r afael â'r risg. Gallai OOCR heb fod yn ddigon hir neu ddifrifol olygu bod yr heddlu'n dod i gasgliad y dylent erlyn yn hytrach – a allai arwain at broses fwy araf i fynd i'r afael â'r problemau a arweiniodd at droseddu'r plentyn, a chyfraddau aildroseddu mwy siomedig.

3.22. Gwyddom fod y system OOCR oedolion hefyd yn wynebu llawer o'r un problemau. Roedd Adolygiad Annibynnol Syr Brian Leveson o'r Llysoedd Troseddol wedi ystyried rôl dedfrydau OOCR yn fanwl, gan gynnwys ac yn enwedig i oedolion. Rydyn ni'n ystyried argymhellion yr Adolygiad yn weithredol yn y gofod hwn, gan gynnwys diwygiadau i'r fframwaith OOCR ieuenctid a allai ac a ddylai fod yn berthnasol i oedolion hefyd.

**Cryfhau plismona i gefnogi arallgyfeirio effeithiol**

3.23. I arallgyfeirio weithio'n dda, rhaid arfogi heddluoedd â'r strwythurau, prosesau a'r sgiliau sydd eu hangen i adnabod risg yn gynnar, gwneud penderfyniadau cymesur ac ymateb mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu anghenion a natur fregus plant. Gwyddom fod llawer o enghreifftiau o heddluoedd ar draws Cymru a Lloegr sy'n gweithredu ymyriadau effeithiol gyda ffocws ar atal ac arallgyfeirio troseddau ieuenctid, llawer ohonynt wedi cael eu gwerthuso'n annibynnol neu'n lleol, ac wedi eu cynnwys ym manc ymarfer y Coleg Plismona.

3.24. Fodd bynnag, mae'r tirlun plismona presennol yn bur wasgarog gydag ymarfer yn amrywio o ran effeithiolrwydd a chysondeb o un heddlu i'r llall, gan effeithio ar ansawdd ac argaeledd arallgyfeirio. Mewn rhai ardaloedd, mae gan blismyn bartneriaethau cryf â'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, prosesau penderfyniadau OOCR clir, a dealltwriaeth dda o natur fregus plant. Mewn eraill, gall bylchau mewn gallu, hyder neu gydlynu olygu bod plant yn derbyn canlyniadau tra gwahanol am ymddygiad tebyg, gan ddibynnu ar ble y maen nhw'n byw.

3.25. Yn ei Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol, roedd Syr Brian Leveson yn argymell safoni'r hyfforddiant i'r heddlu ar ddefnyddio OOCR ar gyfer plant. Mae'r llywodraeth yn darparu ar yr argymhelliad hwn. Roedd y Papur Gwyn ar Blismona, a gyhoeddwyd yn Ionawr 2026, yn cyflwyno rhaglen o ddiwygiadau sylweddol er mwyn creu gwasanaeth heddlu mwy eglur, wedi'i gydlynu'n well a'i ddarparu'n fwy cyson. Bydd y diwygiadau hyn yn helpu i atal troseddu'n fwy effeithiol, cryfhau safonau gweithredol craidd a gwella sut y mae'r heddlu'n gweithio ag asiantaethau eraill.

3.26. Fel rhan o'r trawsnewid hwn, bydd y llywodraeth yn sicrhau bod newidiadau o fewn plismona hefyd yn cryfhau gallu a hyder plismyn i weithio gyda phlant. Mae'r Gwasanaeth Plismona Newydd a chyflwyno Trwydded i Ymarfer wedi rhoi dulliau clir o ddarparu hyfforddiant gwell ar y system cyfiawnder ieuenctid a sut orau y gall plismyn ymyrryd gyda phlant, ynghyd â disgwyliadau cliriach o gwmpas defnyddio arallgyfeirio ieuenctid yn briodol. Bydd y mesurau hyn yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau'r heddlu'n gymesur, teg ac effeithiol.

## Adran 2: Proses gyfreithiol deg ac effeithiol i bob plentyn

3.27. Rhaid i blant sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder ieuenctid fod yn gallu dibynnu ar broses gyfreithiol sy'n deg, cymesur ac yn gallu cynnal newid. Gall penderfyniadau ym mhob cam – o gyngor cyfreithiol i gyhuddo a chanlyniadau yn y llys – gael effeithiau sy'n newid bywyd. Mae cael y penderfyniadau hyn yn iawn a sicrhau proses deg yn gwbl greiddiol, nid yn unig i gynnal rheol y gyfraith ond sicrhau bod plant yn deall beth sy'n digwydd iddynt. **Dyna pam fod y llywodraeth wedi cyhoeddi'r Siarter Cyfiawnder Ieuenctid haf diwethaf fel bod unrhyw blentyn sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn gwybod beth i'w ddisgwyl a beth yw eu hawliau.**

3.28. Er bod llys ieuenctid arbenigol ar gael ynghyd â fframwaith dedfrydu neilltuol, mae gormod o blant yn ei chael yn anodd ymgysylltu'n ystyrlon ag achosion troseddol. Gall iaith gyfreithiol gymhleth, prosesau anghyfarwydd a dealltwriaeth brin o beth sy'n digwydd mewn llys danseilio gallu plant i gyfrannu at benderfyniadau a allai roi canlyniadau sy'n newid eu bywydau. Mae'r heriau hyn yn waeth i lawer o blant yn y system sydd ag anghenion lleferydd, iaith neu gyfathrebu neu sy'n niwro-amrywiol.

3.29. Nid cwestiwn o degwch yw hyn – mae'n gwbl sylfaenol i effeithiolrwydd achos llys. Os nad yw plant (neu'n wir oedolion) yn deall beth sy'n digwydd iddynt neu pam fod penderfyniadau'n cael eu gwneud, maen nhw'n llai tebygol o ymgysylltu'n ystyrlon â'r broses neu gydymffurfio ag ymyriadau. Gall hyn, yn ei dro, danseilio adsefydlu a chynyddu'r risg o droseddu pellach. Mae system na all plant ei deall yn llai tebygol o newid eu hymddygiad ac felly o gadw'r cyhoedd yn ddiogel.

3.30. Er y gall cefnogaeth gan oedolyn priodol effeithiol gyda dealltwriaeth gadarn o'r system cyfiawnder ieuenctid helpu i ddiogelu hawliau plant, yn rhy aml mae plant yn derbyn cyngor cyfreithiol gwael, yng ngorsaf yr heddlu – lle y gall penderfyniadau cynnar gyfrannu at ganlyniadau'r dyfodol – ac yn y llys ei hun. Casglodd yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol fod plant yn cael eu gadael i lawr gan gyfreithwyr dibrofiad, gydag ymarferwyr o ansawdd amrywiol, a bod gwaith ieuenctid yn cael ei ddefnyddio'n rhy aml fel 'maes hyfforddi' ar gyfer cyfreithwyr dibrofiad newydd gymhwyso'n hytrach na fel maes arbenigol sydd angen

arbenigedd. Mae'r llywodraeth yma wedi ymateb drwy gyflwyno cynllun ffioedd cymorth cyfreithiol newydd ar gyfer llysoedd ieuenctid, gyda £5.1miliwn ychwanegol y flwyddyn – cynnydd o tua 80% ar y pryd – i adlewyrchu cymhlethdod, natur fregus a difrifoldeb achosion ieuenctid yn well.[38]

3.31. Dyluniwyd y cynllun newydd i ddenu a chadw cyfreithwyr gyda'r wybodaeth a'r profiad gweithdrefnol arbenigol i ddelio â'r cohort cynyddol fwy cymhleth a bregus o blant sy'n dod trwodd i'r llysoedd ieuenctid. Fodd bynnag, er y pwysau unigryw a ddaw gyda gwaith cyfreithiol cyfiawnder ieuenctid, ar hyn o bryd nid oes hyfforddiant gorfodol ar gyfer cyfreithwyr sy'n amddiffyn plant. Mae hyn yn amryfusedd clir – rhaid i farnwyr dosbarth, ynadon, cynghorwyr cyfreithiol ac erlynwyr sy'n gweithio yn y llysoedd ieuenctid i gyd gyflawni hyfforddiant arbenigol er nad oes angen i gyfreithwyr amddiffyn, sydd â chyfrifoldebau hanfodol i gynghori, cynrychioli a diogelu, gwrdd â'r un safonau.

3.32. Ychydig iawn y mae'r llys ieuenctid ei hun wedi newid dros y 25 mlynedd diwethaf, er y newid mawr ym mhroffil ac anghenion y plant sy'n dod iddo. Yn gynyddol, mae plant sy'n dod gerbron y llys ieuenctid wedi cyflawni troseddau difrifol ac yn cyflwyno ag anghenion cymhleth a nifer o nodweddion bregus.

3.33. Pob blwyddyn mae tua 13,000 o blant yn cael eu dedfrydu.[39] Er gwaethaf ymdrechion sylweddol, mae tua thraean o'r plant hyn yn aildroseddu wedyn.[40] Mae'r canlyniadau'n arbennig o bryderus yn achos plant sy'n cael gorchymyn adsefydlu ieuenctid (YRO – dedfryd gymunedol sy'n cyfuno goruchwyliaeth, cymorth ac, weithiau, cyfyngiadau) – am y flwyddyn yn diweddu Mawrth 2024 roedd y gyfradd aildroseddu ar gyfer plant gyda YRO yn 60%.[41]

3.34. Nid yw'r dull presennol yn lleihau aildroseddu ar y raddfa sydd angen ei gweld. Gwyddom fod tua 80% o droseddwyr cyson sy'n oedolion wedi troseddu gyntaf pan oeddent yn blant[42] - gall patrymau troseddu cynnar, heb sylw effeithiol, droi'n droseddu wedi gwreiddio. Yn ei ffurf bresennol, ni all y llys ieuenctid roi'r ymateb hyblyg, seiliedig ar dystiolaeth ac wedi'i deilwrio hwnnw sydd ei angen i helpu'r cohort cynyddol gymhleth hwn i adsefydlu'n effeithiol.

---

38 Hwb o £24m ar gyfer cymorth cyfreithiol troseddol i gefnogi'r mwyaf bregus (2024) – GOV.UK

39 Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

40 Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

41 Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

42 Troseddwyr Cyson (2019)

Dylai pob plentyn brofi proses gyfreithiol deg, ddealladwy ac a allai eu helpu i newid. Mae hynny'n golygu derbyn eiriolaeth gyfreithiol o ansawdd uchel gan rai gyda'r sgiliau arbenigol a'r hyder i gynrychioli plant bregus ag anghenion cymhleth, cefnogaeth gan oedolyn priodol effeithiol ynghyd â model llys mwy ymatebol ac sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Drwy wreiddio dulliau aml-ddisgyblaethol o ddatrys problemau sy'n dod â'r llys, gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a chymorth arbenigol at ei gilydd o gwmpas y plentyn, gall y system fynd i'r afael â'r rhesymau sydd wrth wraidd troseddu, cryfhau cydymffurfio â dedfrydau adsefydlu a rhoi'r cyfle gorau posib i blant i newid er gwell ac yn barhaol.

### Dyfodol y llysoedd troseddol i blant

3.35. Mae'r heriau hyn yn codi cwestiynau sylfaenol am rôl a swyddogaeth y llysoedd troseddol ar gyfer diffynyddion sy'n blant. Dros amser, mae proffil ac anghenion plant sy'n dod gerbron y llys wedi newid yn aruthrol ond i raddau helaeth nid yw strwythurau a phrosesau craidd y llys ieuenctid wedi newid.

3.36. Yn y bôn, rhaid i'r llysoedd fod yn fodd i atal troseddu drwy gefnogi plant i drawsnewid eu bywydau. I wneud hyn gall fod angen newid rôl y llysoedd, cyn ac ar ôl euogfarnu, yn radical.

3.37. Mae gennym hefyd ddiddordeb yn rôl y llysoedd troseddol mewn dal y bobl sy'n gyfrifol am blant i gyfrif. Lle'r oedd risg yn hysbys ond heb weithredu arni, gwybodaeth heb ei rhannu, neu gyfrifoldebau diogelu heb eu rheoli'n effeithiol, rhaid cymryd cwestiynau o atebolrwydd o ddifrif. Rhaid i drin plant fel plant hefyd fynd law yn llaw â thrin yr oedolion a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gyfrifol am eu diogelwch, ac am ddiogelwch y cyhoedd. Byddwn yn ystyried a all, a sut y gall system y llys adnabod, tynnu sylw at ac ymateb i fethiannau system ehangach, yn lle rhoi'r cyfrifoldeb ar y plentyn yn unig.

3.38. **Bydd y llywodraeth yma'n edrych yn fanwl ar swyddogaeth a phwrpas y llysoedd troseddol ar gyfer diffynyddion sy'n blant.** Bydd y gwaith hwn yn ystyried ffyrdd eraill o ddarparu rôl a strwythur system bresennol y llysoedd ac yn gwneud argymhellion wedi eu goleuo gan ymarfer gorau a dulliau wedi eu profi. Bydd yn ystyried pethau fel ydy trefn bresennol y llysoedd troseddol yn helpu plant i newid eu bywydau ac atal troseddu, beth y gellir ei ddysgu o ddulliau gan awdurdodaethau eraill a thrwy gymharu â gwledydd tramor tebyg, ac a fyddai unrhyw rinwedd bod cohortau eraill (gan gynnwys oedolion ac oedolion ifanc bregus) yn wynebu proses wahanol yn system ein llysoedd troseddol, naill ai'r un fath (neu debyg i'r) system blant. Rydyn ni wedi gofyn i David Ormerod weithredu fel ein cynghorydd arbenigol ar hyn, gan adrodd erbyn Awst 2027.

3.39. Ond er bod y gwaith mwy hirdymor hwn yn ystyried dyfodol llysoedd troseddol i blant, mae gwelliannau clir sydd angen eu gwneud ar fyrder i wella'r broses gyfreithiol a brofir gan blant heddiw.

## Hyfforddiant gorfodol ar gyfer eiriolaeth ieuenctid

3.40. I fynd i'r afael â phryderon hirsefydlog o gwmpas ymarfer anghyson a safonau cyfreithiol amrywiol, **mae'r llywodraeth yma'n gweithio gyda'r sector cyfreithiol i greu model newydd ar gyfer gofynion hyfforddiant arbenigol i gyfreithwyr sy'n cynrychioli plant.** Rydyn ni wedi comisiynu Grŵp Cynghori Arbenigol sy'n dod â chynrychiolwyr o'r gwahanol broffesiynau cyfreithiol at ei gilydd i helpu i osod safonau eiriolaeth droseddol ar gyfer plant.

3.41. Bydd y Grŵp Cynghori'n cyflwyno ei argymhellion erbyn yr haf 2026 a bydd y llywodraeth yna'n ystyried sut orau i weithredu'r safonau arfaethedig, gan gynnwys opsiynau i wneud hyfforddiant ieuenctid arbenigol yn orfodol.

3.42. Mae hyn yn newid sylfaenol o ran sut y mae'r system yn sicrhau ansawdd a chysondeb eiriolaeth cyfiawnder ieuenctid. P'un ai yw plentyn yn cael ei gadw mewn gorsaf heddlu, yn rhoi ple yn y llys ieuenctid neu'n wynebu treial yn Llys y Goron, bydd y system newydd yn cydnabod bod cynrychioli plant – mewn unrhyw le – yn waith cymhleth sydd angen sgiliau penodol a phrofiad. Bydd hefyd yn gwneud ymarfer amddiffyn yn gyson â'r ymrwymiadau hyfforddiant arbenigol sydd eisoes yn eu lle ar gyfer y farnwriaeth ac erlyn yn y llys ieuenctid.

## Cyflwyno Llysoedd Ymyriadau Ieuenctid

3.43. Bydd cyflwyno hyfforddiant gorfodol i rai sy'n cynrychioli plant (yn unol â phara. 3.40 uchod) yn newid mawr mewn llys ieuenctid mwy modern. Ond yn ei hanfod bydd yr un fath â'r trefniant llys ieuenctid a gyflwynwyd yn 1992.

3.44. Bydd y llywodraeth yma'n datblygu ymatebion mwy cadarn, seiliedig ar dystiolaeth, i'r cohort bach o blant sy'n cyflwyno'r risg fwyaf o barhau i droseddu. Yn benodol, drwy adeiladu ar y model llys goruchwyliaeth ddwys (ISC) sy'n cael ei brofi yn y llys ynadon oedolion, **byddwn yn deddfu i gyflwyno Llysoedd Ymyriadau Ieuenctid**.

3.45. Bydd y Llysoedd Ymyriadau Ieuenctid yn cyflwyno ffordd sylfaenol wahanol o weithio - dull mwy ffurfiol o ddatrys problemau fydd yn dod â barnwyr, gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a chymorth arbenigol o gwmpas y plentyn mewn ffordd gydlynus a chyson. Yn lle ymddangosiadau llys gwasgarog, byr, bydd profiad plant o fynd i'r llys yn cyfrannu'n weithredol at eu hadsefydlu - un sy'n gosod disgwyliadau clir, monitro cydymffurfio'n fanwl a defnyddio awdurdod y llys i ysgogi a chynnal newid.

3.46. Mae gan y dull newydd hwn botensial i newid canlyniadau i rai o'r plant mwyaf bregus a risg uchel yn y system, gan hefyd gryfhau hyder mewn dedfrydau cymunedol fel opsiwn yn lle carcharu. Lle na weithiodd ymatebion blaenorol, gallai'r ymyriad mwy strwythurol hwn fod yr hyn sydd ei angen i newid ymddygiad, torri'r cylch o droseddu parhaus, a diogelu dioddefwyr a chymunedau.

3.47. Bydd y peilotiaid yn dysgu gwersi o'r peilotiaid ISC oedolion gan fabwysiadu dull gwahanol sy'n adlewyrchu anghenion penodol plant ac amcanion unigryw'r system cyfiawnder ieuenctid. Bydd y peilotiaid yn canolbwyntio ar y cohort a ddedfrydir i orchmynion adsefydlu ieuenctid sef y plant y gwyddom (ar wahân i rai a ddedfrydir i garchar) sydd â'r risg fwyaf o aildroseddu.

3.48. Rydyn ni heddiw wedi lansio proses mynegi diddordeb i adnabod safleoedd peilot, gan ddisgwyl i o leiaf un Llys Ymyriadau Ieuenctid ddechrau gweithredu erbyn gwanwyn 2027. Mae'r llywodraeth yn credu bod gan y model llys newydd hwn botensial i newid rôl y llys ieuenctid mewn ffordd feiddgar a phositif. Fodd bynnag, i brofi'r rhagdybiaeth i weld a ellir ailadrodd canfyddiadau positif y model ISC oedolion ar gyfer plant, byddwn yn gwerthuso'r peilotiaid i oleuo penderfyniadau pellach am ehangu.

3.49. Gallai Llysoedd Ymyriadau Ieuenctid, os ydynt yn llwyddiannus, ddod yn un o gonglfeini system cyfiawnder ieuenctid fodern i blant na allwn reoli eu risg yn ddiogel na'n effeithiol drwy'r amrywiol ddedfrydau cymunedol presennol.

### Proses gyfreithiol sy'n gweithio i ddioddefwyr

3.50. Rhaid i system cyfiawnder ieuenctid y bydd gan y cyhoedd ffydd ynddi weithio nid yn unig i blant sy'n troseddu, ond hefyd i ddioddefwyr. Mae gan ddioddefwyr hawl i gael eu trin gydag urddas a pharch, i gael eu diweddaru'n gyson ac i ddeall sut y gwneir penderfyniadau drwy gydol y broses gyfiawnder. Os yw'r dioddefwyr yn blant eu hunain, fel gyda llawer o achosion cyfiawnder ieuenctid, mae'r anghenion hyn yn arbennig o aciwt a chymhleth.

3.51. Mae'r llywodraeth yn croesawu a chefnogi mwy o ffocws ar gymorth y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid i ddioddefwyr yn y fframwaith arolygu a gyflwynwyd gan Arolygiaeth Prawf EF yn 2025.

3.52. Mae'r llywodraeth yma'n ymrwymedig i gryfhau profiad dioddefwyr o'r system cyfiawnder troseddol. Mae'r Cod Dioddefwyr yn disgrifio'r safonau isaf y gall dioddefwyr eu disgwyl, ond gwyddom y gall y system fod yn ddryslyd a llethol, yn enwedig i blant sy'n ddioddefwyr. Dyna pam fod y llywodraeth wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cod Dioddefwyr newydd gan gynnwys cynigion i wneud y Cod yn fwy hygyrch i blant ac i ystyried a oes angen Cod ar wahân ar gyfer plant i sicrhau bod eu hanghenion penodol yn cael eu cwrdd.

## Adran 3: Lleihau remandio plant dan glo'n ddiangen

3.53. Mae nifer y plant dan glo'n hanesyddol isel. Fodd bynnag, pob blwyddyn mae cannoedd o blant yn cael eu cadw dan glo cyn mynd i'r llys neu gael eu dedfrydu – yn 2024/25 roedd y plant yma'n 44% o'r holl blant dan glo ac ni dderbyniodd 62% ohonynt ddedfryd o garchar.[43] Bydd achosion o hyd yn ymwneud â'r troseddau mwyaf difrifol lle mae'r risg i'r cyhoedd yn rhy fawr a remandio dan glo ar orchymyn y llys felly'n iawn ac angenrheidiol. Yn yr achosion hyn, rhaid i ddiogelu'r cyhoedd fod yn flaenoriaeth. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth yma'n glir y dylid ond ystyried remandio dan glo yn niffyg popeth arall ac awgryma'r ffigurau presennol nad yw hyn yn digwydd.

3.54. Mae nifer gyfartalog y plant ar remand dan glo wedi lleihau dros y 5 mlynedd diwethaf,[44] fodd bynnag rydyn ni dal yn gweld rhai achosion remand dan glo am droseddau cymharol fân (fel mân droseddau cyffuriau a dwyn)[45] a phlant Du a Threftadaeth Gymysg, yn anghymesur felly, sy'n cael eu remandio dan glo (28% o'r boblogaeth remand am y naill a 18% am y llall).[46] Mewn arolygiad thematig gan Arolygiaeth Prawf EF o achosion remand ieuenctid dan glo, barnwyd y gallai 46% o'r plant a aseswyd fod wedi cael eu cadw'n ddiogel yn y gymuned.[47] Mae hyn yn awgrymu bod rhai plant yn cael eu cadw dan glo'n ddiangen ar un o'r adegau mwyaf ffurfiannol yn eu bywydau.

3.55. Mae canlyniadau remandio dan glo'n ddiangen yn ddifrifol i'r person ifanc – tarfu ar addysg, gwahanu oddi wrth deulu, ffrindiau a chymuned, a dod i gysylltiad ag amgylchedd carchar a allai droi'r person ifanc yn droseddwr. Gall remandio'n ddiangen dan glo hefyd fod yn wrthgynhyrchiol i ddiogelu'r cyhoedd a chost iawn i drethdalwyr – gydag un lle dan glo'n costio bron i hanner miliwn o bunnau'r flwyddyn.[48]

3.56. Wrth geisio lleihau remandio dan glo'n ddiangen, nid ydym eisiau gweld plant a gyhuddir o droseddau'n cael eu rhyddhau i'r gymuned, i'r union amgylchiadau a arweiniodd at eu troseddu (honedig). Mae gan yr heddlu a'r llysoedd ffyrdd o ddulliau ac ymyriadau i oruchwylio a chadw llygad manwl ar ymddygiad y plentyn.

---

43 Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

44 Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

45 Chwarterolyn Ystadegau Cyfiawnder Troseddol: Rhagfyr 2025 (HTML) – GOV.UK

46 Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

47 Arolygiad thematig ar-y-cyd o waith gyda phlant ar remand dan glo (2023) – Arolygiaeth Prawf EF

48 Rheoliadau Adfer Costau (Llety Remand Ieuenctid Dan Glo) 2025

Os nad yw'r plentyn yn dilyn y gofynion hyn neu'n troseddu ymhellach, gallai a dylai fod canlyniadau i'r plentyn, gan gynnwys cael ei gadw dan glo.

3.57. Ond er gwaetha'r diwygiadau blaenorol, mae'r system yn dal i gael trafferth cynnig dedfrydau cymunedol cryf yn ddigon sydyn mewn rhai achosion lle y gallai hyn fod yn opsiwn addas. Oherwydd trefn wasgarog ar draws y llysoedd, heddlu, awdurdodau lleol, gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd, nid yw gwybodaeth hanfodol bob tro'n cael ei rhannu a phecynnau mechnïaeth yn aml yn dod at ei gilydd yn rhy hwyr. Mae plant gyda'r anghenion mwyaf cymhleth – sy'n hysbys yn barod i wahanol wasanaethau – yn aml yn disgyn drwy'r bylchau rhwng systemau sydd ddim yn gydlynus.

3.58. Ar yr un pryd, yn rhy aml nid oes dedfrydau cymunedol cadarn ar gael. Mae cwymp yn nifer y cartrefi a gymeradwywyd ar gyfer maethu cyfiawnder ieuenctid yn y blynyddoedd diweddar, a phrinder ehangach o lety arbenigol, yn ei gwneud yn anoddach i bartneriaid lleol gynnig opsiynau addas i garcharu.

3.59. Os nad yw gwasanaethau'n cydweithio'n ddigon sydyn, neu opsiynau cymunedol cryf ddim ar gael, mae plant yn cael eu remandio dan glo, weithiau hyd yn oed am droseddau lefel is, nid oherwydd bod angen eu cadw dan glo ond oherwydd bod y system o'u cwmpas wedi methu â chynnig dewis hyfyw arall. Y canlyniad yw system remand anghyson ac sy'n rhy aml yn annheg. Mae rhai ardaloedd lleol yn gwneud defnydd gwych o opsiynau cymunedol ond mae eraill yn gweld nifer gymharol uchel o gadw dan glo.

Ein huchelgais yw lleihau nifer y plant ar remand dan glo (ar unrhyw un adeg) o 25% erbyn diwedd y Senedd hon. Bydd o hyd achosion niwed uchel a risg uchel lle y byddai cyfiawnhad dros gadw dan glo ar y pryd ac ni fyddai'r plentyn yn cael dedfryd o garchar yn y pen draw - ond dylai hyn fod yn y lleiafrif o achosion oherwydd bod y gyfraith yn glir mai yn niffyg popeth arall y dylid remandio dan glo.

I wneud hyn rhaid creu system remand sy'n deg a chymesur. Dylid cefnogi plentyn yn eu cymuned pryd bynnag y mae'n ddiogel a phriodol gwneud hynny, gyda phecynnau mechnïaeth cryf sy'n diogelu'r cyhoedd a chefnogi canlyniadau hirdymor gwell. Bydd angen system fwy cydgysylltiedig i gyflawni hyn, gydag atebolrwydd cliriach a chydlynu cryfach ar draws asiantaethau, wedi'i chefnogi drwy bartneriaethau rhanbarthol i sicrhau y gall pob ardal gynnig opsiynau cadarn yn lle carcharu.

## Cyllid remand cynaliadwy sy'n cynyddu capasiti

3.60. Am gyfnod rhy faith, bu'r cyllid ar gyfer cadw pobl ifanc ar remand yn ansefydlog a thymor byr. Bu'n rhaid i wasanaethau lleol gynllunio o un flwyddyn i'r llall, sy'n anodd o gofio bod nifer y plant a allai gael eu rhoi ar remand dan glo mewn unrhyw awdurdod lleol yn fach ac yn gallu amrywio'n sylweddol. Oherwydd y sefyllfa anwadal yma, mae'n anodd iawn i ardaloedd lleol fuddsoddi'n hyderus yn yr opsiynau cymunedol sydd eu hangen i gadw plant yn ddiogel ac allan o garchar.

3.61. Mae hyn wedi'i waethygu gan y dull cyllido. Tan rŵan, gwelodd ardaloedd a lwyddodd i leihau remandio dan glo eu dyraniad cyllid yn gostwng – gan danseilio ymarfer effeithiol a chymell i beidio â buddsoddi mewn opsiynau cymunedol yn lle carcharu.

3.62. Fel y noda ein datganiad polisi yn Chwefror, System Cyfiawnder Troseddol Fodern, **mae'r llywodraeth yma'n trawsnewid ei dull o gyllido remand**. Dechreuodd hyn yn Ebrill pan dderbyniodd awdurdodau lleol setliadau cyllid aml-flwyddyn. Bydd y sefydlogrwydd a'r sicrwydd ariannol hwn yn helpu i gynllunio'n fwy effeithiol a buddsoddi'n fwy hirdymor mewn opsiynau yn lle carcharu. Rydyn ni hefyd wedi moderneiddio'r fformiwla o ddosbarthu cyllid fel bo'n cefnogi a gwobrwyo'r canlyniadau y dymunwn eu gweld. Yn lle cael ei gyrru'n bennaf gan nosweithiau gwely dan glo, bydd y fformiwla'n cael ei hail-bwysoli i gydnabod defnyddio opsiynau cymunedol cadarn, gan gynnwys remand i lety awdurdod lleol a mechnïaeth dan oruchwyliaeth uchel, gan sicrhau na chosbir ardaloedd am lwyddo i arallgyfeirio plant o gael eu cadw dan glo.

3.63. Ni fydd y cynnydd mewn capasiti sydd ei angen i leihau remandio dan glo'n ddiogel yn digwydd wrth i awdurdodau lleol weithredu ar ben eu hunain – rhaid gweithio'n rhanbarthol. Gwnaethom brofi'r dull hwn yn llwyddiannus ym Manceinion Fwyaf. Os yw ardaloedd lleol yn cyd-gynllunio a chyd-gomisiynu gwasanaethau, gellir creu rhwydwaith mwy sefydlog ac amrywiol o leoliadau arbenigol, lleihau prinder a sicrhau na roddir yr un plentyn ar remand dan glo dim ond oherwydd nad oedd llety addas ar gael. Byddwn rŵan yn cefnogi ardaloedd i ddatblygu partneriaethau remand rhanbarthol, gyda chymorth cyllid rheoli prosiect dynodedig i ardaloedd i sefydlu gweithio'n rhanbarthol.

## Ehangu opsiynau cymunedol cadarn

3.64. Nid creu lleoliadau cymunedol newydd yw'r ateb cyfan ond mae'n rhan hanfodol o gynorthwyo partneriaid i reoli plant yn ddiogel yn y gymuned. Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r llywodraeth wedi profi nifer o ddulliau a ddyluniwyd i gryfhau dedfrydau cymunedol yn lle remand, gan gynnwys peilot Manceinion Fwyaf y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac, yn fwy diweddar, peilotiaid yng Ngorllewin Swydd

Efrog a Chaint a chynlluniau maethu targed yn ninas Birmingham a Lambeth, a chynllun *London Accommodation Pathfinder* y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

3.65. **Rydyn ni rŵan yn adeiladu ar y dystiolaeth yma ac yn buddsoddi £5m pellach dros y tair blynedd nesaf mewn maethu, llety a chymorth mechnïaeth ar gyfer remand, i helpu i reoli plant yn ddiogel yn y gymuned.** Ochr yn ochr â'r prosiectau remand presennol ym Manceinion Fwyaf a Gorllewin Swydd Efrog, bydd y cyllid yma ar gael drwy 17 o bartneriaethau remand rhanbarthol fel bod ardaloedd yn cyd-gynllunio a chyd-gomisiynu gwasanaethau'n hytrach nag ar ben eu hunain. Drwy weithio ar lefel ranbarthol, bydd awdurdodau lleol mewn sefyllfa well i greu'r ddarpariaeth arbenigol sydd ei hangen, osgoi prinder, a sicrhau nad yw'r un plentyn yn cael ei remandio dan glo dim ond oherwydd prinder lle iawn yn y gymuned.

3.66. Mae remand yn faes lle y gwelwn anghysondeb hiliol sylweddol, gyda phlant Du a Threftadaeth Gymysg yn fwy tebygol o gael eu remandio dan glo na'u cyfoedion, hyd yn oed ar ôl ystyried y ffactorau demograffig a ffactorau trosedd.[49] Mae'r *London Accommodation Pathfinder* yn darparu llety cymorth a chefnogaeth gofleidiol i blant lleiafrifol ethnig yn bennaf. Dangosodd mewnwelediad o'r peilot fod opsiynau cryf yn lle carcharu, wedi eu teilwrio'n lleol ar sail y gymuned, yn llwyddo i arallgyfeirio plant lleiafrifol ethnig o garchar.

3.67. Ochr yn ochr â lletya plant yn ddiogel yn y gymuned ar fechnïaeth a remand, mae'n hanfodol bod gan blant fynediad at addysg a gweithgareddau ystyrlon pan fyddant ar dreial, neu mae risg uwch o droseddu a thorri amodau eu mechnïaeth. Dylai a bydd ein partneriaethau remand rhanbarthol newydd yn cryfhau eu cynigion addysg a hyfforddiant i blant ar fechnïaeth a remand yn y gymuned, a bydd y cyllid ychwanegol ar gael iddynt greu darpariaeth addysg bwrpasol i'r cohort hwn i atal remandio dan glo.

### Cryfhau'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer remand

3.68. Mae'r boblogaeth remand dan glo gyfartalog wedi gostwng yn y pum mlynedd diwethaf[50], ond awgryma'r data nad yw'r diwygiadau a wnaed yn 2022 i'r ddeddfwriaeth remand ar orchymyn y llys wedi arwain at leihad sylweddol yn nifer y plant a gedwir dan glo cyn treial neu ddedfrydu. Dylai, a bydd, remandio dan glo'n parhau i fod yn opsiwn yn yr achosion mwyaf difrifol, lle na fyddai remand neu fechnïaeth i'r gymuned yn ddiogel. Ond eto mae rhai plant dal yn cael eu remandio dan glo am droseddau diannod yn unig, sy'n groes i bob golwg â'r gofynion

[49] Diffyg cymesuredd ethnig wrth remandio a dedfrydu yn y system cyfiawnder ieuenctid (2021) – GOV.UK

[50] Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

presennol bod yn rhaid i ddedfryd o garchar fod yn 'debygol iawn' os ceir y plentyn yn euog[51].

3.69. Ni fydd diwygio'r gyfraith ar ben ei hun yn datrys heriau'r system remand ieuenctid oherwydd bod cymaint o ffactorau eraill yn dylanwadu ar benderfyniadau remand. Fodd bynnag, gallai chware rôl bwysig mewn atgyfnerthu'r egwyddor y dylid ond remandio plant dan glo yn niffyg popeth arall, ac mewn cefnogi'r llysoedd i gymhwyso'r egwyddor yma'n gyson. **Bydd y llywodraeth yma felly'n cyflwyno newidiadau i'r ddeddfwriaeth ar remandio dan glo. Byddwn yn deddfu ar y cyfle cyntaf i ddiweddaru'r meini prawf statudol ar gyfer remandio dan glo.**

3.70. Rhaid i'r gyfraith hefyd fod yn glir am gyfrifoldebau awdurdodau lleol yn y broses remand. Mae gan wasanaethau cyfiawnder ieuenctid rôl allweddol mewn datblygu cynlluniau effeithiol i reoli plant yn ddiogel yn y gymuned, a chyflwyno pecynnau mechnïaeth cryf y gall y llysoedd fod yn ffyddiog ynddynt. Fodd bynnag, yn ymarferol gwyddom y gall fod yn anodd i'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid baratoi pecyn llwyddiannus yn y cyfnod byr rhwng cyhuddo plentyn a'r gwrandawiad remand cyntaf. Mewn rhai achosion, gall diffyg llety awdurdod lleol addas, neu eglurder annigonol gan bartneriaid lleol ynghylch eu cyfrifoldebau statudol, gyfyngu mwy fyth ar argaeledd opsiynau cymunedol hyfyw yn lle cadw dan glo.

3.71. Bydd cryfhau atebolrwydd a'r trosolwg ar benderfyniadau remand yn hanfodol i sicrhau bod unrhyw ddiwygiadau deddfwriaethol yn trosi'n newid ystyrlon ar y ddaear. Fel rhan o'r diwygiadau deddfwriaethol i ddod, bydd y llywodraeth yn egluro sut y gall partneriaid weithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd fel y cefnogir penderfyniadau gan y cyd-gynllunio y gwyddom sy'n arwain at ganlyniadau gwell i blant.

### Dull cydgysylltiedig o arallgyfeirio plant o remandio dan glo

3.72. Gwyddom fod y siwrne at remandio dan glo'n aml yn cychwyn ymhell cyn i blant gyrraedd y llys. Mae llawer o blant sy'n cael eu remandio dan glo eisoes yn hysbys i wahanol wasanaethau ac yn aml yn cyflwyno ag anghenion a nodweddion bregus cymhleth. Os nad yw'r anghenion hyn yn cael sylw'n ddigon cynnar, maen nhw'n gallu cyfrannu at droi sefyllfa'n argyfwng, lleoliad yn methu a mwy o gyfyngiadau ar ryddid – p'un ai drwy remandio dan glo, gorchymyn colli rhyddid neu leoliad lles diogel.

3.73. Drwy gefnogi awdurdodau lleol i weithio'n fwy effeithiol ar draws iechyd, gofal cymdeithasol plant a chyfiawnder, gellir adnabod y plant gyda'r risg fwyaf yn gynt, a darparu cymorth mwy cydlynus a chyson. Gallai hyn helpu i leihau nifer y plant

[51] Chwarterolyn Ystadegau Cyfiawnder Troseddol: Medi 2025 (2026) – GOV.UK

mewn sefyllfaoedd cymhleth sy'n cael eu cael eu cadw dan glo a gwella canlyniadau i rai o'r plant mwyaf bregus.

3.74. **Bydd y llywodraeth yma'n buddsoddi dros £15 miliwn dros y tair blynedd nesaf i gyllido tair ardal i ddarparu model integredig ar draws addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.** Bydd yr ardaloedd hyn yn defnyddio asesiadau aml-ddisgyblaethol, modelau perthynas a chysyniad seicolegol i gefnogi plant sydd mewn perygl o, neu sydd eisoes wedi, colli eu rhyddid. Bydd y rhaglen yn profi sut y gall modelau gweithredol integredig, traws-system helpu i gynllunio gofal yn ymarferol a mwy effeithiol i blant yn y sefyllfaoedd mwyaf cymhleth.

3.75. Er mwyn arallgyfeirio plant o gael eu cadw dan glo yng Nghymru, rhaid cydweithredu'n agos â Llywodraeth Cymru gan adlewyrchu ei chyfrifoldeb datganoledig am feysydd fel addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i sicrhau bod diwygiadau remand yn gyson â systemau datganoledig ac yn cynorthwyo ymatebion integredig i gwrdd ag anghenion plant. Rydyn ni hefyd wedi ymrwymo i ddatganoli cyllid remand i Lywodraeth Cymru o 2027/28 ymlaen i leihau'r defnydd diangen o remand ar gyfer plant Cymru

3.76. Mae gwasanaethau plant yng Nghymru'n parhau i ddatblygu llety a gwasanaethau therapiwtig i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc gydag ymddygiad sy'n achosi pryder sylweddol. Mae cyllid Llywodraeth Cymru wedi helpu i ddatblygu gwasanaethau mwy 'therapiwtig', gyda throsolwg gan Fforwm Ymarfer Da, Fframwaith ac ymweliadau monitro, i gydnabod y lefel uchel o sgiliau amrywiol sydd eu hangen i gwrdd ag anghenion y plant hyn.

3.77. Mae gan yr heddlu hefyd rôl ganolog yn siwrne'r plentyn, gan gynnwys ar yr adeg greiddiol o benderfynu mechnïaeth neu remand. Unwaith y mae'r heddlu'n cadw plentyn dan glo, rhaid i bartneriaid ôl-gyhuddo ymateb yn sydyn i baratoi cynigion mechnïaeth ar gyfer y llys. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref yn rhannu ymrwymiad i ystyried ydy'r defnydd presennol o remand gan yr heddlu mor effeithiol a chymesur ag y dylai fod ar gyfer plant a gyhuddir o droseddu. Rydyn ni'n cydnabod bod remand gan yr heddlu weithiau'n hanfodol i ddiogelu'r cyhoedd, yn enwedig ar gyfer y troseddwyr mwyaf cyson os na weithiodd ymyriadau eraill. Fodd bynnag, mae angen i ni ddeall y dystiolaeth ar ddefnydd yr heddlu o remand yn well, a'i effaith ar nifer y plant sy'n cael eu remandio dan glo gan y llysoedd ac sydd ddim yn cael dedfryd o garchar yn y pen draw. Mae hefyd angen i ni ystyried y dystiolaeth bod plant Du a Threftadaeth Gymysg wedi eu gor-gynrychioli dan glo. **Byddwn yn cyflawni prosiect ar-y-cyd eleni ar draws y ddwy adran i ystyried y data a'r dystiolaeth ar ddefnydd yr heddlu a'r llys o remand, ac ydy remand yn cael ei ddefnyddio'n briodol ar draws y system. Byddwn hefyd yn ystyried a allai diwygiadau i'r ddeddfwriaeth helpu i greu dull wedi'i deilwrio'n well i**

**blant. Bydd y prosiect hwn yn goleuo ein hystyriaethau polisi o ran pa ddarpariaeth i'w rhoi yn ei lle i gefnogi ymarfer da,** a chadw plant a chymunedau'n ddiogel, gan sicrhau bod remandio dan glo - gan yr heddlu neu i'r ystâd ieuenctid dan glo - ond yn digwydd yn niffyg popeth arall.

## Adran 4: Moderneiddio dedfrydau ieuenctid

3.78. Nid yw'r fframwaith dedfrydu ieuenctid wedi newid rhyw lawer ers blynyddoedd, ac i raddau helaeth heb gael ei effeithio gan Ddeddf Dedfrydu 2026 yn dilyn Adolygiad Dedfrydu Annibynnol David Gauke. O ystyried yr heriau a ddisgrifir ym Mhennod 1, mae'n gyfle da i ni asesu ydy'r fframwaith dedfrydu ieuenctid presennol yn parhau i gwrdd â phrif nod statudol y system cyfiawnder ieuenctid sef atal plant a phobl ifanc rhag troseddu, ond gan roi sylw dyledus i'w lles.

3.79. Mae'r ystatud ac egwyddorion cyfiawnder ieuenctid hirsefydlog yn glir y dylid ond carcharu am y troseddau mwyaf difrifol, os nad yw'r un sancsiwn arall yn briodol. Fodd bynnag, nid dyma sy'n digwydd bob tro. Yn 2024/25, dim ond 18.8 mis oedd hyd gyfartalog y ddedfryd dan glo[52], ac yn y tair blynedd rhwng 2023 a 2025, roedd dedfrydau o garchar weithiau'n cael eu rhoi am droseddau fel bod ym meddiant canabis (7 o blant); troseddau'n ymwneud â dwyn cerbyd (34 o blant); a gyrru tra bo'r person wedi'i anghymhwyso rhag dal neu gael trwydded (7 o blant), i gyd yn droseddau y gellid disgwyl yn rhesymol (heb gyfeirio at achosion unigol) iddynt dderbyn dedfryd gymunedol gyda goruchwyliaeth effeithiol[53].

3.80. Mae dedfrydau dan glo hefyd yn cael eu rhoi'n anghymesur i rai grwpiau ethnig. Yn ôl dadansoddiad y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, hyd yn oed ar ôl ystyried ffactorau demograffig a ffactorau trosedd eraill, roedd plant Du rhwng 2 ac 8 pwynt canran yn fwy tebygol na phlant Gwyn o dderbyn dedfryd o garchar yn lle'r ddedfryd gymunedol amgen sef gorchymyn adsefydlu ieuenctid.[54]

3.81. Gwyddom fod dedfrydau byr o garchar yn aneffeithiol – i blant nac ychwaith i ddiogelu'r cyhoedd. Aeth mwy na dau o bob tri phlentyn a ryddhawyd o ddedfryd 12 mis neu lai o garchar yn 2023/24 ymlaen i aildroseddu ymhen blwyddyn. Ar y llaw arall, ychydig dros draean o blant a gafodd ddedfryd gymunedol dros yr un cyfnod a

52 Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

53 Chwarterolyn Ystadegau Cyfiawnder Troseddol: Rhagfyr 2025 (HTML) – GOV.UK

54 Diffyg cymesuredd ethnig mewn remandio a dedfrydu yn y system cyfiawnder ieuenctid (2021) – GOV.UK

aeth ymlaen i aildroseddu.[55] Ond eto, roedd tua hanner yr holl ddedfrydau o garchar i blant yn 2025 yn llai na 12 mis.[56]

3.82. O ystyried bod y dystiolaeth yn dangos nad yw dedfrydau byr efallai mor effeithiol gyda lleihau troseddu â dedfrydau cymunedol[57], yr her i ni yw sicrhau bod gan y system opsiynau dedfrydu cymunedol cryf sy'n ateb anghenion ein cohort plant heddiw ac sy'n cynnig opsiynau credadwy a diogel yn lle dedfryd o garchar. Nid oes llawer o hyblygrwydd yn y fframwaith dedfrydu presennol, yn enwedig os yw plant yn pledio'n euog ar yr ymddangosiad cyntaf, ond sydd efallai â hanes sylweddol o droseddu neu ymddygiad niweidiol blaenorol y tu allan i broses ffurfiol y llys, oherwydd y defnydd cynyddol o arallgyfeirio. Er enghraifft, yn achos yr ymosodwr yn Southport, er bod y patrwm hir o ymddygiad pryderus yn awgrymu risg ddifrifol a gwaethygol, pan ddaeth yr ymosodwr o flaen y llys am y tro cyntaf, roedd gan y llys lai o opsiynau ar gael na phe bai'r euogfarn yn un tro cyntaf a'r ymosodwr wedi pledio'n euog.

3.83. Nid yw'r system bresennol yn gwneud digon o ddefnydd o ymyriadau teulu i fynd i'r afael â'r ffactorau sy'n gallu cyfrannu at blant yn troseddu, nac ychwaith yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn wynebu'r canlyniadau os nad ydynt yn cymryd cyfrifoldeb am eu rôl o helpu i adsefydlu eu plentyn.

3.84. Mae angen diwygio'r fframwaith dedfrydau ieuenctid i gyd-fynd â realiti troseddau ieuenctid modern. Heb ei ddiwygio, bydd dedfrydu'n parhau i ddibynnu'n rhy drwm ar gyfnodau byr o garchar sydd ddim yn helpu plant i adsefydlu, sy'n methu â chynnig ymyriadau cymunedol digon cadarn ac sy'n colli cyfle i hyrwyddo cymorth gan deulu.

3.85. Bydd y diwygiadau a ddisgrifir yn y bennod hon yn gwella sut y mae dedfrydu'n gweithio i blant gan sicrhau mwy o gysondeb ag anghenion ac amgylchiadau. Ar gyfer y dyfodol, bydd y llywodraeth yn asesu sut orau i wneud mwy o ddiwygiadau strwythurol er mwyn sicrhau bod y fframwaith dedfrydau ieuenctid wedi'i deilwrio'n wirioneddol i blant, yn lle bod yn fersiwn wedi'i addasu o'r system oedolion. Byddwn yn gweithio ag arbenigwyr ar draws y sector i ddatblygu'r gwaith hwn.

[55] Ystadegau aildroseddu a brofwyd: Ionawr - Mawrth 2024 (2026) – GOV.UK

[56] Chwarterolyn Ystadegau Cyfiawnder Troseddol: Rhagfyr 2025 (HTML) – GOV.UK

[57] Effaith dedfrydu ar ail-droseddu wedi'i brofi gan droseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr, 2012 - 2014 – MoJ (2019)

Bydd y diwygiadau yn y bennod hon yn gwella sut mae dedfrydu'n gweithio i blant gan sicrhau mwy o gysondeb ag anghenion ac amgylchiadau. Ar gyfer y dyfodol, bydd y llywodraeth yn asesu sut orau i wneud mwy o ddiwygiadau strwythurol er mwyn sicrhau bod y fframwaith dedfrydau ieuenctid wedi'i deilwrio'n wirioneddol i blant, yn lle bod yn fersiwn wedi'i addasu o'r system oedolion. Byddwn yn ymgysylltu â lleisiau arbenigol ar draws y sector i oleuo'r gwaith hwn. Dylai'r gyfundrefn dedfrydau ieuenctid fod yn un sy'n helpu plant i droi draw o droseddu drwy flaenoriaethu adsefydlu a defnyddio carcharu dim ond pan fo'n gwbl angenrheidiol. Bydd opsiynau cymunedol clir, credadwy a hyblyg a ffocws newydd ar rôl y teulu'n hanfodol i roi'r hyder i'r llysoedd y gellir goruchwylio plant yn ddiogel ac effeithiol yn y gymuned.

**Opsiynau dedfrydu cymunedol cadarn**

3.86. **Bydd y llywodraeth yma'n ehangu'r ystod o ddedfrydau cymunedol sydd ar gael i'r llysoedd i sicrhau ymateb cymesur, credadwy ac sy'n gallu rheoli'r risg ond gan gefnogi adsefydlu ar yr un pryd.** Byddwn yn ehangu'r opsiynau dedfrydu cymunedol sydd ar gael i'r llysoedd fel eu bod yn gallu ymateb yn fwy hyblyg a phriodol pan fydd plant yn pledio'n euog i drosedd gyntaf. Bwriadwn edrych eto ar y cyfyngiad presennol sy'n gorfodi'r llysoedd i wneud gorchymyn cyfeirio yn yr achosion hyn, ac yn lle hynny'n **sicrhau bod y gorchymyn adsefydlu ieuenctid (YRO) ar gael i rai neu i bob plentyn sy'n cael euogfarn gyntaf**. Drwy adael i'r llysoedd roi YRO yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn grymuso ymarferwyr rheng flaen i ddewis o ystod ehangach a mwy cadarn o ymyriadau – mae'r YRO yn cynnig hyd at 18 o ofynion ac yn gallu para am hyd at dair blynedd, sy'n caniatáu goruchwyliaeth fwy strwythurol a gwaith adsefydlu mwy parhaus.

3.87. Cyflwynwyd gorchmynion cyfeirio gyntaf yn 1999 fel prif orchymyn y llys am euogfarn gyntaf, fel arfer troseddau lefel isel. Yn y cyd-destun hwn, roedd rhesymeg ac egwyddor cael panel o wirfoddolwyr cymunedol yn dylunio cynllun ymyrryd plentyn yn gadarn – mae'n rhan bwysig o'n system cyfiawnder troseddol y mae aelodau o'r cyhoedd yn cyfrannu ato. Mae'r llywodraeth yn gwerthfawrogi ac yn falch o gyfraniad dinasyddion ar draws ein cymunedau sy'n gwirfoddoli eu hamser. Gwyddom (mewn sawl rhan o'r wlad) fod y system yma'n gallu ac yn gweithio'n dda.

3.88. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth yn teimlo ei bod yn bryd ystyried yn sylfaenol ydy hi dal yn briodol i wirfoddolwyr chwarae rôl benderfynu ffurfiol yn nyluniad a chael trosolwg ar gynlluniau ymyrryd ar gyfer cohort cynyddol fwy cymhleth o blant, gan gynnwys rhai sydd efallai wedi cyflawni troseddau mwy difrifol. Byddwn felly'n ystyried a ddylai'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid arwain panel penderfynu, gyda gwirfoddolwyr yn dal i wneud cyfraniad pwysig mewn capasiti cynghori'n

hytrach na bod ganddynt bwerau penderfynu ffurfiol. Gallai gwirfoddolwyr hefyd chwarae rôl ddefnyddiol mewn cyfrannu at graffu cadarn i weld ydy cynlluniau a ddatblygwyd gan y panel yn cael eu dilyn yn iawn, ac asiantaethau a phlant yn cwrdd â'u gwahanol gyfrifoldebau. Gan ddibynnu ar rôl gwirfoddolwyr yn y pen draw, byddwn yn ystyried sut orau i sicrhau bod yr hyfforddiant yn briodol a chyson ac a fyddai rôl ehangach o ran craffu'n cryfhau cyfraniad gwirfoddolwyr ac atgyfnerthu atebolrwydd trylwyr drwy gydol y gorchymyn. Byddwn yn ceisio gwneud newidiadau cyn gynted â phosib drwy ddiweddaru'r canllawiau statudol ac ystyried hefyd a oes angen newid deddfwriaethol pellach wedyn.

3.89. Ochr yn ochr â hyn bydd y llywodraeth yn cryfhau argaeledd dedfrydau cymunedol mwy dwys i blant sy'n cyflwyno lefel uwch o risg. Rydyn ni'n ystyried sut y gellid defnyddio'r gorchymyn adsefydlu ieuenctid gyda goruchwyliaeth a gwyliadwriaeth fwy dwys (YRO ISS) yn fwy hyblyg ar sail gwersi a ddysgwyd o beilotiaid yn profi monitro lleoliad electronig deinamig ochr yn ochr â gwaith adsefydlu mwy ffurfiol. Roedd yr adborth o'r peilotiaid yn gymysg – ar y cyfan roedd monitro'n cael ei weld fel offeryn positif i reoli diogelwch plant yn y gymuned, ac ynadon ar y cyfan yn bositif neu'n niwtral am effaith y pwerau ar eu hyder yn YRO ISS fel opsiwn cadarn yn lle carcharu. Dywedodd y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid y byddai'n dda cael mwy o hyblygrwydd gan nodi bod gofyniad gweithgaredd 12 mis yn rhy hir i'r rhan fwyaf o blant ond y dylai cyfnodau hirach fod ar gael lle'r oedd angen cymorth mwy parhaus. Nid oedd unrhyw arwydd y cafodd y peilotiaid effaith negyddol ar gyfraddau torri gorchymyn, nac ychwaith dim tystiolaeth gref fod y pwerau newydd, yn eu ffurf bresennol, yn arwain at ddefnydd llawer mwy o YRO ISS yn lle carcharu.

3.90. Rydyn ni'n cydnabod y gall monitro electronig chwarae rôl mewn rheoli risg mewn rhai achosion ond dylid ei ddefnyddio'n gymesur ac mewn ffyrdd sy'n cefnogi ymgysylltu a chydymffurfio. I'r perwyl hwn, ni fwriadwn wneud monitro lleoliad electronig yn orfodol, ond byddwn yn ystyried sut i gadarnhau ei werth i ymarferwyr drwy adnewyddu'r canllawiau, er enghraifft.

3.91. Bydd peilotiaid y Llysoedd Ymyriadau Ieuenctid (fel y disgrifiwn ym mhara. 3.43 – 3.39) yn profi dull newydd i rai plant gyda gorchmynion adsefydlu ieuenctid, gyda throsolwg barnwrol rheolaidd a chymorth wedi'i gydlynu'n well. Bydd y peilotiaid yn profi a all y model yma gryfhau hyder y llys mewn dedfrydau cymunedol, a gwella'r canlyniadau gwael i blant gyda gorchymyn adsefydlu ieuenctid.

3.92. Gwyddom hefyd fod yn rhaid i'r llys fod â gwybodaeth gynhwysfawr am blentyn – yn enwedig am AAAA/ADY neu niwro-amrywiaeth – i wneud y penderfyniadau iawn. Yn rhy aml nid yw hyn yn digwydd ac ni all y llysoedd wneud penderfyniadau gwybodus. Mae Adran 9 Deddf Plant a Phobl Ifanc 1969 yn cynnig un llwybr i ddelio â hyn – os yw'r llys ieuenctid yn defnyddio'r ddeddfwriaeth hon, gall fod yn ofynnol i'r awdurdod lleol ymchwilio i ac adrodd ar amgylchiadau'r cartref, y cofnod ysgol,

iechyd a chymeriad y person ifanc sy'n wynebu'r achos llys. Bwriadwn gryfhau'r ymarfer yn y maes yma, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid o bwysigrwydd sicrhau bod y wybodaeth yma'n cael ei chyfathrebu'n effeithiol i'r llysoedd.

### Carcharu yn niffyg popeth arall

3.93. Rhaid cadw carcharu ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol a risg uchel, os na all unrhyw ymateb arall ddiogelu'r cyhoedd yn iawn. Mae'r llywodraeth yma wedi ymrwymo i ddefnyddio llai ar garcharu ar gyfer plant lle bo'n bosib, gan sicrhau bod opsiynau carcharu cadarn yn dal i fod ar gael ar gyfer plant y mae gwir angen eu cadw dan glo.

3.94. Gall dedfrydau byr o garchar fod yn arbennig o aneffeithiol, a gwrthgynhyrchiol yn aml. Fel y dywedwn uchod (para. 3.55) wrth drafod remand, gall anfon plentyn i'r carchar (cannoedd o filltiroedd i ffwrdd o adra'n aml) am wythnosau neu fisoedd wneud dim ond tarfu ar eu bywydau a chostio'n aruthrol i drethdalwyr, heb roi'r canlyniadau gwell sydd ei angen ar ddioddefwyr a chymunedau. Pan basiwyd Deddf Dedfrydu 2026, sefydlwyd rhagdybiaeth i ohirio dedfrydau o 12 mis neu lai o garchar i oedolion. Cyflwynwyd y newid hwn yn rhannol oherwydd yr argyfwng capasiti yn ein carchardai oedolion a etifeddodd y llywodraeth hon – nid yw'r ystâd ieuenctid yn wynebu'r un pwysau ond mae dadl hefyd dros weithredu ar ddedfrydau byr o garchar i blant.

3.95. Rydyn ni'n gwbl glir –dylai, rhaid a bydd rhai plant yn mynd i garchar. Mae angen dedfryd hir o garchar am droseddau treisgar a rhywiol difrifol, sy'n adlewyrchu difrifoldeb y niwed a achoswyd i ddioddefwyr a'r angen i ddiogelu'r cyhoedd. Ond mae gormod o blant yn cael eu dedfrydu i garchar pryd y byddai'n well bod wedi eu cadw yn y gymuned – lle y gallent dderbyn yr ymyriadau adsefydlu sydd ei angen arnynt, yn fwy effeithiol ac am gost is.

3.96. **Gan hynny, ein huchelgais yw diwygio'r fframwaith ar gyfer dedfrydau byrrach a lefel is o garchar.** Yn benodol, byddwn yn cyfyngu rôl a defnydd o'r ddedfryd o garchar fwyaf cyffredin a ddefnyddir ar gyfer plant, y gorchymyn cadw a hyfforddi (DTO – sy'n para hyd at ddwy flynedd, gyda hanner yn y carchar a hanner yn y gymuned). Fel rhan o'r diwygiad hwn, y nod yw defnyddio llai o orchmynion DTO byr.

3.97. Ni fwriadwn ailadrodd y model oedolion, na chymhwyso dulliau dedfrydu oedolion i blant, oherwydd nid yw'r dystiolaeth yn ategu hyn. Ni fyddwn felly'n cyflwyno rhagdybiaeth yn erbyn dedfrydau byr o garchar, fel yn Neddf Dedfrydu 2026. Yn hytrach, cynigiwn ddeddfu i godi'r cyfnod DTO lleiaf i 12 mis gan weithio'n agos gyda'r sector a'n partneriaid darparu i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn cwrdd â'n

hamcanion ac yn osgoi canlyniadau anfwriadol. Dengys y dystiolaeth y gall dedfrydau o dan y trothwy hwn arwain at ganlyniadau llawer gwaeth na dedfrydau yn y gymuned.[58]

3.98. Ochr yn ochr â'r diwygiadau hyn, bydd eithriadau targed i sicrhau bod canlyniadau carchar yn dal i fod ar gael lle bo angen. Wrth weithredu'r newidiadau hyn, byddwn yn sicrhau bod digon o hyblygrwydd yn y fframwaith i ganiatáu defnyddio carchar lle bo angen hynny i ddiogelu'r cyhoedd. Bydd hyn yn cynnwys ar gyfer plant sy'n cyflwyno risg glir o niwed i eraill, lle y mae dedfrydau cymunedol yn annhebygol o'u rheoli'n effeithiol. Byddwn yn parhau i weithio drwy fanylion y dull hwn gyda'r sector cyfiawnder ieuenctid, y Glymblaid Troseddau Cyllyll a'n partneriaid darparu, i sicrhau ei fod yn cyflawni ein hamcanion diogelu'r cyhoedd, cynnal ffydd y cyhoedd ac osgoi canlyniadau anfwriadol. Drwy wneud y newidiadau hyn, byddwn yn sicrhau mai ond y plant sydd angen bod dan glo i ddiogelu'r cyhoedd sy'n cael carchar.

3.99. **Gallai effaith gyfunol ein diwygiadau remand a dedfrydu weld lleihad graddol o 20% yn y boblogaeth garchardai erbyn diwedd y Senedd hon.**

3.100. Dylai'r diwygiadau uchod fynd â ni at sefyllfa lle y bydd plentyn ond yn cael carchar am drosedd ddifrifol, gan dreulio cyfnod hir o garchar, weithiau ymhell i mewn i'w blynyddoedd fel oedolion, lle y mae opsiynau di-garchar wedi methu droeon â datrys eu hymddygiad troseddol. Wrth i fwy o blant dreulio dedfrydau hirach yn y carchar, rôl allweddol i ieuenctid dan glo fydd eu paratoi am hynny a chynllunio pontio effeithiol i'r ystâd oedolion.

3.101. Er hynny, bydd plant dal (am y dyfodol agos o leiaf) yn cael eu rhyddhau'n ôl i'r gymuned o garchardai ieuenctid. Byddwn felly hefyd yn ystyried ydy'r trefniadau rhyddhau presennol ar gyfer plant sy'n treulio dedfrydau o garchar yn dal i fod yn briodol. Cyflwynodd Ddeddf Dedfrydu 2026 ddarpariaethau rhyddhau diwygiedig ar gyfer oedolion; mae angen ystyriaeth ar wahân ar gyfer plant. Fel rhan o adolygu dedfrydau o garchar yn ehangach, byddwn yn asesu ydy'r pwyntiau rhyddhau presennol ar gyfer dedfrydau ieuenctid yn helpu i'w hadsefydlu a diogelu'r cyhoedd yn effeithiol.

3.102. Bydd y llywodraeth yn parhau i weithio'n agos â'r sector i greu dull cytbwys, seiliedig ar dystiolaeth sy'n cryfhau ymatebion cymunedol lle bo'n bosib, gan gadw'r opsiynau carcharu iawn ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda mudiadau dioddefwyr, ymarferwyr a phartneriaid lleol fel bod gan y

[58] Effaith dedfrydu ar aildroseddu a brofwyd gan droseddwyr ifanc yng Nghymru a Lloegr, 2012 - 2014 – MoJ (2019)

cyhoedd hyder yn y diwygiadau, eu bod yn adlewyrchu effaith troseddu ar ddioddefwyr yn iawn a helpu i reoli risg yn effeithiol.

### Allgludo plant sy'n wladolion tramor ac yn cyflawni troseddau difrifol

3.103. Dylai gwladolion tramor sy'n cyflawni troseddau difrifol gael eu hallgludo o'n gwlad cyn gynted â phosib. Nid yw plant wedi eu heithrio o hyn. Mae Llywodraeth y DU a'r cyhoedd yn credu mewn rhoi ail gyfle am gamgymeriadau a wnaed yn ystod plentyndod. Ond os yw gwladolyn tramor - beth bynnag yw eu hoed - yn cyflawni trosedd dreisgar neu rywiol ddifrifol, maen nhw'n colli'r hawl yma a dylem a byddwn yn eu hallgludo cyn gynted â phosib.

3.104. Dan y gyfraith bresennol, nid yw pobl a gafwyd yn euog dan 18 oed yn derbyn gorchymyn allgludo'n awtomatig ac nid yw cytundebau trosglwyddo carcharorion y DU gyda gwledydd eraill yn cynnwys plant. Fodd bynnag, gellir allgludo plant dan bwerau ehangach yn ymwneud â phenderfynu ydy eu presenoldeb yn y DU o les i'r cyhoedd, a gellir dychwelyd unigolion dan gytundebau trosglwyddo carcharorion ar ôl iddynt droi'n 18 oed.

3.105. Bydd y llywodraeth yn allgludo troseddwyr gwladolion tramor (FNO) am droseddau treisgar a rhywiol difrifol bob tro y mae'n ddiogel gwneud hynny a beth bynnag yw eu hoed. Mae allgludo troseddwyr gwladolion tramor, gan gynnwys llofruddwyr a threiswyr, i fyny 32%, gyda thros 8,700 wedi eu hallgludo ers i'r llywodraeth yma ddod i rym[59]. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref, fel rhan o safiad ehangach y llywodraeth ar droseddwyr FNO, yn allgludo pob un - beth bynnag yw eu hoed - cyn gynted ac mor sydyn â phosib.

### Rhieni a gofalwyr yn cymryd cyfrifoldeb

3.106. Ni all y llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus fod yn bennaf gyfrifol am ymddygiad plant. Mae gan rieni a gwarcheidwaid gyfrifoldeb sylfaenol i ofalu am a goruchwylio eu plant yn iawn. Mae hyn yn arbennig o wir os yw plentyn yn troseddu neu'n ymddwyn yn wrthgymdeithasol. Gall teuluoedd ac amgylchedd y cartref fod yn allweddol bwysig i leihau aildroseddu a rhaid i rieni a gofalwyr chwarae rôl barod mewn adsefydlu eu plant. Rhaid i'r system wneud mwy i ysgogi a chefnogi hyn.

3.107. Byddwn yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr plant sy'n troseddu'n gwbl glir beth y disgwylir iddynt ei wneud a bod mwy o gyfrifoldeb ar wasanaethau cyfiawnder ieuenctid i gynnwys teuluoedd drwy gydol y broses gyfiawnder. Byddwn yn ystyried manteision Penderfyniadau Grŵp Teulu yn y broses cyfiawnder ieuenctid i helpu i

[59] Troseddwyr: Allgludo (20 Chwefror 2026) – Senedd y DU

ddatblygu cynlluniau cadarn ac effeithiol ar gyfer plant a sicrhau bod teuluoedd yn gwneud eu rhan mewn atal troseddu pellach.

3.108. Ond rhaid i'r system hefyd ddal rhieni a gwarcheidwaid i gyfrif am beidio ag ymgysylltu. Mae gorchmynion rhianta'n offeryn pwysig yn hyn, ond eto, mae'r llysoedd troseddol wedi bod yn defnyddio llawer llai ohonynt, o dros fil o orchmynion yn 2009/10[60] i ddim ond 33 yn 2022/23.[61] **Bydd y llywodraeth yma'n gweithredu i annog a chryfhau'r defnydd o orchmynion rhianta. Byddwn yn sicrhau y gall rhieni a gofalwyr wynebu canlyniadau llawer mwy ystyrlon os ydyn nhw'n fwriadol ddim yn cydymffurfio â gorchymyn sydd, ym marn y llys, yn bwysig i adsefydlu'r plentyn neu eu hatal rhag troseddu ymhellach.**

3.109. Nid mater o gosbi rhieni da sy'n gwneud eu gorau yw hyn. Ond er mwyn cynnal hyder a ffydd yn y system cyfiawnder ieuenctid, mae'n bwysig i rieni sy'n fwriadol ddim yn ymgysylltu, neu sy'n ymyrryd â chynlluniau'r llys ar gyfer plentyn sy'n achosi niwed neu ofid mawr i eraill, wynebu canlyniadau.

## Adran 5: Oed cyfrifoldeb troseddol

3.110. Yr isafswm oed ar gyfer cyfrifoldeb troseddol yng Nghymru a Lloegr yw 10 oed. Safiad y llywodraeth ers tro byd yw bod hyn yn rhoi hyblygrwydd i ymyrryd yn gynnar er mwyn atal troseddu nes ymlaen, a rhoi cyfle i'r system gyfiawnder ymateb pan achosir niwed.

3.111. Gan edrych ar draws y DU, mae'r Alban wedi cynyddu ei isafswm oed cyfrifoldeb troseddol i 12 (yn 2019), a Gogledd Iwerddon wedi ymgynghori'n ddiweddar ar godi ei throthwy o 10 oed. Yn rhyngwladol, mae nifer o awdurdodaethau cymharol wedi mabwysiadu trothwyon oed uwch, ac mae Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn argymell isafswm oed cyfrifoldeb troseddol o 14. Mae llawer o Seneddwyr a sefydliadau ar draws Cymru a Lloegr wedi galw ar y llywodraeth i godi'r isafswm oed cyfrifoldeb troseddol.

3.112. Yn ymarferol, ychydig iawn o'r plant ieuengaf sy'n troseddu fydd yn derbyn canlyniad cyfiawnder troseddol ffurfiol. Yn y 5 mlynedd diwethaf, rhoddwyd llai na 50 o ddedfrydau i blant dan 12 oed, a 'run yn ddedfryd o garchar.[62]

3.113. Mae'r llywodraeth hefyd yn nodi bod gan wledydd eraill, sydd ag oed cyfrifoldeb troseddol uwch, drefniadau gwahanol yn aml ar gyfer troseddau penodol. Er

---

60 Ystadegau blynyddol cyfiawnder ieuenctid: 2010 - 2011 (2012) – GOV.UK (tabl atodol 5.8)

61 Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2022 - 2023 (2024) – GOV.UK (tabl atodol 5.9a)

62 Chwarterolyn Ystadegau Cyfiawnder Troseddol: Rhagfyr 2025 (HTML) – GOV.UK

enghraifft, yn Iwerddon, yr oed cyfrifoldeb troseddol ehangach yw 12 ond gellir dal cyhuddo plant 10 neu 11 oed o lofruddiaeth, dynladdiad, treisio neu ymosodiad rhywiol waethygedig. Yn ymarferol, felly, mae sut y mae ein hoed cyfrifoldeb troseddol yn cymharu ag awdurdodaethau eraill yn fwy aml-weddog na'r hyn a adlewyrchir mewn sylwebaeth.

3.114. Er hynny, rydyn ni'n cydnabod y cryfder barn a'r diddordeb mewn oed cyfrifoldeb troseddol. Nodwn fod Cyngor y Bar, wedi'i gadeirio gan Kirsty Brimelow KC, wedi sefydlu gweithgor penodol i ystyried a ddylid newid yr isafswm oed cyfrifoldeb troseddol yng Nghymru a Lloegr. Rydyn ni'n croesawu ffocws Cyngor y Bar ar hyn a bydd ei ddadansoddiad yn gyfraniad pwysig i'r dystiolaeth ehangach. Byddwn yn ystyried ac ymateb yn ofalus i ganfyddiadau Cyngor y Bar wrth asesu a fyddai, a phryd, y gallai fod yn briodol diwygio'r maes hwn.

3.115. Rhaid a bydd angen bod yn eithriadol ofalus wrth wneud unrhyw benderfyniad yn y dyfodol am yr isafswm oed cyfrifoldeb troseddol. Mae'n fater cymhleth a sensitif sy'n ymwneud â lles plant, diogelu'r cyhoedd, hyder dioddefwyr a disgwyliadau cymdeithasol ehangach. Mae'n hanfodol felly peidio â rhuthro i ddiwygio a bod unrhyw ddiwygio'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn, mewnbwn gan arbenigwyr ac yn ystyried anghenion a safbwyntiau dioddefwyr, plant a'r cyhoedd ehangach.

## Adran 6: Cyfundrefn cofnodion troseddol sy'n datgloi dyfodol positif

3.116. Nod y gyfundrefn datgelu cofnodion troseddol yw taro cydbwysedd rhwng adsefydlu a diogelu'r cyhoedd - rhwng cynorthwyo cyn-droseddwyr i symud ymlaen â'u bywydau a rhoi'r wybodaeth sydd ei angen ar gyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel. Mae'r drefn, yn gwbl briodol, yn ei gwneud yn anoddach i bobl anaddas ymuno â gweithle lle y gallent gyflwyno risg i eraill. Ond dylai hefyd gefnogi rhai a gefnodd ar eu troseddu i weithio, gwella eu cyfleoedd bywyd a chyfrannu at gymdeithas.

3.117. Dros y degawd diwethaf, mae seneddwyr, mudiadau trydydd sector a chyrff annibynnol fel Comisiwn y Gyfraith wedi adnabod rhannau o'r gyfundrefn cofnodion troseddol sy'n destun pryder pan fo'n dod at droseddu wedi'i gyflawni fel plentyn. Er bod y rheolau ar ddatgelu'n amrywio (yn enwedig hyd y cyfnodau adsefydlu), nid yw'r rhan fwyaf o'r rheolau'n gwahaniaethu rhwng troseddau plentyndod a rhai oedolyn. O ganlyniad, mae gan Gymru a Lloegr rai o'r gofynion datgelu mwyaf llym ar draws gwledydd cymharol pan fo'n fater o droseddau plentyndod.

3.118. Mae'r llywodraeth yn cydnabod ei bod yn arbennig o bwysig i'r gyfundrefn helpu unigolion a droseddodd pan oeddent yn blentyn i adsefydlu. Mae rhai plant yn

cyflawni troseddau difrifol ac, yn drist ddigon, yn cyflwyno risg a allai fod yn hirbarhaus sydd angen diogelu'r cyhoedd rhagddi. Rhaid i'r gyfundrefn adlewyrchu hynny. Fodd bynnag, dylai hefyd adlewyrchu cam datblygiadol y plentyn a'u capasiti mwy i newid. Gall bod â chofnod troseddol greu rhwystr i addysg, cyflogaeth a chyfleoedd eraill. Mae angen i ni sicrhau nad yw unigolion yn wynebu canlyniadau diangen am bethau a wnaethant yn blant ar ôl tyfu fyny a chefnu ar eu troseddu.

3.119. Bydd y llywodraeth o hyd yn sicrhau bod ein polisi a'n systemau'n diogelu pobl, yn enwedig plant ac oedolion bregus, rhag niwed.

3.120. Ond mae hefyd yn bwysig nad yw'r rheolau ar ddatgelu'n gwreiddio anghydraddoldeb i grwpiau sydd wedi eu gor-gynrychioli'n barod yn y system cyfiawnder ieuenctid – gan gynnwys plant Du a lleiafrifol ethnig, plant AAAA/ADY, a gyda phrofiad o fod mewn gofal. Yn 2024, casglodd dadansoddiad gan yr Adran Gwaith a Phensiynau mai cofnod troseddol oedd yr ail rwystr y soniwyd amdano amlaf i gyflogi pobl o grwpiau difreintiedig, yn ôl 47% o gyflogwyr.[63]

Dylid cefnogi pobl sy'n troseddu, lle bo'n briodol, i symud ymlaen o'u camgymeriadau, nid wynebu canlyniadau gydol oes sy'n cyfyngu ar gyfleoedd a symudedd cymdeithasol. Mae'r llywodraeth yn ymrwymedig i sicrhau bod gennym gyfundrefn effeithiol a chymesur ar gyfer troseddau plentyndod – un sy'n diogelu'r cyhoedd a gadael i gyn-droseddwyr hefyd ail-adeiladu eu dyfodol.

**Ymgynghori ar ddiwygiadau targed a chymesur posib i gofnodion troseddol plentyndod**

3.121. **Bydd y llywodraeth yn cyflwyno pecyn cymesur, wedi'i dargedu o ddiwygiadau posib i'r gyfundrefn cofnodion troseddol plentyndod, erbyn diwedd 2026.** Bydd y newidiadau i gyd yn blaenoriaethu diogelu'r cyhoedd ac yn ystyried a oes unrhyw newidiadau synhwyrol i'r rheolau datgelu sy'n adlewyrchu bod troseddau a gyflawnwyd yn ystod plentyndod yn wahanol.

3.122. Byddwn yn datblygu'r diwygiadau posib ar yr un pryd â newidiadau eraill a ddisgrifir yn y Papur Gwyn hwn – am, er enghraifft, y fframwaith OOCR a defnyddio dedfrydau o garchar.

3.123. Fel rhan o'n cynlluniau ar gyfer fframwaith OOCR mwy cydlynus wedi'i gefnogi'n genedlaethol, byddwn yn ystyried a ddylid, a sut i ddiwygio goblygiadau cofnodion troseddol derbyn rhybuddiad amodol ieuenctid (sydd angen ei ddatgelu'n awtomatig am gyfnod o 3 mis ar hyn o bryd). Gosodiad unrhyw orchymyn allan-o-lys yw

63 Arolwg Cyflogwyr y DWP 2024: Amrywiaeth a grwpiau difreintiedig (2025) – GOV.UK

sicrhau ymyriad ystwyth, wedi'i dargedu i fynd i'r afael â'r rhesymau oedd wrth wraidd pam y cyflawnodd blentyn drosedd lai difrifol. Gallai creu rhwystr i gyflogaeth neu addysg ar adeg mor dyngedfennol fod yn ddiangen o wrthgynhyrchiol.

3.124. Ar hyn o bryd, mae angen datgelu pob dedfryd o garchar am droseddau plentyndod am byth ar gyfer swyddi sensitif. Yn unol ag Adran 4, gwyddom y gall a bod plant yn derbyn dedfrydau o garchar am droseddau llai difrifol. Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer diwygio'r gorchymyn cadw a hyfforddi, i sicrhau mai yn niffyg popeth arall o hyd y defnyddir carcharu am droseddau plentyndod, byddwn hefyd yn edrych ar y goblygiadau i gofnodion troseddol.

3.125. Ochr yn ochr â'r newidiadau penodol hyn, byddwn hefyd yn ystyried a oes dadl dros drin troseddau plentyndod ychydig yn wahanol mewn rhai amgylchiadau. Nid yw'r llywodraeth wedi'i darbwyllo ynglŷn â'r ddadl, y mae rhai'n galw amdani, i 'selio' pob trosedd blentyndod. Fodd bynnag, byddwn yn edrych i weld a ellir byrhau'r cyfnod datgelu am droseddau plentyndod dan wiriadau sylfaenol (h.y. swyddi heb ymwneud â gweithio gyda phlant neu oedolion bregus). Byddwn hefyd yn adolygu'r rhestr o droseddau sy'n rhaid eu datgelu bob tro ar gyfer swyddi sensitif. Mae'n hynod bwysig bod rhestr o'r fath yn bodoli – mae rhai troseddau mor erchyll a rhai risgiau mor fawr fel na ddylid byth eu 'dileu'. Er hynny, byddwn yn ystyried a fyddai'r gyfres lawn o droseddau'n berthnasol pan fo'n fater o droseddu gan blentyn, sy'n dal i ddatblygu'n feddyliol ac emosiynol.

3.126. Bydd unrhyw a phob newid arfaethedig a gyflwynwn yn gymesur, wedi'i dargedu ac yn meddwl yn blaenoriaethu diogelu'r cyhoedd. Wrth ddatblygu cynigion, bydd ein ffocws yn benodol ar sicrhau bod troseddau treisgar a rhywiol difrifol yn cael eu trin gyda'r pwysigrwydd mwyaf.

# Pennod 4: Cryfhau gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid

### Beth y mae'r llywodraeth yma wedi'i wneud yn barod:

Cyflwyno setliadau arian grant craidd o dair blynedd i roi mwy o sefydlogrwydd a sicrwydd.

### Beth fydd y llywodraeth yma'n ei wneud:

Mynd ati i ddiwygio'r trefniadau cyllido a throsolwg ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, a chyflwyno ein cynigion ym mis Gorffennaf. Bydd unrhyw newid sylweddol i'r trefniadau cyllido'n dod i rym yn y cyfnod Adolygiad o Wariant nesaf, gan ddisgwyl i'r trefniadau trosolwg newid o 2027/28 ymlaen.

Cyflwyno Cronfa Arloesi Cyfiawnder Ieuenctid newydd, gwerth o leiaf £1.5m yn 2027/28 a 2028/29.

Diwygio rôl a chylch gwaith y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i ganolbwyntio ar wella gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn barhaus, a throsglwyddo'r swyddogaethau perthnasol i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Ystyried cyflwyno dulliau trawsgrifio a chynhyrchedd AI i leihau'r baich gweinyddol ar ymarferwyr.

Sefydlu Panel Cynghori i ystyried y defnydd cyfrifol o ddulliau dadansoddi ataliol i helpu i adnabod ac ymyrryd yn gynt.

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gytuno ar rôl gliriach a mwy sylweddol ar gyfer Llywodraeth Cymru mewn cyfiawnder ieuenctid, gan ddechrau drwy ddatganoli'r cyllid *Turnaround* a remand ieuenctid o 2027 ymlaen.

Cryfhau ein partneriaeth bresennol ag Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf (GMCA), gan ddechrau drwy gyfuno'r cyllid *Turnaround* a remand ieuenctid fel bo'n cael ei gyfeirio a'i ddosbarthu gan y GMCA.

4.1. Mae gan y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid rôl unigryw ac anhepgor yn y system cyfiawnder ieuenctid, fel offeryn aml-asiantaethol i atal troseddu ac aildroseddu gan blant. Mae'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn bartneriaeth o sefydliadau (sy'n cynnwys yr heddlu, prawf, iechyd ac awdurdodau lleol, gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol plant) sy'n gyfrifol am ddarparu cyfiawnder ieuenctid yn yr awdurdod lleol, gan gynnwys darparu dedfrydau cymunedol,

goruchwylio plant ar drwydded ar ôl eu rhyddhau o garchar, asesu plant a darparu rhaglenni adsefydlu, a chyflwyno adroddiadau a gwybodaeth i'r llysoedd. Maen nhw hefyd yn gwneud gwaith atal ac ymyrryd yn gynnar hollbwysig gyda phlant sydd â risg o droseddu.

4.2. Gall gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid da dorri ar lwybr a allai arwain at droseddu ar ôl tyfu'n oedolyn. Er hynny, mae cyfraddau aildroseddu ieuenctid yn uchel (mae tua thraean o blant yn mynd ymlaen i aildroseddu),[64] ac o gofio bod 80% o droseddwyr cyson wedi dechrau troseddu'n blant,[65] mae'n glir nad yw'r system yn delio'n gyson â'r ffactorau sy'n arwain at droseddau plentyndod.

4.3. Er bod nifer y plant sy'n troseddu am y tro cyntaf, a llwythi achosion yn gyffredinol, i lawr dros yr ugain mlynedd diwethaf, mae'r cohort heddiw'n cynnwys crynodiad uchel o blant ag anghenion cymhleth sydd angen cymorth dwys, cydgysylltiedig. Yn erbyn hyn, mae rhai partneriaid statudol wedi bod yn tynnu adnoddau'n ôl wrth wynebu mwy o alw am eu gwasanaethau eu hunain - gan effeithio ar ba mor effeithiol y gall gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid ymateb i anghenion cymhleth y plant hyn. Mae eraill wedi torri'n ôl ar eu rôl strategol ar fyrddau rheoli a chynllunio gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, gan arwain at lai o gydarweinyddiaeth lefel system a throsolwg strategol ar wasanaethau cyfiawnder troseddol. Mae diffyg cyd-berchnogi cyson wedi cyfyngu capasiti gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol a chyfrannu at ddarpariaethau a chanlyniadau amrywiol o un ardal i'r llall.

4.4. Mae'r penderfyniadau lleol hyn yn ddealladwy. Fodd bynnag, mae'r model gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid o bartneriaethau lleol, aml-asiantaethol yn gadarn yn y bôn – roedd yn iawn yn 1998 a hefyd heddiw i ddelio â'r heriau a ddisgrifir ym Mhennod 1.

4.5. Ac mae llawer o'r timau'n perfformio'n dda. Er hynny, mae lleiafrif sylweddol yn parhau i danberfformio. Mae hyn yn methu'r plant a'r dioddefwyr y maen nhw'n gweithio gyda nhw, a'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Er enghraifft, mae'r safon dioddefwyr yn arolygiadau Arolygiaeth Prawf EF wedi tynnu sylw bod angen i lawer o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid a'u partneriaid ymgysylltu gyda, a chefnogi, dioddefwyr yn well.

4.6. Mae'r trefniadau trosolwg presennol yn ei gwneud yn anodd datrys yr amrywiadau hyn – mae cyfrifoldebau wedi eu gwasgaru ar draws y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) ac Arolygiaeth Prawf EF, heb un fframwaith perfformiad cenedlaethol i ddal partneriaid statudol i gyfrif ar lefel strategol a

[64] Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

[65] Troseddwyr Cyson (2019) – GOV.UK

gweithredol. Mae'r sefyllfa wasgarog yma'n atal y system rhag codi perfformiad gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid o 'dda' i 'wych'.

4.7. Mae'r model cyllido sy'n ategu gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid hefyd wedi dyddio, yn anghyson a ddim yn adlewyrchu anghenion y system mwyach. Mae datblygiad hanesyddol y grant craidd ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn gymhleth a lluniwyd y trefniant cyllido presennol drwy ddamwain yn hytrach na dyluniad. Mae'r dull presennol o ddosbarthu'r grant craidd yn seiliedig ar ddata poblogaeth ac amddifadedd o 2009 ac yn adlewyrchu penderfyniadau a wnaed yn 2011/12 i uno nifer o grantiau clustnodi fel sefyllfa gynnal dros dro. Dros ddegawd a mwy yn ddiweddarach, mae'r trefniant 'dros dro' hwn yma o hyd, er bod y tirlun cyfiawnder ieuenctid wedi newid yn sylweddol.

4.8. Mae cyllid gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder bellach yn cyfrif, ar gyfartaledd, am tua thraean o gyllid y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, ond mae'r gyfran yn amrywio o ardal i ardal - o gyn lleied â 9% i gymaint â 64%[66] - gyda'r gweddill yn dod gan awdurdodau lleol, yr heddlu, prawf, iechyd ac eraill. Yng Nghymru, mae cyfran fawr o'r cyllid yn dod o ffynonellau datganoledig sy'n adlewyrchu rôl y cyfrifoldebau datganoledig yn y system. Mae cyfraniadau ariannol ac adnoddau gan asiantaethau partner yn cael eu penderfynu gan wahanol sefydliadau, sy'n cyfyngu ar ddylanwad yr MoJ a chreu amrywiad eang ar draws y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Er bod amrywiad lleol yn rhan naturiol o system wedi'i darparu'n lleol, ni all fod yn iawn fod gymaint o 'loteri cod post' o ran cyllido'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid hollbwysig hyn.

Dylai pob gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid fod yn darparu'r cymorth ansawdd uchel, seiliedig ar dystiolaeth a chyson hwnnw sy'n rhoi sylw i'r ffactorau cymhleth sydd wrth wraidd troseddau plant ac yn atal troseddu pellach. Rhaid arfogi gwasanaethau gyda'r capasiti a gallu aml-asiantaethol a'r eglurder cyfrifoldeb sydd ei angen i ymateb i lefelau cynyddol o gymhlethdod ac angen yn y cohort cyfiawnder ieuenctid.

I gyflawni hyn, rhaid i bob gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid dderbyn cyllid amserol, cynaliadwy, teg a digonol sy'n gyfartal a seiliedig ar angen. Dylai fod gan wasanaethau cyfiawnder ieuenctid y sefydlogrwydd i gynllunio, buddsoddi ac arloesi, gyda chyfraniadau cyson gan yr holl bartneriaid statudol yn y model aml-asiantaethol. Bydd trosolwg cryfach a chymorth rheng flaen gan eu cymheiriaid yn gyrru gwelliannau parhaus a darparu safonau ymarfer uchel a chyson.

66 Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

## Adran 1: Cyllid sefydlog a chynaliadwy

4.9. Mae'r llywodraeth yma wedi cyflwyno dull cyllido mwy sefydlog a chynaliadwy drwy gynnig dyfarniadau grant craidd tair blynedd i wasanaethau cyfiawnder ieuenctid. Bydd hyn yn rhoi'r sicrwydd sydd ei angen ar wasanaethau i gadw staff allweddol, datblygu cynlluniau mwy cynhwysfawr ac integredig â'u partneriaid statudol, a chomisiynu gwasanaethau ac ymyriadau'n fwy effeithlon.

4.10. Ond bwriadwn wneud mwy. **Yn y misoedd i ddod, byddwn yn cyflwyno ein cynlluniau ar gyfer diwygio cyllid cyfiawnder ieuenctid yn y tymor hirach, gan adeiladu ar wersi a ddysgwyd o ddatblygu fformiwla gyllido newydd a sicrhau bod trefniadau'r dyfodol yn adlewyrchu anghenion y dyfodol a'r tirlun llawn o ffynonellau cyllido.**

4.11. Rydyn ni eisiau gwneud y newidiadau hyn mewn partneriaeth â'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a byddwn yn holi eu barn am fanylion eu gweithredu. Fel rhan o'r diwygio ehangach hwn, rydyn ni eisiau trafod sut i leihau'r baich gweinyddol a roddir ar wasanaethau cyfiawnder ieuenctid gan lywodraeth ganolog. Byddwn felly hefyd yn holi barn am y gofyniad ar awdurdodau lleol i greu cynlluniau cyfiawnder ieuenctid blynyddol a chyflwyno hysbysiadau digwyddiadau difrifol.

4.12. Byddwn hefyd yn gweithio'n agos ar draws llywodraeth i sicrhau bod newidiadau ehangach i wasanaethau cyhoeddus - gan gynnwys y diwygiadau presennol i'r GIG drwy Fyrddau Gofal Integredig (ICB), diwygio ac ad-drefnu llywodraeth leol, diwygiadau i lywodraethu plismona'n dilyn diddymu'r model PCC ym mis Mai 2028, a'r diwygiadau sydd ar y gweill i'r Gwasanaeth Prawf i ddarparu llwythi gwaith cynaliadwy a diogelu'r cyhoedd yn well - yn sicrhau parhad ac effeithiolrwydd cyfiawnder ieuenctid.

## Adran 2: Gyrru perfformiad a chodi safonau

4.13. I sicrhau system cyfiawnder ieuenctid sy'n perfformio'n dda'n gyson, rhaid i atebolrwydd, galluoedd a throsolwg gadw ar y blaen i anghenion esblygol y cohort cyfiawnder ieuenctid. Rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am gyfiawnder ieuenctid (gwasanaethau lleol, partneriaid, ymarferwyr) berfformio i safonau clir a chael eu cefnogi i'w cwrdd. Mae angen y sgiliau, adnoddau a'r hyfforddiant ar staff i ymateb yn effeithiol i anghenion cymhleth y plant y maen nhw'n gweithio gyda nhw a, lle bo'n briodol, dylai gwasanaethau fod yn gwneud defnydd effeithiol o gyrff gwirfoddol a chymunedol. I gyd-fynd â hyn, mae angen systemau cymesur ac effeithiol i fonitro perfformiad, adnabod problemau'n gynnar a chamu mewn gyda chymorth wedi'i dargedu pan fo angen.

4.14. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn perfformio'n dda eisoes – ond bydd dull cenedlaethol cryfach yn helpu mwy fyth i fod yn 'dda' neu'n 'rhagorol', fel nad yw profiad neu ganlyniadau'r un plentyn yn cael eu penderfynu gan ble y maen nhw'n byw a phob dioddefwr trosedd plentyn yn derbyn cymorth o safon gyson uchel. Yn greiddiol, dylai dull cryfach o sicrhau perfformiad chwarae rôl bwysig yn yr angen taer i leihau anghysondeb hiliol ac anghysondebau eraill ar draws y system.

4.15. Ar yr un pryd, gwyddom fod pwysau cynyddol ar bartneriaid statudol a bod gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn aml yn cael trafferth derbyn gwasanaeth arbenigol hanfodol – fel therapi iaith a lleferydd, cymorth iechyd, ac ymgysylltiad cyson ag addysg – er y dystiolaeth glir o'i bwysigrwydd i asesiadau ac ymyriadau effeithiol. Gwyddom hefyd nad oes gan bob gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid fynediad at swyddog prawf ar secondiad ac rydyn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i greu a gweithredu atebion i ddatrys yr anghysondeb hwn.

4.16. Mae trefniadau partneriaeth cryf yn hollbwysig ar lefel weithredol a strategol. Mae partneriaethau gweithredol da'n cynorthwyo asesiadau cywir, rhannu gwybodaeth yn amserol, ac ymatebion cydlynus na all yr un gwasanaeth ei ddarparu ar ben ei hun. Mae partneriaethau strategol effeithiol yn rhannu'r risg, yn rhoi atebolrwydd cliriach ac yn cyfuno'r gallu i ddylanwadu ar systemau lleol.

4.17. Ochr yn ochr â hyn, rhaid cael gweithlu gwydn a medrus – mae ansawdd y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn dibynnu ar bobl sy'n gweithio pob dydd i gefnogi plant a'u harallgyfeirio o droseddu. Rydyn ni eisiau sicrhau y gall ymarferwyr ac arweinwyr cyfiawnder ieuenctid dderbyn yr hyfforddiant a'r datblygiad proffesiynol parhaus i'w harfogi â'r sgiliau sydd ei angen arnynt i weithio'n effeithiol gyda phartneriaid a darparu gwasanaethau effeithiol.

4.18. Dylid hefyd adolygu Safonau Cyfiawnder Ieuenctid cenedlaethol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â realiti'r ymarfer presennol, er enghraifft drwy adlewyrchu anghenion hynod gymhleth plant yn y system cyfiawnder ieuenctid sydd angen ymateb integredig ac arbenigol.

4.19. Felly'n ogystal â'n cynlluniau ar gyfer trefniadau cyllido'r dyfodol**, bydd y llywodraeth yma hefyd yn ymrwymo i adolygiad sylfaenol o'r trosolwg ar wasanaethau cyfiawnder ieuenctid**. Byddwn yn holi barn y sector yn haf 2026 am gynigion ar gyfer:

- fframwaith trosolwg cenedlaethol cymesur
- cryfhau'r trefniadau gyda'n partneriaid strategol

- sut y gall trosolwg wneud mwy i ddatrys anghysondebau parhaus
- sut y dylid newid y Safonau Cyfiawnder Ieuenctid cenedlaethol

4.20. I yrru'r newid hwn, **mae'r llywodraeth yma wedi sefydlu Cronfa Arloesi Cyfiawnder Ieuenctid newydd o £1.5m o leiaf dros 2027/28 a 2028/29.** Bydd yr arian hwn yn buddsoddi mewn profi dulliau radical newydd o leihau troseddau ieuenctid. Rydyn ni'n rhagweld ei wario ar nifer fach o brosiectau i brofi'n drylwyr ddulliau newydd ymarferol o gyflawni amcanion y Papur Gwyn hwn – er mwyn datblygu casgliadau ymarfer clir, seiliedig ar dystiolaeth i oleuo penderfyniadau polisi a chyllido i'r dyfodol.

4.21. Bydd y gronfa newydd yma'n adeiladu ar brosiectau 'Pathfinder' y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys y *London Accommodation Pathfinder*, a fu'n profi opsiynau cymunedol yn lle remand yn llwyddiannus. Fel rhan o ddiwygiadau'r llywodraeth o'r YJB (gw. yr adran nesaf), rhagwelwn y bydd yn chwarae rôl allweddol yn y gronfa arloesi hon fel rhan o'i rôl hanfodol barhaus mewn gyrru gwelliannau i'r system cyfiawnder ieuenctid. Byddwn yn egluro sut yn union y bydd y gronfa'n cael ei rhedeg maes o law.

4.22. Yn unol â'r bartneriaeth newydd a gyflwynodd y llywodraeth yn natganiad polisi Chwefror, rydyn ni'n awyddus i'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, a sefydliadau eraill gyda diddordeb mewn cyfiawnder ieuenctid, helpu i oleuo penderfyniadau'r llywodraeth am ba flaenoriaethau thematig i'w blaenoriaethu fel buddsoddiadau cyntaf y gronfa. Ar hyn o bryd bwriadwn ganolbwyntio i ddechrau ar y meysydd canlynol:

- systemau TG a dulliau dadansoddi ataliol – fel y disgrifiwn yn adran 4, rydyn ni eisiau i'r system cyfiawnder ieuenctid wneud defnydd gwell o'r dechnoleg ddiweddaraf i adnabod ac ymyrryd yn gynnar gyda phlant. Gallwn ddefnyddio'r gronfa hon i weithio gyda rhai gwasanaethau i brofi'r technolegau neu'r systemau gwaith achos newydd hyn;
- trais yn erbyn merched a genethod – bydd darparu cenhadaeth y llywodraeth o haneru VAWG, yn unol â Phennod 2, yn gofyn am ddull system-gyfan. Rydyn ni eisiau peilota ffyrdd newydd i'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid adnabod risg ac ymateb yn sydyn - gallai'r gronfa helpu i gyflawni'r nod hwn; a
- troi llai o blant gyda phrofiad o fod mewn gofal yn droseddwyr - gallai'r gronfa brofi dulliau arloesol o leihau troseddoli plant yn ddiangen, fel ymateb yn wahanol i argyfwng yn achos gofalwyr preswyl gan atal sefyllfa rhag arwain at garcharu.

4.23. Byddwn ni a'r YJB yn holi barn gwasanaethau a phartïon budd eraill dros y misoedd nesaf am y syniadau hyn (ac eraill) er mwyn penderfynu blaenoriaethau cynnar i'r gronfa o 2027/28 ymlaen. Rydyn ni'n disgwyl gallu cadarnhau'r blaenoriaethau thematig yn yr hydref.

## Adran 3: Pwrpas newydd i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

4.24 Ers ei greu yn 1998, mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) wedi chwarae rôl bwysig mewn llunio'r system cyfiawnder ieuenctid. Mae wedi chwarae rôl drosolwg gyda newidiadau ymarfer helaeth, cefnogi gwasanaethau lleol dros gyfnod o drawsnewid mawr a chyfrannu at leihau troseddau ieuenctid a'r defnydd o garcharu'n sylweddol dros yr ugain mlynedd diwethaf.

4.25 Ond mae'r cyd-destun y mae'r system yn gweithredu ynddo wedi newid yn sylfaenol ers 1998. Mae'r cohort cyfiawnder ieuenctid yn fach ond gyda chrynodiad uwch o anghenion cymhleth, mae'r ffactorau sy'n arwain at niwed yn fwy aciwt a'r pwysau ar wasanaethau rheng flaen lleol yn fwy na phan sefydlwyd y Bwrdd gyntaf. Mae'r tirlun atebolrwydd cyhoeddus hefyd wedi esblygu gyda phwyslais newydd ar drosolwg democrataidd ac effeithlonrwydd systemau'n dilyn Adolygiad Swyddfa'r Cabinet o Gyrff Cyhoeddus.

4.26 Yn Rhagfyr 2024, comisiynodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder adolygiad annibynnol o'r YJB a'i waith, wedi'i gyflawni gan Steve Crocker. Mae ei adroddiad yn asesiad gwerthfawr o gryfderau a heriau presennol y Bwrdd gan gynnig argymhellion clir ar sut y gallai gwaith y Bwrdd gefnogi system cyfiawnder ieuenctid fodern a deinamig yn well. Fodd bynnag, mae graddfa'r newid sydd ei angen – a'r neges glir o'r Adolygiad Cyrff Cyhoeddus ehangach – yn glir bod angen diwygio mwy helaeth nag y mae'r adroddiad hwnnw'n ei argymell.

4.27 Mae cylch gwaith yr YJB wedi esblygu'n barod dros amser. Daeth y newid yn y cyfrifoldeb am atebolrwydd gweithredol wrth drosglwyddo comisiynu carcharu i'r Gwasanaeth Carcharu Ieuenctid, rhan o Wasanaeth Carchardai a Phrawf EF, yn 2017. Daeth y newid hwn, fel y dylai, â Gweinidogion yn nes at benderfyniadau sy'n dylanwadu ar garcharu ieuenctid, gan sicrhau trosolwg democrataidd o gohort cynyddol fwy bregus ac sy'n cyflwyno â lefel gyfartalog uwch o angen.

4.28 Gyda llai o blant dan glo, mae'r pwysau ar wasanaethau cyfiawnder ieuenctid lleol wedi dwysáu. Mae anghenion mwy cymhleth a thueddiadau pryderus gyda thrais difrifol yn cynyddu'r pwysau ar dimau rheng flaen. Rhaid cael arweinyddiaeth genedlaethol a systemau cytûn i ateb yr heriau hyn.

4.29 I gwrdd â'r galwadau hyn, penderfynodd y llywodraeth yma ddiwygio rôl yr YJB i ganolbwyntio ar ble y gall ychwanegu'r gwerth mwyaf – cyfrannu mewnwelediad arbenigol ac annibynnol i ymarfer, adnabod a hyrwyddo arferion gorau a chefnogi gwasanaethau lleol i wella'n barhaus. Bydd y cylch gwaith newydd hwn yn harneisio arbenigedd sylweddol y Bwrdd a chryfhau atebolrwydd y llywodraeth ganolog gyda throsolwg, cyllido a monitro'r system cyfiawnder ieuenctid.

4.30 O dan y diwygiadau hyn, bydd cyfrifoldeb am nifer o swyddogaethau allweddol yn trosglwyddo o'r YJB i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder – gan gynnwys trosolwg genedlaethol ar y system cyfiawnder ieuenctid, monitro ei pherfformiad yng Nghymru a Lloegr, a datblygu Safonau Cenedlaethol. Maen nhw'n swyddogaethau a ddylai ddod o dan atebolrwydd democrataidd clir. Mae'r grant craidd ar gyfer y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, sydd wedi'i weinyddu ers tro byd gan yr YJB, hefyd wedi trosglwyddo i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder – gan gyfuno'r cyfrifoldeb am gyllido, trosolwg a pholisi mewn un lle.

4.31 Nid yw'r newid hwn yn lleihau pwysigrwydd yr YJB. Wrth i'r system esblygu, bydd llais annibynnol, arbenigedd thematig a ffocws yr YJB ar ymarfer gorau a gwella'n barhaus yn bwysicach nag erioed – er enghraifft i yrru gwelliannau sydd taer eu hangen ar faterion cymhleth a thrawsbynciol fel lleihau diffyg cymesuredd hiliol ac ymateb yn effeithiol i drais yn erbyn merched a genethod.

4.32 Wrth i'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid wynebu cyfnod o ddiwygio cyllid, gyda setliadau aml-flwyddyn a mwy o bwyslais ar arloesi a chydweithredu, bydd rôl yr YJB yn helpu i sicrhau bod gan dimau rheng flaen gefnogaeth i ddarparu gwaith cyson, ansawdd uchel a seiliedig ar dystiolaeth. Drwy wneud hynny bydd yn chwarae rhan ganolog mewn gwella canlyniadau i blant a chryfhau diogelwch y cyhoedd.

4.33 Fel bod gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a phartneriaid yn derbyn y cymorth ymarferol sydd ei angen arnynt i wella canlyniadau i blant, bwriadwn wneud defnydd gwell o adnoddau a data (yn unol ag adran 5 isod) a gweithio gyda phartneriaid fel *UK Research & Innovation*, a sefydliadau academaidd, i ateb ein prif feysydd diddordeb ymchwil, yn unol ag Atodiad A. Bydd hyn yn sicrhau bod canllawiau a chymorth o hyd yn dilyn y dystiolaeth a beth sy'n atal troseddu'n effeithiol.

**4.34** Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Bwrdd yr YJB Board wedi cytuno'r 'weledigaeth' ganlynol ar gyfer diwygio'r YJB: **Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid diwygiedig yn gyrru gwelliannau mesuradwy, seiliedig ar dystiolaeth ar draws y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid drwy adnabod beth sy'n gweithio, cefnogi arloesi a chyflymu mabwysiadu dulliau effeithiol i wella canlyniadau i blant, dioddefwyr a chymunedau.**

4.35 Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio mewn partneriaeth agos â'r YJB a'r sector ehangach i reoli a sicrhau bod y broses bontio'n dryloyw, llyfn a chefnogol o wasanaethau rheng flaen. Byddwn yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r sector wrth i gynlluniau ddatblygu, gan gyd-ddiweddaru, gwrando ar adborth a rhoi eglurder ar y goblygiadau gweithredol ymhell cyn i unrhyw newid ddod i rym. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn hefyd yn ystyried sut i gyflwyno rôl gryfach i Lywodraeth Cymru o ran perfformiad a throsolwg cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru.

4.36 I arwain y cyfnod newydd hwn, ym mis Ionawr penododd y llywodraeth Phil Bowen yn Gadeirydd dros dro ar yr YJB. Bydd ei brofiad helaeth o arloesi cyfiawnder troseddol a diwygio systemau'n rhoi arweinyddiaeth gref dros y cyfnod pontio hwn. Bydd recriwtio i benodi Cadeirydd parhaol i'r YJB yn dechrau'n fuan.

## Adran 4: Cryfhau rôl llywodraethau datganoledig a phartneriaid rhanbarthol

### Datganoli cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru

4.37 Fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu system cyfiawnder ieuenctid sy'n perfformio'n dda, mae'r llywodraeth yma'n cydnabod y rhan y mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid datganoledig yn ei chwarae mewn adnabod a chwrdd ag anghenion eu cymunedau lleol. Fel y disgrifiodd ddatganiad ar-y-cyd Llywodraeth Cymru ar 25 Mawrth 2026, byddwn yn cytuno ar rôl ehangach a chliriach i Lywodraeth Cymru fel rhan o ddiwygio'r system cyfiawnder ieuenctid yn ehangach. Ers sefydlu'r trefniadau presennol ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid yn 1998, mae cyd-destun gweithredol y gwasanaethau yng Nghymru wedi newid yn aruthrol ac rydyn ni'n ymrwymedig i'w diweddaru i adlewyrchu hynny.

4.38 Byddwn yn dechrau'r trefniant newydd hwn drwy ddatganoli cyllid, o fis Ebrill 2007 ymlaen, i leihau'r defnydd o remand i blant yng Nghymru, a hefyd ar gyfer ymyrryd yn gynnar ac atal, sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd drwy'r rhaglen *Turnaround.* Bydd hyn yn cynnig yr hyblygrwydd i Lywodraeth Cymru i leihau biwrocratiaeth y trefniadau cyllido presennol a chefnogi darparu mwy unffurf, a hefyd yn targedu'r cyllid yn well a theilwrio ymyriadau mewn ffordd sy'n adlewyrchu'r cyd-destun yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU hefyd wedi dechrau trafod creu rôl ehangach i Lywodraeth Cymru gyda'r grant craidd ar gyfer cyfiawnder ieuenctid.

4.39 Dymunwn hefyd drafod rôl gliriach a chryfach i Lywodraeth Cymru sy'n mynd ymhellach na datganoli'r cyllid. Fel rhan o adolygu a diwygio'r strategaeth a'r trosolwg ar gyfer gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid, byddwn yn parhau i weithio'n agos â Llywodraeth Cymru i adlewyrchu rôl sefydliadau democrataidd Cymru mewn

rhoi atebolrwydd democrataidd cryfach i wasanaethau datganoledig yng Nghymru, gyda golwg ar greu rôl ehangach a chliriach i Lywodraeth Cymru.

**Partneriaeth newydd feiddgar ag Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf**

4.40 Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod Awdurdod Cyfunol Manceinion Fwyaf (GMCA) fel partner rhanbarthol cryf ac ymddiriedol. Mae Manceinion Fwyaf mewn sefyllfa unigryw i dorri cwys gyda dull mwy uchelgeisiol, rhanbarthol o ddarparu cyfiawnder ieuenctid – un sy'n rhoi penderfyniadau'n nes at gymunedau a chynorthwyo gwasanaethau i ymateb yn hyblyg i angen lleol. Mae'r dull hwn yn adeiladu ar bartneriaethau hirsefydlog rhwng GMCA, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ei gynghorau cyfansoddol a'u gwasanaethau plant a chymunedol, a'i gyd-strategaeth ac awdurdod cyd-ffiniol â Heddlu Manceinion Fwyaf.

4.41 Dyna pam, o Ebrill 2026 ymlaen, ein bod wedi cronni'r cyllid *Turnaround* a remand cymunedol ar draws gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid Manceinion Fwyaf, gan roi awdurdod i GMCA gyfeirio a dosbarthu'r cyllid hwnnw ochr yn ochr â Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant Manceinion Fwyaf fel y dalwyr dyletswydd statudol. Bydd y trefniant hwn yn cynorthwyo mwy o gydlynu ar draws y system fel y gellir defnyddio'r cyllid yn fwy hyblyg mewn ymateb i angen lleol.

4.42 Rydyn ni hefyd yn ystyried yn weithredol sut i gryfhau'r bartneriaeth yma yn y dyfodol i adeiladu ar ein huchelgais gyffredin i wella canlyniadau i blant drwy ddulliau arloesol a lleol, gan gynnwys darparu trefniant tebyg ar gyfer y grant craidd cyfiawnder ieuenctid o Ebrill 2027 ymlaen. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a GMCA yn llofnodi 'datganiad partneriaeth strategol' cyn bo hir, yn cyflwyno ein cydamcanion ac egwyddorion darparu. Byddwn yn diweddaru ar gynnydd y trafodaethau hyn nes ymlaen eleni.

## Adran 5: Harneisio technoleg i gryfhau ymarfer

4.43 Rhaid arfogi'r system cyfiawnder ieuenctid gyda dulliau sy'n adlewyrchu realiti ymarfer modern. Er i natur troseddau plentyndod ac anghenion plant newid yn aruthrol, nid yw'r seilwaith digidol sy'n cynnal gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid wedi cadw ar y blaen i'r newidiadau bob tro – gall systemau a phrosesau wedi dyddio gyfyngu ar faint o amser y gall ymarferwyr ei dreulio'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd. Mae'r llywodraeth yma eisiau sicrhau bod gan wasanaethau cyfiawnder ieuenctid fynediad at dechnoleg fodern, ddibynadwy sy'n hwyluso ymarfer da a chefnogi barn broffesiynol.

4.44 Dylai ymarferwyr fod yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser a'u hegni ar ymgysylltu'n ystyrlon â phlant a theuluoedd, nid ar gadw cofnodion yn ddi-baid. Gwyddom fod rhai gwasanaethau lleol wedi achub ar gyfleoedd technolegau newydd yn barod, er enghraifft dulliau trawsgrifio a chynhyrchedd AI – byddwn yn ystyried sut y gall y llywodraeth gefnogi hyn ar draws y gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a charcharu ieuenctid, gan adeiladu ar ymarfer arloesol mewn rhannau eraill o'r system gyfiawnder.

4.45 Gwyddom hefyd fod potensial sylweddol heb ei gyflawni i ddefnyddio data a thechnoleg yn fwy rhagweithiol i gefnogi ymyrryd yn gynt a mwy priodol. Gallai dull mwy modern o ddefnyddio data gynorthwyo gwasanaethau i gyfuno gwybodaeth – gan gynnwys sgoriau a chanlyniadau asesu – gyda mewnwelediad proffesiynol. O'i ddefnyddio'n gyfrifol, gallai hyn gynorthwyo dealltwriaeth fwy 'crwn' o gryfderau, anghenion, risgiau a nodweddion bregus plentyn, i dargedu cymorth yn gynt a mwy cywir.

4.46 Mae llawer o awdurdodau lleol a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid eisoes yn ystyried sut y gallai defnydd gwell o ddata a thechnoleg helpu i adnabod risg yn gynt a chynorthwyo gwaith aml-asiantaethol mwy effeithiol ar draws addysg, gofal cymdeithasol plant, cyfiawnder ieuenctid a phlismona. Fel rhan o'i rôl ddiwygiedig, bydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, mewn partneriaeth â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn gweithio gyda gwasanaethau i adnabod sut y mae'r dulliau hyn yn cael effaith bositif, cefnogi rhannu dysgu a helpu i wasgaru ymarfer effeithiol ar draws y system.

4.47 **Ochr yn ochr â hyn, bydd y llywodraeth yn ystyried sut y gallai dysgu peirianyddol a dadansoddi uwch gael eu cymhwyso'n gyfrifol yn y system cyfiawnder ieuenctid i gefnogi ymyrryd yn gynnar ac atal niwed.** Nid awtomeiddio penderfyniadau fyddai nod y gwaith hwn ond rhoi'r mewnwelediad seiliedig ar dystiolaeth i ymarferwyr i helpu i adnabod lle y gallai cymorth weithio orau ac yn fwy amserol. Rydyn ni'n glir y bydd angen rhagofalon moesegol, technegol a gweithredol cryf i liniaru'r risg o stigmateiddio, rhagfarn neu o droseddoli plant yn ddiangen, ac y dylai unrhyw ddulliau oleuo nid disodli barn gweithwyr proffesiynol.

4.48 I gefnogi'r gwaith cymhleth hwn, mae'r llywodraeth yn sefydlu Panel Cynghori ar ddadansoddi ataliol ar gyfer cyfiawnder ieuenctid yn y gwanwyn 2026, i ddod ag arbenigedd academaidd ac ymarferwyr at ei gilydd i oleuo datblygiad y gwaith i'r dyfodol a sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal a risgiau'n cael eu lliniaru.

# Pennod 5: Amgylcheddau cadw dan glo sy'n diogelu'r cyhoedd a chefnogi adsefydlu

### Beth y mae'r llywodraeth yma wedi'i wneud yn barod:

Buddsoddi £300m mewn lleoliadau cyfiawnder ieuenctid mewn Cartrefi Diogel i Blant tan 2032.

Sefydlu Tasglu Perfformiad Carcharu Ieuenctid wedi'i gadeirio gan y Gweinidog Cyfiawnder Ieuenctid, i yrru gwelliannau tymor byr.

Comisiynu'r Prif Weithiwr Cymdeithasol Plant a Theuluoedd yn Lloegr i arwain adolygiad o drefniadau diogelu ar draws yr ystâd carcharu ieuenctid.

Cyhoeddi ymateb y llywodraeth i'r adolygiad annibynnol o enethod dan glo, sefydlu'r Bwrdd Cynghori Genethod Dan Glo, ac ymrwymo i gryfhau'r penderfyniadau ar gyfer rhoi genethod mewn Cartrefi Diogel i Blant, ynghyd â gwella gallu'r gweithlu i gefnogi a gofalu am enethod yn y carchar.

Wedi ehangu Rhyddhau ar Drwydded Dros Dro i helpu i gynllunio adsefydlu.

### Beth fydd y llywodraeth yma'n ei wneud:

Adolygu ydy'r ddeddfwriaeth ar gyfer lleoliadau ieuenctid dan glo'n parhau i fod yn addas i bwrpas.

Symud i ffwrdd o sefydliadau carcharu mawr tuag at leoliadau llai mwy plentyn-ganolog.

Cynyddu'r amser y mae plant yn ei dreulio allan o'u hystafelloedd mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc, yn cymryd rhan mewn addysg, gweithgareddau ystyrlon ac adsefydlu, o 50% o leiaf erbyn diwedd y Senedd hon.

Cyhoeddi Cynllun Trawsnewid Carcharu Ieuenctid yn yr hydref 2026, yn disgrifio cynlluniau ar gyfer yr ystâd garchardai yn y dyfodol, ei gweithlu cysylltiedig a beth a wnawn i gryfhau'r ddarpariaeth i blant.

5.1. Mae'r boblogaeth ieuenctid dan glo wedi gostwng yn ddramatig dros yr ugain mlynedd diwethaf, o dros 3,000 o blant a phobl ifanc yn 2004/5 i'w lefel isaf erioed o tua 410 yn Chwefror 2026.[67] Mae'r lleihad hwn yn adlewyrchu'r egwyddor

[67] Data Ieuenctid Dan Glo (2026) – GOV.UK

hirsefydlog y dylid ond carcharu plant yn niffyg popeth arall a’i gadw ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol.

5.2. Heddiw, mae’r ystâd ieuenctid dan glo’n dal rhai o’r plant mwyaf bregus mewn cymdeithas – plant a brofodd sawl haen o anfantais, trawma ac angen heb ei gwrdd drwy gydol eu bywydau. Mae’r plant hyn yn aml yn cyflwyno ag anghenion hynod gymhleth, ac angen ymyriadau dwys. Mae rhai grwpiau hefyd wedi eu gor-gynrychioli’n sylweddol yn y boblogaeth ieuenctid dan glo – plant Du a Chymysg, plant Mwslemaidd, Sipsi, Roma a Theithwyr, plant ag anghenion addysgol arbennig, anableddau neu niwro-amrywiaeth a phlant gyda phrofiad o fod mewn gofal.

5.3. Mae’r ystâd carchardai ieuenctid yn cynnwys pedwar ‘sector’ gwahanol:

- Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOI): Sefydliadau mwy, tebyg i garchardai, a ddefnyddir fel arfer ar gyfer plant hŷn. Mae gan y rhain gyfundrefn fwy haearnaidd, a chymhareb staff-i-blentyn is na rhannau eraill o’r ystâd.
- Canolfannau Hyfforddi Diogel (STC): Nod y rhain yw darparu cymorth dysgu ac ymddygiad mwy ffurfiol, gyda chymhareb staff-i-blentyn uwch, o’i gymharu â sefydliadau YOI.
- Cartrefi Diogel i Blant (SCH): Lleoliadau bach seiliedig ar les sy’n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol gan ddarparu gofal a chymorth dwys. Defnyddir y rhain yn bennaf ar gyfer plant iau neu fwy bregus, gyda phwyslais cryf ar ddiogelu a lles emosiynol a chymhareb staff-i-blentyn uwch na sefydliadau YOI a chanolfannau STC.
- Ysgolion Diogel: Model ieuenctid dan glo newydd; agorodd yr ysgol ddiogel gyntaf y llynedd, wedi’i rhedeg gan yr *Oasis Trust*. Ei nod yw integreiddio addysg, iechyd a gofal mewn lleoliad therapiwtig.

5.4. Fodd bynnag, nid yw pob amgylchedd sy’n dal llawer o’r plant hyn yn gallu cwrdd â’r anghenion hynny ar hyn o bryd. Er y lleihad sylweddol mewn niferoedd, mae amodau’r ystâd ieuenctid dan glo’n parhau i fod yn destun pryder mawr. Mae cyfraddau aildroseddu plant dan glo’n dal i fod yn llawer rhy uchel (roedd 62% o’r rhai a ryddhawyd yn 2023/24 wedi aildroseddu ymhen blwyddyn),[68] sy’n dangos bod y system yn methu ag adsefydlu plant yn effeithiol. Mae trais yn gyffredin – rhwng y plant a thuag at staff – gan greu amgylcheddau anniogel a helbulus sy’n tanseilio ymdrechion sefydlogrwydd neu waith therapiwtig. Mae lefelau hunan-niwed ar draws yr ystâd yn anesmwythol iawn ac yn arwydd o system sy’n cael

[68] Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

trafferth darparu diogelwch emosiynol neu gymorth iechyd meddwl digonol. Mae llawer o blant yn parhau i dreulio gormod o amser yn eu hystafelloedd gan gyfyngu'n arw ar eu mynediad at addysg, gweithgareddau ystyrlon a pherthnasoedd positif ag oedolion ymddiriedol. Lle y mae addysg ar gael, mae'r ddarpariaeth yn aml yn anghyson neu annigonol, gan amrywio'n fawr rhwng sefydliadau. Mae angen hyfforddiant arbenigol llawer cryfach ar staff ar draws yr ystâd i weithio gyda'r plant a gedwir dan glo.

5.5. Gwaethygir yr heriau hyn gan y ffaith bod y rhan fwyaf o Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOI) – lle y cedwir y rhan fwyaf o blant dan glo[69] – yn sylfaenol anaddas i bwrpas. Mae eu maint, cynllun adeilad a'u diwylliant yn anghyson â thystiolaeth gyfoes o ran sut orau i gefnogi plant dan glo. Mae amgylchedd mawr, sefydliadol yn ei gwneud yn anoddach creu diogelwch, sefydlogrwydd a pherthnasoedd parhaus – i gyd yn rhan graidd o adsefydlu effeithiol. Ond lle y mae enghreifftiau da o ymarfer positif, fel perfformiad YOI Parc, byddwn yn ceisio efelychu hyn ar draws yr ystâd gan sicrhau y gall arweinwyr ddysgu o, a chefnogi ei gilydd ar draws safleoedd.

## Adran 1: Sefydlogi a chryfhau'r ystâd heddiw

5.6. Er bod yr ystâd ieuenctid dan glo'n parhau i wynebu heriau dwfn, mae'r llywodraeth yma eisoes wedi cymryd camau pwysig i sefydlogi'r system, cryfhau diogelu a gwella profiadau a chanlyniadau i blant dan glo.

5.7. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid Dan Glo wedi cyflwyno Mapiau Ffordd at Ymarfer Effeithiol gyda chamau clir dros gyfnodau byr i wella perfformiad ar lefel safle. Mae'r rhain yn cynnwys cryfhau cynefino cynnar fel bod plant yn sefydlogi'n gynt ar ôl cyrraedd; gwreiddio goruchwyliaeth fyfyriol i gefnogi ymatebion cyson gan staff; ail-ddylunio'r gyfundrefn dan glo i warchod addysg a lleihau aflonyddwch gweithredol; a chymryd camau ymarferol i wella diogelwch, lleihau trais a gwella cwrteisi a pharch ar draws yr ystâd. Mae gwybodaeth achosion a mewnwelediad proffesiynol yn cael eu cyfuno'n gynyddol drwy gyfarfodydd cymorth aml-ddisgyblaethol, gan wella'r ymateb cydgysylltiedig i bob plentyn. Mae'r newidiadau hyn yn cael eu gweithredu ar y funud a thrwy gydol 2026-27 fel bod y gwelliannau'n gwreiddio ym mhob YOI yn syth.

5.8. Cartrefi Diogel i Blant yw'r sector sy'n perfformio orau yn yr ystâd ieuenctid dan glo (yn ôl dyfarniadau Ofsted), felly rydyn ni wedi ail-gomisiynu lleoliadau hanfodol mewn nifer o Gartrefi Diogel i Blant, gan eu gwarchod ymhell i mewn i'r degawd nesaf. Rydyn ni hefyd yn cefnogi plant i adsefydlu drwy newid y polisi gweithredol ar

[69] Ar gyfartaledd, roedd 63% o blant dan glo mewn YOI am y flwyddyn yn dod i ben Mawrth 2025. Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

Ryddhau ar Drwydded Dros Dro, fel y gall mwy o blant gynnal eu cysylltiadau â'u cymuned, derbyn addysg neu gyfle cyflogaeth a chryfhau eu gwydnwch cyn cael eu rhyddhau.

Er y cynnydd a wnaed eisoes, rhaid a bydd y llywodraeth yma'n gwneud mwy. Mae angen i ni gyflwyno newid sylfaenol ar draws yr ystâd ieuenctid dan glo, gan godi safonau i sicrhau bod profiad pob plentyn o fod dan glo'n ddiogel, ystyrlon a helpu i adsefydlu. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod pob plentyn yn treulio amser ystyrlon allan o'u hystafelloedd, yn cyfranogi mewn addysg ansawdd uchel sy'n cryfhau eu sgiliau craidd ac ymarferol i'w rhoi ar waith yn eu cymuned. Byddwn yn lleihau trais fel bod diogelwch yn dod yn norm i'r plant a'r staff. Bydd cymorth arbenigol yn cael ei ddarparu gan weithlu medrus a thosturiol sy'n deall anghenion plant ac yn gallu ffurfio'r perthnasoedd sefydlog ac adeiladol sy'n hanfodol i adsefydlu.

**Gyrru perfformiad ac atebolrwydd**

5.9. Mae'r llywodraeth yma'n cymryd camau pendant i wella perfformiad ar draws yr ystâd ieuenctid dan glo. Mae cyfraddau aildroseddu ar gyfer plant sy'n gadael y carchar yn dal i fod llawer rhy uchel. Mae gwella canlyniadau i blant dan glo – a'u gwneud yn llai tebygol o ddod yn ôl i'r system – yn ganolog i'n diwygiadau.

5.10. **Rydyn ni wedi sefydlu Tasglu Perfformiad Ieuenctid Dan Glo newydd, wedi'i gadeirio gan y Gweinidog Cyfiawnder Ieuenctid, i fonitro dangosyddion perfformiad allweddol yn drylwyr a gyrru gweithredu targed lle bo angen.**

5.11. Ochr yn ochr â hyn, mae'r llywodraeth yn cryfhau ei throsolwg ar gydraddoldeb a thegwch ar draws yr ystâd ieuenctid dan glo. Bydd defnydd gwell o ddata a mewnwelediad yn helpu i ddeall profiadau plant dan glo'n well, gan gynnwys lle mae'r canlyniadau'n wahanol rhwng grwpiau, er mwyn targedu gweithredu lle mae anghysondeb wedi'i adnabod. Y prif feysydd ffocws yw'r cynllun cymhellion ac ennill manteision, gwrandawiadau dyfarnu, a defnyddio grym.

5.12. Ni all ac ni fydd trais rhwng plant ac yn erbyn staff yn cael ei oddef. Byddwn yn craffu data trais ar sail tueddiadau tri a deuddeg mis i sicrhau bod unrhyw leihad yn bendant ac yn cael ei gynnal. Byddwn hefyd yn tracio dangosyddion hollbwysig eraill, gan gynnwys addysg o ansawdd uchel.

5.13. Rydyn ni'n ceisio cynyddu'n sylweddol faint o amser y mae plant yn ei dreulio y tu allan i'w hystafelloedd ar weithgareddau adsefydlu ystyrlon – addysg a hyfforddiant galwedigaethol, gweithgareddau cyfoethogi ac ymyriadau. Rydyn ni'n adolygu sut y mesurwn a chofnodwn y gweithgareddau hyn i fel bod gennym fesuriad cadarn i

fonitro cynnydd yn effeithiol. Ond dan y mesuriad presennol, y nod yw bod plant yn treulio o leiaf 50% yn fwy o amser allan o'r ystafell erbyn diwedd y Senedd hon.

**Gweithlu medrus a chynaliadwy**

5.14. Staff yw asgwrn cefn amgylchedd dan glo diogel a sefydlog. Pob dydd maen nhw'n gweithio mewn amodau anodd gyda phroffesiynoldeb, gwydnwch ac ymrwymiad dwfn i'r plant yn eu gofal. O gofio pa mor gymhleth yw anghenion plant dan glo, mae'n hanfodol i ni gefnogi, gwerthfawrogi ac arfogi'r gweithlu hwn i gwrdd â'r anghenion hynny.

5.15. Er mwyn cryfhau gallu a hyder y staff, rydyn ni'n ystyried sut orau y gallwn gefnogi'r gweithlu, gan gynnwys drwy ystyried cyfleoedd mentora ac ehangu rhaglenni a ddyluniwyd i hybu ymarfer myfyriol. Bydd hyn yn rhoi cymorth strwythurol a pharhaus i weithwyr cyfiawnder ieuenctid, gan greu lle ar gyfer ymarfer myfyriol, cryfhau gallu proffesiynol a gwella lles. Yn ei dro bydd hyn yn cryfhau'r gofal sy'n cael ei roi a'u perthynas gyda'r plant.

5.16. Byddwn yn monitro lefelau cwblhau hyfforddiant Lleihau a Rheoli ac Atal Corfforol yn agos i sicrhau bod gan staff y sgiliau i dawelu gwrthdaro a rheoli ymddygiad heriol yn ddiogel. Byddwn yn parhau i weithio'n agos â'r Panel Adolygu Atal Annibynnol fel bod staff yn atal yn gorfforol yn niffyg popeth arall.

5.17. Rydyn ni'n adolygu hyfforddiant sylfaenol i Weithwyr Cyfiawnder Ieuenctid Band 3 fel bo'n adlewyrchu dull plentyn-ganolog, a bwriadwn adolygu a chryfhau prosesau cynefino ar gyfer staff newydd ar bob graddfa. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid Dan Glo'n gweithio i ddenu a chadw gweithlu amrywiol gan gydnabod pwysigrwydd tegwch, ymddiriedaeth a bod yn gynrychiadol wrth ddarparu gwasanaeth dan glo effeithiol.

5.18. Fodd bynnag, mae'r llywodraeth eisiau gwneud mwy fyth ac yn ystyried sut i ehangu'r llwybrau i yrfaoedd ieuenctid dan glo fel y gall staff newydd – gan gynnwys rhai sydd erioed efallai wedi ystyried y math yma o waith o'r blaen – gyfrannu sgiliau ffres, profiadau amrywiol a safbwyntiau newydd i'r ystâd. Byddwn yn gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd ac rydyn ni eisoes yn edrych ar ein hymgyrchoedd recriwtio a'n prosesau dethol staff er mwyn targedu unigolion sy'n gallu cynnig y safbwyntiau ffres hyn. Byddwn yn dysgu o lwyddiannau ar draws y sector lle y mae rhaglenni penodol (fel *Teach First* ar gyfer addysgu neu *Frontline* ar gyfer gofal cymdeithasol) wedi ehangu'r llwybrau presennol i rolau rheng flaen i gynyddu arbenigedd. Byddwn yn cyflwyno cynlluniau mwy manwl o ran sut y bwriadwn ddarparu'r newid uchelgeisiol hwn mewn ieuenctid dan glo yn ein cynllun trawsnewid carcharu yn yr hydref.

5.19. Yn olaf, fel rhan o hyn byddwn yn ystyried ai'r modelau gweithredu presennol ar gyfer recriwtio, a lle staff ieuenctid dan glo yn y fframwaith carchardai ehangach, yw'r rhai gorau i gyflwyno'r safbwyntiau hynny.

**Rhoi diogelwch a lles yn gyntaf**

5.20. Ni ddylai'r un plentyn byth wynebu risg o niwed, yn sicr ddim yn ein gofal. Mae sicrhau'r safonau diogelu uchaf yn hanfodol bwysig. Mae'r llywodraeth yma wedi sefydlu Panel Diogelu i adolygu'r prosesau presennol, sicrhau mwy o graffu a darparu argymhellion yn y misoedd i ddod, i sicrhau y gweithredir ar unrhyw bryderon diogelu yn y dyfodol gyda'r brys priodol.

5.21. Er bod yr ystâd ieuenctid dan glo'n edrych yn dra gwahanol heddiw, mae'r llywodraeth yma'n ymrwymedig i ddysgu pob gwers bosib o ymchwiliad diweddar yr Ombwdsmon Carchardai a Phrawf i'r cam-drin erchyll yng Nghanolfan Cadw Dan Glo Medomsley rhwng 1961 a 1987. Ni all yr un llywodraeth byth ddadwneud y niwed dwfn a achoswyd i'r holl ddioddefwyr - ond rhaid a bwriadwn gymryd camau i sicrhau na all byth ddigwydd eto. Ar ran pob llywodraeth, ymddiheurwn o waelod calon am y boen a'r dioddefaint a deimlai ac y mae dioddefwyr a goroeswyr Medomsley'n dal i'w deimlo.

5.22. Rydyn ni wedi comisiynu Prif Weithiwr Cymdeithasol Plant a Theuluoedd Lloegr i arwain adolygiad o drefniadau diogelu ar draws yr ystâd ieuenctid dan glo. Drwy eu hargymhellion – ac arbenigedd y Panel Diogelu – byddwn yn cryfhau ymarfer diogelu ar draws y system. Bydd hyn yn cynnwys gwella'r diwylliant diogelu ymhlith staff drwy eu harfogi â hyfforddiant mwy effeithiol, gan sicrhau bod llwybrau clir a chyson i blant, a'r bobl o'u cwmpas, fod yn gallu codi pryderon diogelu a bod y system yn ymateb yn sydyn a phriodol pan godir y pryderon hynny.

5.23. Bydd y llywodraeth yma hefyd yn ystyried rolau a chyfrifoldebau gofal cymdeithasol plant mewn ieuenctid dan glo, fel rhan o adolygiad y Prif Weithiwr Cymdeithasol.

**Codi'r uchelgais addysg**

5.24. Mae llawer o blant yn dod i garchar gyda hanes o ddatgysylltu cronig o'r ysgol, gwahardd a bylchau mawr yn eu sgiliau llythrennedd a rhifedd sylfaenol. Y llynedd, barnodd Gomisiynydd Plant Lloegr fod addysg mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc yn rhy aml yn anghyson gyda ffocws cul, heb ei gysylltu i'r addysg a ddaeth cyn ac ar ôl dod allan o garchar, a ddim yn cefnogi rhai ag anghenion ychwanegol yn ddigonol. Casglodd yr adroddiad y gellid priodoli'r dirywiad yn y ddarpariaeth addysg i ddau beth allweddol – diffyg arbenigedd addysgol a chontractau addysg sy'n golygu nad oes gan lywodraeth fawr ddim rheolaeth a mewnbwn i'r ddarpariaeth addysg.

5.25. Rydyn ni felly wedi gofyn i Gomisiynydd Plant Lloegr ddatblygu cynigion ar gyfer diwygio sy'n rhoi sylw i'r gwendidau hirsefydlog hyn. Mae mewnwelediad cynnar yn awgrymu model mwy uchelgeisiol a syml - gyda disgwyliadau cliriach ac uwch i blant a staff o ran mynychu, ymgysylltu, cyflawni a rhagori mewn addysg. Ni ddylem ragdybio y bydd yr un modelau na weithiodd i'r plant hyn yn y gymuned yn effeithiol dan glo, ac rydyn ni'n ymrwymedig i roi'r awtonomi a'r adnoddau sydd ei angen ar staff i ddarparu'r addysg o'r ansawdd gorau posib.

**Cwrdd ag anghenion penodol genethod dan glo**

5.26. Mae'r llywodraeth yma'n cymryd camau sylweddol i wella profiadau genethod dan glo. Mae genethod yn cyfrif am gyfran fach iawn o'r cohort ieuenctid dan glo (2%)[70] ond yn aml gyda'r anghenion mwyaf cymhleth a lefel uchel o hunan-niwed.[71] Yn 2024, fe wnaethom gomisiynu Susannah Hancock i gynnal adolygiad annibynnol i leoliad a gofal genethod yn yr ystâd ieuenctid dan glo.

5.27. Yn Nhachwedd 2025, cyhoeddodd y llywodraeth ei hymateb i'r adolygiad annibynnol gan gyflwyno rhaglen waith glir. Ers hynny rydyn ni wedi sefydlu'r Bwrdd Cynghori Genethod Dan Glo (GYJAB), wedi'i gadeirio gan y Gweinidog Ieuenctid Dan Glo, i gynnal trosolwg lefel uchel a gyrru gwelliannau parhaus. Roedd cyfarfod cyntaf y Bwrdd yn ystyried cynnydd Prosiect Gofal Genethod 2026, a sut i gryfhau'r gefnogaeth i enethod ar draws y system cyfiawnder ieuenctid gan roi ffocws ar nodweddion bregus, bylchau yn y ddarpariaeth a blaenoriaethau i gryfhau atebion yn y gymuned.

5.28. I sicrhau bod gan blant fynediad at y cymorth a'r lleoliad mwyaf addas i'w hanghenion, rydyn ni'n gweithio'n agos â Rheolwyr Cofrestredig Cartrefi Diogel i Blant (SCH) a'r Gwasanaeth Ieuenctid Dan Glo i gryfhau eu penderfyniadau wrth ddewis lleoliadau dan glo. Mae'n galonogol iawn bod pob SCH wedi mabwysiadu 'protocol' newydd fydd yn cynnig mwy o gymorth a chefnogaeth gan SCH eraill i ddelio â rhai o'r plant mwyaf cymhleth yn y system – un o argymhellion allweddol yr adolygiad annibynnol.

5.29. Mae'r llywodraeth yma'n ymrwymedig i weithio'n agos â staff rheng flaen a chynghorwyr clinigol i ddyfnhau ein dealltwriaeth o anghenion genethod a chreu sylfaen gadarn o dystiolaeth i oleuo gwaith yn y dyfodol ar sut orau i gwrdd â'r anghenion hynny.

5.30. Ar wahân i'r ymrwymiadau hyn, byddwn yn parhau i ystyried newidiadau ehangach i wella profiadau a chyfleoedd y cohort bach ond, yn aml, hynod gymhleth hwn. Fel

70 Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

71 Diogelwch yn yr Ystâd Ddiogel i Blant a Phobl Ifanc: Diweddariad hyd at Fedi 2025 (2026) – GOV.UK

rhan o hyn, rydyn ni'n ystyried ble y mae genethod yn cael eu lleoli ac ai dyma'r trefniadau mwyaf priodol i'w hanghenion o hyd.

## Adran 2: Gweledigaeth ar gyfer y dyfodol

5.31. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i wahanol leoliadau dan glo bron yn 30 oed ac yn adlewyrchu gwahanol system i'r un sy'n bodoli heddiw. Wrth i ni newid y system cyfiawnder ieuenctid yn ehangach i fod yn addas i'r dyfodol, mae'r un peth yn berthnasol gyda rheolau ein hystâd ddiogel. **Bydd y llywodraeth yma felly'n ystyried ydy'r ddeddfwriaeth ar gyfer lleoliadau ieuenctid dan glo'n parhau i fod yn addas i bwrpas - yn darparu amgylchedd sy'n diogelu a helpu plant i adsefydlu.**

5.32. Fodd bynnag, rhaid i ddyfodol yr ystâd ieuenctid dan glo symud i ffwrdd felly o sefydliadau mawr sydd wedi dyddio a thuag at leoliadau llai, sy'n canolbwyntio mwy ar y plentyn. Bydd unedau mwy teuluol – fel y rhai mewn Cartrefi Diogel i Blant – wrth galon y drefn newydd hon, oherwydd gwyddom fod yr amgylcheddau hyn mewn sefyllfa well i gynnig y gofal therapiwtig a'r addysg ansawdd uchel sy'n helpu plant i ail-adeiladu eu dyfodol.

5.33. Mae canlyniadau i blant a gollodd eu rhyddid – p'un ai ar sail cyfiawnder neu les – yn dal i fod yn annerbyniol o wael, gyda chost gydol oes uchel iawn. Ni fydd yn hawdd o gwbl datrys y problemau dwfn hyn ond nid yw cadw pethau fel y maen nhw'n opsiwn.

5.34. Rhan o'r her yw'r system ei hun. Nid oes un system ofal ddiogel, gydlynus ar gyfer lles, cyfiawnder ac iechyd. Mae'r tirlun deddfwriaethol, ariannol a chomisiynu'n gymhleth gan rychwantu amryw o wahanol adrannau a rhanddeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol – yn rhy aml mae lleoliad y plentyn yn dibynnu ar eu llwybr i gyrraedd y lleoliad yn hytrach nag angen sylfaenol y plentyn. Mae'r tirlun gwasgarog hwn yn codi cwestiynau difrifol am werth am arian ond, yn bwysicach na dim, yn cyfyngu gallu'r system i ddarparu gofal cyson o ansawdd uchel.

5.35. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymrwymedig i weithio'n agos â'r Adran Addysg, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol / GIG Lloegr, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill, i feddwl yn greadigol am beth ddylai gofal diogel edrych fel yn y tymor hir. Ni fyddwn felly'n cyfyngu ein huchelgais i lwybrau cyfreithiol plant i mewn i'r system gan roi ffocws yn hytrach ar beth sydd ei angen ar blant i ffynnu.

5.36. **Bydd y llywodraeth yn cyflwyno ei huchelgais hirdymor ar gyfer ieuenctid dan glo'n fwy manwl mewn Cynllun Trawsnewid Ieuenctid Dan Glo pwrpasol, i'w gyhoeddi yn yr hydref 2026.** Hwn fydd y datganiad cynhwysfawr cyntaf o'n

gweledigaeth ar gyfer ieuenctid dan glo mewn cenhedlaeth, gan adlewyrchu'r newid dwfn ym maint, cyfansoddiad ac anghenion y cohort dan glo dros yr ugain mlynedd diwethaf. Bydd y cynllun yn amlinellu cyfeiriad clir ar gyfer rôl carcharu fel rhan o system cyfiawnder ieuenctid fodern ar gyfer y dyfodol a sut y bwriadwn fynd i'r afael â'r heriau mawr sy'n wynebu'r ystâd, a chryfhau diogelwch ac adsefydlu.

# Pennod 6: System cyfiawnder ieuenctid fodern sy'n atal troseddu

6.1. Mae'r heriau sy'n wynebu plant a chymunedau heddiw'n sylfaenol wahanol i heriau a wynebodd genedlaethau blaenorol. Ochr yn ochr â hyn, mae patrymau troseddau ieuenctid a sut y deliwn â nhw, a'r cohort plant a gefnogwn, hefyd wedi newid. Ond eto, nid yw'r system cyfiawnder ieuenctid wedi cadw ar y blaen i'r newidiadau hyn gan ymateb yn rhy hwyr ac anghyson yn aml, neu mewn ffyrdd sydd ddim yn adlewyrchu'r dystiolaeth o beth sy'n gweithio i atal troseddu a chadw cymunedau'n ddiogel.

6.2. Gyda'i gilydd, bydd ein pecyn o ddiwygiadau'n cyflwyno newid sylfaenol. Rhaid i system cyfiawnder ieuenctid ymyrryd yn gynt, ymateb yn gyson a chymesur a sicrhau bod adsefydlu wrth ei chalon. Ond rhaid iddi hefyd gymryd risg o ddifrif ac ymateb yn bendant pan fydd arwyddion rhybuddio'n codi neu ymddygiad yn gwaethygu.

6.3. I blant, mae'n golygu system wedi'i harfogi'n well i atal plant rhag troi at droseddu, sydd ddim yn troi plant yn droseddwyr yn ddiangen ac yn rhoi cymorth wedi'i deilwrio ar sail tystiolaeth lle y digwyddodd niwed. Drwy ddilyn y dystiolaeth am beth a wyddom sy'n atal aildroseddu, bydd y system wedi'i harfogi'n well i helpu i droi plant draw o droseddu a thuag at ddyfodol mwy diogel a phositif.

6.4. Ar gyfer cymunedau a dioddefwyr, bydd y pecyn diwygiadau hwn yn diogelu'r cyhoedd yn gryfach drwy leihau niwed yn y lle cyntaf, ac ymateb yn fwy effeithiol pan fydd niwed yn digwydd. Gall troseddu parhaus, hyd yn oed digwyddiadau sy'n ymddangos i fod yn rhai llai difrifol, gael effaith ddifrifol gronnus ar ddioddefwyr, cymdogaethau a ffydd y cyhoedd. Bydd mynd i'r afael â'r rhesymau wrth wraidd troseddu, ymyrryd cyn i niwed ddigwydd neu waethygu ac ymateb yn amserol, ar sail tystiolaeth gyda ffocws ar adsefydlu, yn greiddiol bwysig i leihau dioddefwyr troseddau ieuenctid. Bydd mwy o gysondeb, trosolwg ac atebolrwydd ar draws y system yn helpu i roi mwy o hyder bod cyfiawnder ieuenctid yn gadarn, teg ac effeithiol.

6.5. Ac i'r grwpiau hynny o blant y gwyddom sydd wedi eu gor-gynrychioli yn y system cyfiawnder ieuenctid, bwriedir i'r pecyn diwygiadau hwn ddarparu cymorth cynt, tecach a mwy effeithiol. Mae'r llywodraeth yma'n glir na ddylid gweld gor-gynrychiolaeth fel rhywbeth anochel, ond eto'n cydnabod y cysylltiad cymhleth

rhwng anfantais, angen heb ei gwrdd, cysylltiad â niwed a phatrymau penderfynu sy'n gallu dylanwadu ar siwrne plant drwy'r system.

6.6. Gyda'i gilydd, mae'r diwygiadau a gyflwynwn wedi eu dylunio i atal plant rhag troi at droseddu, lleihau eu troseddoli'n ddiangen, a sicrhau ymatebion cymesur, cyson gyda ffocws ar adsefydlu. Bydd y newidiadau hyn yn gwella canlyniadau i bob plentyn, yn enwedig grwpiau sydd ar hyn o bryd yn fwy tebygol o gael eu tynnu mewn i'r system.

6.7. Bechgyn yw'r mwyafrif llethol o blant yn y system cyfiawnder ieuenctid.[72] I lawer o'r bechgyn sy'n dod o gefndiroedd difreintiedig – gan gynnwys bechgyn dosbarth gweithio Gwyn – bydd ymyrryd yn gynt, atal yn gryfach a defnydd mwy cyson o ddulliau arallgyfeirio'n lleihau'r risg o droi at droseddu a helpu i gwrdd ag anghenion cyn i batrymau troseddu wreiddio. Drwy ymyrryd ar yr amser iawn ac ymateb mewn ffyrdd seiliedig ar dystiolaeth ac adsefydlu, bydd y system mewn sefyllfa well i gefnogi llwybrau mwy diogel a phositif.

6.8. I blant gydag AAAA / ADY a niwro-amrywiol, bydd y diwygiadau hyn yn helpu i symud i ffwrdd o droi plant ag anghenion heb eu cwrdd na'u deall yn droseddwyr. Bydd adnabod yn gynt, mwy o rannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, ac asesu mwy cyson gan wasanaethau cyfiawnder ieuenctid, yn helpu i sicrhau bod ymddygiad yn cael ei ddeall yn well ac ymatebion yn cael eu teilwrio i amgylchiadau ac anghenion unigol y plant.

6.9. Ac i blant o gefndiroedd lleiafrifol ethnig, bydd y pecyn diwygiadau hwn yn gwneud y system cyfiawnder ieuenctid yn decach a mwy cyson. Mae bron i 10 mlynedd wedi pasio ers Adolygiad Lammy ond eto mae anghysondebau hiliol parhaus yn tanseilio ffydd yn y system ac mewn perygl o wreiddio anfantais yn lle helpu plant i droi draw o niwed. Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol yn ganolog i weledigaeth y llywodraeth o system cyfiawnder ieuenctid fodern sy'n rhoi canlyniadau gwell ac y mae gan y cyhoedd hyder ynddi.

6.10. Mae ein diwygiadau'n dechrau ar raglen gynhwysfawr i ddelio â'r ffactorau sylfaenol ac allweddol sy'n creu diffyg cymesuredd yn y system. Diben y diwygiadau i eiriolaeth gyfreithiol, arallgyfeirio, llysoedd, remand, dedfrydu a chofnodion troseddol yw troi llai o blant yn droseddwyr yn ddiangen, hyrwyddo penderfyniadau cymesur a sicrhau bod plant o hyd yn cael eu cefnogi yn y gymuned pan fo'n ddiogel a phriodol gwneud hynny.

6.11. Bydd newid parhaol yn dibynnu nid yn unig ar ddyluniad y polisi cenedlaethol ond ar sut y gweithredir diwygiadau'n lleol. Bydd y llywodraeth yn monitro effaith y

72 Ystadegau Cyfiawnder Ieuenctid: 2024 - 2025 (2026) – GOV.UK

diwygiadau allweddol yn agos gan ddefnyddio data wedi'i ddadgyfuno i dracio niferoedd yn gyffredinol a chynrychiolaeth gymesur ar draws y system. Os yw'r dystiolaeth yn dangos bod anghysondeb yn parhau neu'n cynyddu, byddwn yn cymryd camau pellach i ddeall a mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol.

6.12. Bydd atebolrwydd lleol cryf, trosolwg gwell a gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth – gan gynnwys gyda chyrff gwirfoddol a chymunedol – yn greiddiol bwysig i sicrhau bod y diwygiadau hyn yn troi'n newid ystyrlon ar y ddaear. Dylai ffocws newydd yr YJB ar welliannau parhaus fod yn ganolog i hyn, gan helpu gwasanaethau i ddeall y prif broblemau ac i fabwysiadu ymarfer effeithiol.

6.13. Drwy'r diwygiadau a gyflwynwn, craffu eu heffaith yn barhaus a'r ymgysylltu a datblygu polisi fydd yn digwydd, mae'r llywodraeth yma'n ymrwymedig i greu system cyfiawnder ieuenctid sydd nid yn unig yn deg mewn egwyddor, ond hefyd yn ymarferol – un sy'n helpu pob plentyn i droi draw o droseddu a thuag at ddyfodol cadarnhaol.

6.14. Bydd angen ffocws parhaus a chydlynu ar draws llywodraeth i gyflwyno'r diwygiadau hyn. **Bydd y llywodraeth yma felly'n sefydlu Tasglu Cyfiawnder Ieuenctid traws-lywodraeth** i greu a chynnal ffocws a momentwm gyda darparu'r ymrwymiadau a ddisgrifiwyd, gan fonitro ydyn nhw'n cyflawni'r canlyniadau 'byd go iawn' sydd mewn golwg.

6.15. Ac i sicrhau darparu tryloyw ac atebolrwydd am ddarparu, **bydd y llywodraeth yma'n cyhoeddi diweddariadau cynnydd blynyddol o leiaf ar weithredu'r diwygiadau hyn gan fonitro tueddiadau yn y canlyniadau y maen nhw'n ceisio eu gwella.**

# Atodiad A: Cwestiynau aur am ymchwil

Disgrifiwn isod rai o'r bylchau allweddol mewn tystiolaeth sydd angen sylw i helpu i ddarparu diwygiadau cyfiawnder ieuenctid effeithiol. Eu nod yw tywys ymchwil, gwerthuso a datblygu data i'r dyfodol a sicrhau bod penderfyniadau polisi a gweithredol ar draws cyfiawnder ieuenctid wedi eu goleuo gan dystiolaeth gadarn. Gellid ychwanegu cwestiynau eraill ac nid ydynt ychwaith yn rhagfarnu canlyniadau polisi. Yn hytrach, cawsant eu dylunio i gefnogi cydweithrediad â'r gymuned ymchwil, gwella dealltwriaeth o beth sy'n gweithio i blant, a chryfhau'r dystiolaeth dros amser.

- Sut allwn ni asesu pa mor effeithiol yw gweithgareddau arallgyfeirio ieuenctid, gan gynnwys canlyniadau hirdymor i blant sydd wedi eu troi draw o'r system cyfiawnder ieuenctid?
- Beth sy'n gweithio i helpu i adnabod plant gyda risg o broffiliau troseddu penodol yn gynt, fel troseddau cyson a threisgar difrifol, er mwyn targedu gwasanaethau ac ymyriadau'n well?
- Sut allwn ni ddeall lefelau troseddu a gyflawnir gan blant yn well, ac effaith ymyriadau ar wahân i gyfraddau (ail)droseddu a brofwyd?
- Pa fath o ymyriadau ac atebion cyfiawnder ieuenctid sy'n gweithio orau i leihau (ail)droseddu a hyrwyddo canlyniadau bywyd positif i blant, ar gyfer pwy, o dan ba amgylchiadau a pham? Er enghraifft, a oes pwyntiau ymyrryd hollbwysig ac ydy rhai dulliau'n gweithio'n well i blant gyda nodweddion neu o gefndiroedd penodol? Ydy ymyriadau trosedd-benodol yn effeithiol, er enghraifft trais yn erbyn merched a genethod, a throseddau cyllyll?
- Beth yw cost-effeithiolrwydd cymharol ymyriadau cyfiawnder ieuenctid?
- Sut allwn ni ddeall siwrneiau cymhleth drwy'r systemau cyfiawnder ieuenctid a chyfiawnder teuluol yn well, gan gynnwys cyswllt â'r rhwydwaith ehangach o wasanaethau plant?
- Beth yw'r cysylltiadau rhwng ecsbloetio a cham-drin plant, a throseddau ieuenctid?
- Sut allwn ni ateb yr anghysondeb yn y system cyfiawnder ieuenctid? Pam fod rhai plant yn cael eu troi'n droseddwyr ac eraill ddim?
- Faint o effaith y mae mabwysiadu dull "Plentyn yn Gyntaf" yn ei gael ar wella canlyniadau i blant a chefnogi hunaniaeth pro-gymdeithasol?

- Beth sy'n rhwystro a chynorthwyo i ddarparu ymarfer cyfiawnder ieuenctid seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys dulliau "Plentyn yn Gyntaf"? Pa fodelau a strwythurau darparu sydd fwyaf effeithiol?
- Beth y mae system cyfiawnder ieuenctid lwyddiannus yn edrych fel i wahanol grwpiau, gan gynnwys dioddefwyr, plant, a'r cyhoedd? Pa ffactorau allwn ni eu defnyddio i fesur llwyddiant?

E03609628

978-1-5286-6516-2